WHQ
WELSH HOUSING QUARTERLY
RHIFYN 134 • GORFFENNAF 2024 • WWW.WHQ.ORG.UK
Syniadau newydd am dai ac adfywio

# Y siwrnai ddigidol

## Sut mae data yn gwneud gwahaniaeth

Etholiad y DU a thai

Beth nesaf wrth i ddatganoli gyrraedd ei 25?

Mynd i'r afael â lleithder a llwydni



SHELTER CYMRU

BUY YOUR TICKETS | PRYNWCH EICH TOCYNNAU:

# PEOPLE & HOMES

Wednesday 23 October

# POBL A CHARTREFI

Ddydd Mercher 23 Hydref

## CONFERENCE 2024

Wales is in the midst of a housing emergency. Right now, more than 11,500 people are homeless and trapped in temporary accommodation and almost 140,000 people on social housing waiting lists.

Ending this housing emergency is possible. And at the heart of doing so is increasing the availability of high quality social homes. Without this ending homelessness in Wales simply won't be possible.

People and Homes Conference 2024 will put social housing at the heart of the discussion. With panels of experts offering insight into the vital role of social homes and providing views on how we can change the system to increase the numbers of social homes available and end the housing emergency once and for all.

## CYNHADLEDD 2024

Mae Cymru yng nghanol argyfwng tai. Ar hyn o bryd, mae mwy na 11,500 o bobl yn ddigartref ac yn gaeth mewn llety dros dro a bron i 140,000 o bobl ar restrau aros am dai cymdeithasol.

Mae dod â'r argyfwng tai hwn i ben yn bosibl. Ac wrth galon gwneud hynny mae cynyddu argaeledd cartrefi cymdeithasol o safon uchel. Heb wneud hyn ni fydd rhoi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru yn bosibl.

Bydd Cynhadledd Pobl a Chartrefi 2024 yn rhoi tai cymdeithasol wrth galon y drafodaeth. Gyda phaneli o arbenigwyr yn cynnig cipolwg ar bwysigrwydd hanfodol cartrefi cymdeithasol ac yn rhoi barn ar sut y gallwn newid y system i gynyddu nifer y cartrefi cymdeithasol sydd ar gael, a dod â'r argyfwng tai i ben unwaith ac am

**Speakers include | Mae'r siaradwyr yn cynnwys:**



**Vicky Spratt**
Journalist, authour and housing rights advocate
Newyddiadurwr, awdur ac eiriolwr hawliau tai



**Julie James MS**
Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio.



**Ruth Power**
CEO, Shelter Cymru
Prif Swyddog Gweithredol Shelter Cymru

**sheltercymru.org.uk/peopleandhomes2024**

Registered Charity Number | Rhif Elusen Gofrestredig: 515902

# CYNNWYS


9


**8 Ymlaen â'r gwaith**
*Wendy Dearden yn cyflwyno gwaith newydd ar dai cymdeithasol gan Sefydliad Bevan.*

**9 Wedi'r tirlithiad**
*Jules Birch yn ystyried oblygiadau buddugoliaeth Llafur yn San Steffan i dai yng Nghymru*

14 **Siwrnai ddatganoledig**
*Ar 25ain mlwyddiant datganoli, cyfranwyr WHQ yn rhoi eu barn ar ei lwyddiant hyd yn hyn a'r hyn sydd eto i ddod.*


**23 DATA**

24 **Gwybod yr hyn na ŵyr pobl eraill**
*Bethan Jones yn archwilio beth a ddywed data Rhentu Doeth Cymru wrthym am gyflwr y sector rhentu preifat*

26 **Diogelu gwybodaeth bersonol yn y maes tai**
*David Teague yn rhannu cyngor ar sut i ddiogelu gwybodaeth bersonol preswylwyr a chadw systemau'n ddiogel*

28 **Pontio'r gagendor digidol**
*Sut y gall landlord helpu cymunedau lleiafrifol ethnig i ddefnyddio gwasanaethau tai digidol? Adroddiad Sacha Hasan a Gina Netto*

30 **Pŵer gweithio gyda'n gilydd**
*Gareth Leech sy'n ystyried siwrnai ddata Cartrefi Conwy*

26


31 **Cael pob peth yn iawn bob tro**
*Andrea Gale sy'n ystyried data, sut y mae wedi newid, a pham ei fod yn ddigon pwysig i fod ag angen cyfarwyddydd gweithredol*

32 **Symud y tu hwnt i gam un**
*Dylai dadansoddi data cydraddoldeb fod yn rhan allweddol o wella gwasanaethau medd Alicja Zalesinska*

34 **Targedau ar ein cefnau**
*Dewi Knight yn awgrymu yr hyn ddylai gweinidogion a chynghorwyr polisi ei ystyried wrth osod targedau*

37 **Beth os? Grym y bwrdd chwilfrydig**
*Mewn byd cymhleth, mae'n hanfodol i aelodau bwrdd holi'r cwestiynau iawn, medd Sophie Wint.*

38 **Glasbrint ar gyfer y dyfodol**
*Matt Dicks yn rhannu rhai syniadau ar sut i gynyddu gweithgynhyrchu cartrefi fforddiadwy oddi ar y safle*

40 **Chwarae gêm ddifrifol**
*Helen Taylor yn adrodd ar brosiect i gyd-greu ffordd o ddatrys problemau lleithder a llwydni*

42 **Croeso cynnes neu amddifadedd bwriadol?**
*Joy Kent yn galw am ddull strategol cydweithredol o fynd ati i letya pobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru*

44 **'Caiff Caerdydd ei chipio!'**
*Jonathan Roberts yn dathlu 150eg mlwyddiant Byddin yr Iachawdwriaeth yng Nghymru*

49 **Adeilad bach, argraff fawr**
*Lisa Lloyd yn adrodd ar y modd y gall llety i rai'n gadael ysbyty newid bywydau a lleddfu pwysau ar y GIG*

50 **Chwyldro digidol mewn creu cartref**
*Mae newidiadau radical yn ein ffordd o fyw yn her i'r modd y byddwn yn dylunio'n cartrefi, medd Steven Smith*

**DIWEDDARIADAU**

5 **Diweddariad cyllid**
10 **Diweddariad polisi**
21 **Diweddariad o'r Senedd**
22 **Diweddariad rheoliadau**
46 **Diweddariad cefnogaeth**
54 **Diweddariad ymchwil**

**TUDALENNAU NAWDD**

**2, 4, 36, 52-53, 55**



8


14

*Os cewch unrhyw broblem gyda'ch cyfrif defnyddiwr, cysylltwch â* ***Matthew.Dicks@cih.org***




# Creu strategaethau cydnerth

**Llywodraethiant ac ansawdd data yw rhagflaenwyr penderfynu ar sail data, medd Ian Lever a Jason Baines**

**Yn nhirwedd bythol gyfnewidiol y sector tai cymdeithasol, sicrhau iechyd a diogelwch preswylwyr yw'r brif flaenoriaeth o hyd. Boed hynny drwy ddarparu rhaglenni cydymffurfio effeithiol neu sicrhau bod ansawdd ein heiddo yn bodloni SATC 2023 a darparu amgylchedd byw iach, mae data cywir yn allweddol i ddeall anghenion preswylwyr a gallu landlordiaid i'w gwasanaethu. Mae meddu ar y gallu i benderfynu'n wybodus ar sail data yn hollbwysig.**

## CANOLBWYNTIO AR ANSAWDD DATA

Mae holl gyrff Llywodraeth y DU wedi canolbwyntio'u sylw ar ansawdd data a'r defnydd o ddata cywir i sicrhau bod gan landlord y gallu i ddarparu gwasanaethau hanfodol. Mae'r dyddiau pan allai swyddogion gweithredol feio ansawdd y data am fethiant i gydymffurfio wedi mynd.

Mae'r neges yn glir; mae byrddau a swyddogion gweithredol yn gyfrifol am ddata sefydliad a'i gywirdeb. Sydd felly yn codi'r cwestiwn, pe bai rhywun yn gofyn i chi am darddiad eich data, sut y casglwyd y data a sut y caiff ei gynnal, a fyddech yn gallu ateb yn fanwl gywir? Ydych chi'n gwybod ble mae'ch data'n cael ei storio, ac yn bwysicach fyth, a yw'r cyfan wedi'i storio yn yr un lle, neu a oes sawl fersiwn o'r gwirionedd ar draws y sefydliad?

Mae momentwm cynyddol o fewn y sector tuag at greu strategaethau data cydnerth, gweithredu rhaglenni llywodraethiant data ac ansawdd data cynhwysfawr, ac edrych yn rhagweithiol am broblemau gydag ansawdd data a mynd ati i'w datrys yn syth. Mae hwn yn newid pwysig mewn blaenoriaethau ond, a bod yn onest, mae'n mynd i gymryd amser, ond hefyd adnoddau sylweddol i sicrhau y gwneir hyn yn iawn.

Nid mater o hogi sgiliau data yn unig mo hyn, ond manteisio ar arbenigedd arbenigwyr yn y pwnc i ddilysu rheolau, canfod ac adrodd ar unrhyw broblemau ansawdd. Yn anffodus, dyw'r adnoddau na'r amser gofynnol ddim ar gael yn rhwydd, ac yn aml nid yw'r prosiectau ansawdd data hyn yn darparu llawer mwy na strategaeth.

## GORMOD O OFFER AR GYFER Y GWAITH?

Mewn llawer o sefydliadau, mae data wedi ei wasgaru ar draws sawl system rheoli data, am amryw o resymau. Efallai y cyfunwyd dau sefydliad heb i'r data gael ei integreiddio'n gywir rhwng systemau gwahanol. Mae rheoli sawl system a etifeddwyd yn arwain at ddyblygu data yn y pen draw, gan greu'r tebygrwydd o anghysondeb, aneffeithlonrwydd a diffyg cywirdeb, yn ogystal ag anhawster gyda chaffael data, ei ddadansoddi ac adrodd arno. Mae'r cymysgedd di-drefn yma o ddata yn ei gwneud hi'n amhosib gweld darlun cyfannol.



Ceir dyfeisiau sy'n honni eu bod yn gwneud y gwaith codi trwm o ran sicrhau ansawdd data, ac yn wir, mae rhai yn reit dda. Ond yn ymarferol, mae'n anodd i lawer o sefydliadau fanteisio i'r eithaf ar y fath offer – o'r cyflunio cychwynnol, i gadw i fyny â newidiadau i brosesau busnes a sicrhau eu bod yn adrodd yn gywir. Yn ogystal, mae'r sôn am broblemau gyda data ffug-bositif yn destun braw. Ac nad anwybydder yr eliffant yn y stafell, sef pris uchel y fath offer, sy'n aml yn peri i'r rhai sy'n penderfynu ar faterion o'r fath i amau eu gwerth.

Felly, sut mae mynd i'r afael â'r meysydd ollbwysig hyn yn effeithiol, yn enwedig os nad ydych yn gallu llogi peirianwyr data neu reolwyr strategaeth/prosiect?

## GALLWN NI YN ALTAIR HELPU

Gallwn eich helpu i adeiladu strategaeth ddata bwrpasol, cefnogi eich sefydliad i ymgysylltu â'ch perchnogion data (gan nad yw TG yn berchen ar eich data), helpu i greu strwythur llywodraethiant a nodi problemau parthed ansawdd data.

Gwyddom bod eich amser yn werthfawr, a dyna pam yr awgrymwn ddull pragmatig o fynd ati, gan edrych ar setiau data allweddol i ddechrau. Fe wnawn ni'r gwaith caib-a-rhaw ac argymell camau gweithredu, gan adrodd yn ôl yn achlysurol. Rydym yn ystyried ansawdd data yn wasanaeth a gwelwn hyn fel perthynas fforddiadwy, gyson yn seiliedig ar wella sut y byddwch yn ymdrin ag ansawdd data a defnyddio'ch data yn effeithiol.

Os hoffech ddysgu mwy am sut y gallwn eich helpu i ymdrin yn effeithiol â llywodraethiant data ac ansawdd data, gan gynnig mwy o sicrwydd ynghylch eich setiau data hanfodol, da chi, cysylltwch â ni.

**Ian Lever yw cyfarwyddydd ymgynghori digidol a thechnoleg yn Altair (*ian.lever@altairltd.co.uk*) a Jason Baines yw'r prif ymgynghorydd (*jason.baines@altairltd.co.uk*)**






# Penderfynu cywir ar sail hanfodion cywir

Sarah Prescott yn rhoi cywirdeb data a chyllid yng nghyd-destun tai

**Prin y gellir dychmygu cyllid effeithiol yng nghyd-destun tai heb swm sylweddol o ddata. Mae crynswth y data a sicrheir ac a reolir gan ddarparydd tai cymdeithasol wedi tyfu'n barhaus o ran maint a chymhlethdod ers peth amser bellach a does dim argoel bod hynny'n mynd i leihau.**

Dim ond rhan fach o'r gofynion cynyddol gymhleth am ddata yw meysydd fel cyfrifo cydrannau, y gyflogres, rheoli atgyweiriadau a data cwsmeriaid. Mae data hefyd i raddau cynyddol yn rhychwantu disgyblaethau megis rheoli asedau, iechyd a diogelwch, ac EDI hefyd, gan gynyddu gwerth posibl y data ar y naill law, a'r cymhlethdod a'r anhawsterau posibl ar y llaw arall.

## CYWIR, CYSON A DIBYNADWY

Mae'n bwysig felly bod y data'n gywir, yn gyson ac yn ddibynadwy, a elwir yn aml yn ddilysrwydd data. Mae dilysrwydd data ansawdd-uchel yn hanfodol i allu penderfynu'n gywir (yn y tymor byr a'r tymor hir), rheoli cydymffurfio a rheolaeth risg. Mae'n elfen hanfodol o werthuso cynlluniau neu lunio cyllideb, ac mae'n anodd dychmygu cymdeithas tai lwyddiannus ag agwedd laissez-faire at ddata'r gyflogres heb ddioddef canlyniadau, fel mewn dwy enghraifft amlwg. Ond sut mae gweithwyr cyllid ac arweinwyr eraill cymdeithasau tai yn mynd i'r afael yn effeithiol â dilysrwydd data?

Y dechneg amlwg gyntaf yw gwneud defnydd llawn o'r broses gysoni, sef dull trefnus a disgybledig o fynd ati'n gyson i wirio data trwy gadarnhad gan drydydd partïon, neu hyd yn oed rhwng cronfeydd data mewnol. Ymddengys hyn yn beth amlwg, ac nid yw'n ddull newydd, ond yn y byd mwy cymhleth hwn mae'n bwysicach nag erioed. I arweinwyr, gall fod o ddefnydd edrych ar sut mae pwyllgorau archwilio neu archwiliad mewnol yn helpu i gadarnhau bod yr elfen sylfaenol hon yn ei lle, neu pa ddull bynnag arall a ddefnyddia'r gymdeithas i gael sicrwydd.

## SAIL FEUNYDDIOL

Ar yr un trywydd, daw'r fframwaith cadw rheolaeth gyffredinol yn bwysig. Bydd gan y rhan fwyaf o sefydliadau ddull gweithredu mewnol yn eu gwaith beunyddiol, peth ohono'n weladwy i arweinwyr ac eraill, a pheth ohonon heb fod. I'm tyb i, da o beth bod â'r holl ffyrdd allweddol hyn o weithio wedi'u dogfennu mewn llawlyfr cyllid sy'n manylu ar sut y mae polisïau a gweithdrefnau i fod i weithio. Cefais bod creu neu adolygu'r dogfennau hyn yn aml yn codi cwestiynau defnyddiol ynglŷn â reolaethau mewnol. I'r rhai sy'n ymwneud yn llai agos, mae perchenogaeth y rheolaethau, a phrydlondeb a chysondeb paratoi cyfrifon rheolaeth, ac unrhyw broblemau ynghylch ansawdd ynddynt, yn aml yn ffactor arwyddocaol o ran ansawdd rheolaeth fewnol.

Yn olaf, mae monitro data am wallau ac anghysonderau yn bwysig. Gall hyn fod trwy ddyfeisiau awtomatig neu drwy brosesau llaw. Unwaith eto, bydd meysydd fel y pecyn adrodd ar gyfrifon rheolaeth a matricsau risg, sy'n gyfarwydd i lawer ym maes tai cymdeithasol, yn fannau cychwyn da i'r gwaith monitro hwn, ond mae angen goruchwyliaeth gref ledled y sefydliad, o'r rheng flaen yn ogystal â'r stafell fwrdd. Gall dynodi pwy sy'n monitro beth a dogfennu sut mae data'n llifo o gwmpas sefydliad helpu gyda'r broses hon, yn ogystal â chreu llawlyfr cyllid neu offeryn cyfwerth. Mae sgrifennu a chyflwyno adroddiadau'n effeithiol yn mynd i fod yn rhan allweddol o hyn, felly mae sicrhau bod systemau'n gallu cynhyrchu adroddiadau'n effeithiol, yn brydlon ac yn hyblyg hefyd yn dynodi dilysrwydd data effeithiol.

**Mae Sarah Prescott yn ymgynghorydd annibynnol. Dewch o hyd iddi ar twitter *@SPrescottWales* neu ei blog ar *sarahprescott.medium.com***

WHQ
WELSH HOUSING QUARTERLY

**Rhifyn 134 | Gorffennaf 2024**

*ISSN 0962-9602*

*Cylchgrawn tai golygyddol annibynnol yw WHQ. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn rhai'r Golygydd na Sefydliad Tai Siartredig Cymru.*

**Dyddiadau olaf ar gyfer derbyn cyfraniadau**
Rhifyn 135 – 18fed Medi 2024
Rhifyn 136 – 16eg Rhagfyr 2024
Rhifyn 137 – 10fed Mawrth 2025
Rhifyn 138 – 13eg Mehefin 2025

**Rheolwyd, gweinyddwyd a chyhoeddwyd gan**
**Sefydliad Tai Siartredig Cymru**
4 Tŷ Purbeck
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd CF14 5GJ
***029 2076 5760***
***www.cih.org***

**Cyd-sefydlwyd gan**
**Prifysgol Caerdydd**
Adeilad Morgannwg
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd CF10 3WA
***029 2087 6412***
***www.cardiff.ac.uk/geography-planning***

**Dyluniwyd gan**
Martin Williams
***07812 110837***
***www.mw-graphic-design.co.uk***

**Bwrdd Cynghorol**
Tom Broadhead (cadeirydd)
Helen Taylor (is-gadeirydd)
Ben Black
Steve Cranston
Matt Dicks
Shan Lloyd-Williams
Jim McKirdle
Matthew Miller
Bill Rowlands
Hayley Williams

**Cysylltwch â ni**
Mae WHQ yn croesawu erthyglau, nodweddion a newyddion, cysyllter â golygydd WHQ:
**Jules Birch**
***01736 332173*** | ***editor@whq.org.uk***

**Hysbysebu a noddi, cysyllter â:**
**Matthew Dicks**
***029 2076 5760*** | ***Matthew.Dicks@cih.org***

**Tanysgrifiadau, ymwelwch â:**
***www.whq.org.uk*** neu ebostiwch
***Matthew.Dicks@cih.org*** am ffurflen danysgrifio

**Mae WHQ yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy'r Adran Polisi Tai**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Ffotograffiaeth

10 Downing Street
Byddin yr Iachawdwriaeth yng Nghymru
Celtic Offsite
Creating Enterprises
Cwmpas
Cyfiawnder Tai Cymru
Elliott Wang, Ysgol Bensaernïol Llundain
Jonny Gios via Unsplash
Llywodraeth Cymru
Prifysgol Heriot Watt
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
RHA Cymru
Senedd
Trivallis

## WHQ arlein

Os cewch chi unrhyw drafferth gyda'ch cyfrif defnyddiwr, da chi, cysylltwch â ***Matthew.Dicks@cih.org***

GOLYGYDDOL



# Y siwrnai ddigidol

**Am y tro cyntaf ers 14 mlynedd, mae llywodraeth Lafur mewn grym yn Llundain yn ogystal â Chaerdydd.**

Mae cysylltiadau eisoes wedi gwella rhwng San Steffan a'r llywodraethau datganoledig, gyda'r prif weinidog newydd Keir Starmer yn ymweld â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ond wrth i ni fynd i'r wasg, roedd anhrefn llwyr yn Llywodraeth Cymru wrth i bedwar gweinidog, ac yna'r prif weinidog, ymddiswyddo.

Ochr yn ochr â hynny, aeth 25 mlynedd heibio ers i lywodraeth ddatganoledig ddod i Gymru. Gofynwyd i amryw o gyfranwyr rheolaidd WHQ fyfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma ac ar beth allai fod nesaf ar y 'siwrnai heb ben draw sefydlog', chwedl un cyn-ysgrifennydd Cymru.

Ar wahân i'r datblygiadau gwleidyddol hyn, craidd y rhifyn yw golwg ar sut mae technoleg a data yn newid popeth am ein ffordd o fyw ein bywydau, boed gartref neu yn y gwaith.

Asesir lle rydym arni ar y siwrnai ddata ac oblygiadau hynny i landlordiaid, tenantiaid a thai yn gyffredinol. Bethan Jones sy'n agor ein hadran nodwedd arbennig gyda golwg ar yr hyn y gall data Rhentu Doeth Cymru ei ddweud wrthym am gyflwr y sector rhentu preifat, ac mae Dewi Knight yn edrych ar yr hyn ddylai gweinidogion a chynghorwyr polisi ei gadw mewn cof wrth osod targedau.

Mae Andrea Gale, fel cyfarwyddydd gweithredol technoleg, data a rhaglenni Pobl, yn tybio sut y gallai swyddogaeth data newid i landlordiaid yn y dyfodol, tra bod Gareth Leech yn ystyried y siwrnai hyd yma yn Cartrefi Conwy.

Gall data a dadansoddi data hefyd ddatgelu bod gwahanol grwpiau yn cael profiadau tai tra gwahanol. Noda Sacha Hasan a Gina Netto sut y gall sefydliadau tai ymdrin ag anawsterau a gaiff lleiafrifoedd ethnig gyda gwasanaethau tai digidol, tra dywed Alicja Zalesinska y dylai dadansoddi data cydraddoldeb fod yn rhan allweddol o sicrwydd a gwella gwasanaethau.

Yn olaf, mae mwyfwy o ddata hefyd yn gofyn am fwy o ddiogelwch. Mae David Teague yn rhannu cyngor gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am yr hyn y gall sefydliadau tai ei wneud i ddiogelu gwybodaeth bersonol preswylwyr a chadw systemau'n ddiogel.

Mewn mannau eraill yn y rhifyn hwn fe welwch erthyglau ar bopeth o weithgynhyrchu oddi ar y safle i dai ar gyfer pobl sy'n ceisio noddfa, o atal lleithder a llwydni i swyddogaeth tai cymdeithasol – yn ogystal â sut mae newidiadau yn ein ffordd o fyw'n bywydau yn her i ddylunio ac adeiladu cartrefi. Ac mae Jonathan Roberts yn dathlu 150 mlwyddiant sefydlu Byddin yr Iachawdwriaeth yng Nghymru ac yn olrhain yr hanes, o slymiau 'Uffern Fach' yn y 19eg ganrif i'w rôl bresennol yn Tai yn Gyntaf.

Gyda hyn oll, ynghyd â'n holl nodweddion rheolaidd, gobeithio y cewch ddigon i'ch diddori yn y rhifyn Haf hwn o WHQ.

**JULES BIRCH** *Golygydd WHQ*





# YMLAEN Â'R GWAITH

Sut mae paratoi'r ffordd i ddatgloi mwy o gartrefi cymdeithasol parhaol a chael pobl allan o lety dros-dro? Wendy Dearden sy'n cyflwyno prosiect ymchwil newydd gan Sefydliad Bevan

**Nid gorddweud yw datgan bod ein system dai yn crynhoi mewn stafelloedd gwestai ledled Cymru. Roedd 11,692 o bobl yn byw mewn llety dros-dro ddiwedd mis Mawrth 2024, gyda thraean o achosion yn aros mewn gwely a brecwast neu westy. Mae'r niferoedd hyn yn parhau i gynyddu bron bob mis ac wedi mwy na dyblu ers diwedd 2020.**

Nid yw'r argyfwng tai yn dangos unrhyw arwydd fod ei effaith yn lleihau. Dengys ein harolygon ciplun bod cyfran gyson uchel o boblogaeth Cymru yn teimlo'r bygythiad o golli eu cartref. Yn ein harolwg diweddaraf, dywedodd 14 y cant o bobl eu bod yn poeni am gael eu troi allan neu y câi eu cartref ei adfeddiannu yn ystod y tri mis o fis Ionawr 2024.

Defnyddir llety dros-dro gan awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd. Ar ei orau, llety hunan-gynhwysol (preifat a chymdeithasol) yw hwn a ddarperir ar osod am dymor byr. Ar ei waethaf, rydym yn sôn am stafell mewn gwesty lle rhennir cyfleusterau, a gallai teulu cyfan fod mewn un stafell. I rai, hwn fydd eu cartref nid am ychydig fisoedd, ond am flynyddoedd.

## NEWID BYWYD

Dychmygwch sut y byddai allwedd y drws i gartref cymdeithasol yn newid bywyd. Yn Sefydliad Bevan, credwn mai dyna'r unig opsiwn gwirioneddol fforddiadwy, sicr a chynaliadwy. Mae cynyddu'r cyflenwad a gwella mynediad i bobl ddigartrefedd yn hanfodol i fynd i'r afael â chost ddynol ein hargyfwng tai. Yn hanesyddol, allwedd drws oedd yr ateb hawdd, ond does dim digon o lety gennym ar gyfer y 139,000 o bobl, y nifer uchaf erioed, ar restrau aros tai cymdeithasol.

Rydym yn dechrau gweithio gyda Shelter Cymru i gofnodi realiti bywyd mewn llety dros-dro. Yn yr ychydig fisoedd nesaf, bydd tîm bach o ymchwilwyr, sydd wedi dioddef digartrefedd ac ansicrwydd tai eu hunain, yn cyfweld â phobl sy'n byw yn y limbo hwn i ategu ein dadl o blaid newid.

## BETH SYDD O'I LE AR EIN SYSTEMAU

Dyma fan cychwyn ein prosiect ehangach, a gefnogir gan Sefydliad Banc Lloyds, i ddadansoddi'r hyn sydd o'i le ar ein systemau tai cymdeithasol, y cyflenwad, ar gyfer pwy y'i bwriedir a'i le yn ein marchnad dai. Byddwn yn ceisio datblygu atebion ymarferol ac arloesol i ddileu'r rhwystr systemig i adeiladu cartrefi cymdeithasol ar raddfa fawr, a darparu lle parhaol i'w alw'n gartref i bawb.

Y blwch cyntaf i'w agor yw cyflenwad a darpariaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i gynyddu'r cyflenwad, ond mae'r realiti ymhell ar ei hôl hi, ac mae cyrraedd y targed o 20,000 o gartrefi ychwanegol yn y sector rhentu cymdeithasol (2021 – 2026) yn waith araf. Bron hanner ffordd drwy'r cyfnod dengys ffigurau Llywodraeth Cymru mai dim ond 5,775 eiddo (29 y cant) a ddarparwyd. Dylid cofio bod y ffigur hwn yn cynnwys rhentu canolradd a rhan-berchenogaeth. Amcangyfrifir mai 4,780 o'r cartrefi a ddarparwyd sydd wedi eu gosod ar rent cymdeithasol.

Bydd ein ffocws cyntaf ar argaeledd tir ar gyfer cynlluniau tai cymdeithasol a rôl y system cynllunio defnydd tir. Rydym am archwilio'r posibilrwydd y gall tir cymunedol a thir cyrff crefyddol ac eiddo'r sector cyhoeddus ddarparu tir yn y lle iawn am y pris iawn i hyrwyddo datblygu tai cymdeithasol. Rydym yn arbennig o falch o gefnogaeth Cyfiawnder Tai a Cwmpas, a diolchwn i Sefydliad Nationwide am gyllid ychwanegol i archwilio hyn yn fanwl.

Mae'r bobl rydym wedi siarad â nhw eisoes yn y sector yn cadarnhau, ar yr union adeg pan fo mwyaf o'u hangen, bod datblygu cartrefi cymdeithasol yn fwy anodd nag erioed. Dim ond un her a wynebir gan landlordiaid cymdeithasol yw sicrhau tir wrth i gostau a disgwyliadau gynyddu. Hawdd disgyn i feddylfryd o 'rydyn ni'n gwneud y gorau y gallwn' ond a yw hynny'n ateb digon da i'r teulu sy'n byw mewn stafell gyfyng mewn gwesty? Choelia'i fawr.

Mae llawer i'w wneud. Caiff ein hargymhellion eu llywio gan sgyrsiau gydag amrywiaeth eang o bobl sy'n ymwneud â datblygu tai cymdeithasol fel landlordiaid, datblygwyr neu gynllunwyr. Os oes gennych ddiddordeb mewn cefnogi ein gwaith, yna cysylltwch â ni, da chi.

**Mae Wendy Dearden yn uwch swyddog polisi ac ymchwil yn Sefydliad Bevan**





# Beth nesaf i dai wedi'r tirlithriad?

Jules Birch yn ystyried oblygiadau buddugoliaeth Llafur yn San Steffan

**Roedd prif weinidog newydd Y DU, Keir Starmer, yng Nghaerdydd i gyfarfod â Vaughan Gething fel rhan o'i daith o amgylch gwledydd y DU o fewn dyddiau i'w fuddugoliaeth etholiadol ddramatig.**

Roedd y canlyniad yn cynnwys gwaredu Cymru o Geidwadwyr ac mae'n golygu bod llywodraethau Llafur mewn grym gyda'i gilydd yn Llundain a Chaerdydd am y tro cyntaf ers 2010.

Fel y gellid disgwyl, roedd dyfodol Port Talbot ar frig yr agenda yn y cyfarfod ac mae Cymru i'w gweld yn sicr o elwa ar well perthynas â San Steffan.

Ond, gyda Gething yn ymddiswyddo fel prif weinidog wrth i WHQ fynd i'r wasg, erys cwestiynau mawr o hyd am dai yng Nghymru.

## DIM GWARIANT NEWYDD

Nid oedd maniffesto Llafur y DU yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau gwario newydd ar gartrefi newydd er iddo addo'r 'cynnydd mwyaf mewn tai cymdeithasol a fforddiadwy mewn cenhedlaeth'.

Bydd y ffocws cyntaf ar ddiwygio cynllunio er mwyn cyrraedd y nod o 1.5 miliwn o gartrefi newydd yn Lloegr dros dymor senedd San Steffan tra'n cynyddu cyfran y tai fforddiadwy a ddarperir drwy Adran 106. Mae'r agenda'n cynnwys caniatáu datblygu ar safleoedd *'tir llwyd'* neu safleoedd lle bu defnydd blaenorol o fewn y llain las, llu o drefi newydd, a diwygio pwrcasu gorfodol.

O ran datgarboneiddio, addawai'r maniffesto £1.1 biliwn y flwyddyn ar gyfer Cynllun Cartrefi Cynnes ond roedd hynny'n ostyngiad o £6 biliwn y flwyddyn.

Bydd y Cynllun Ffyniant Gwyrdd yn golygu £200 miliwn mewn arian canlyniadol Barnett i wledydd eraill y DU, tra bydd yr addewidion gwario ar iechyd ac addysg yn dod â £650 miliwn mewn arian canlyniadol yn 2028/29, blwyddyn olaf rhagolygon cyfredol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Mae gwaith eisoes wedi dechrau yn y Trysorlys ar yr adolygiad gwariant nesaf ond nid yw'n glir a fydd hyn ar gyfer 2025/26 yn unig neu gyfnod hwy.

Y tu hwnt i hynny, bydd gan bolisi yn San Steffan oblygiadau sylweddol i Gymru er bod tai yn fater datganoledig. Yn bwysicaf oll, nid yw budd-daliadau yn rhan o'r setliad datganoli, gyda chanlyniadau sylweddol i denantiaid a landlordiaid Cymru dros y 14 mlynedd diwethaf.

Nid oedd maniffesto pwyllog Llafur y DU yn addo dileu'r terfyn dau-blentyn.



*Y Prif Weinidog Vaughan Gething yn cwrdd â Keir Starmer yng Nghaerdydd*

Hyd yn oed os daw o hyd i'r arian yn y pen draw, mae'n edrych yn fwy o flaenoriaeth nag addewidion blaenorol i ddileu'r cap ar fudd-daliadau a'r dreth stafell wely.

Yn fwyaf uniongyrchol, rhaid i'r canghellor Rachel Reeves benderfynu a ddylid uwchraddio'r Lwfans Tai Lleol yn unol â rhenti. Cynyddwyd cyfraddau LTLl fis Ebrill eleni ar ôl eu rhewi am bedair blynedd ond mae cynlluniau gwariant y llywodraeth flaenorol yn golygu rhewi am bedair blynedd arall o fis Ebrill 2025. Bydd eu cynyddu yn gofyn dod o hyd i arian ychwanegol yn y Gyllideb a ddisgwylir fis Hydref; fel arall, bydd bwlch cynyddol rhwng LTLl a rhenti, a phwysau cynyddol ar wasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol. Bydd oblygiadau mawr i'r agenda ddeddfwriaethol hefyd. Cyflwynodd y Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad a basiwyd gan y Ceidwadwyr ym mis Mai ddiwygiadau sylweddol yng Nghymru a Lloegr, yn cynnwys cynyddu cyfnod ymestyn y brydles safonol i 990 mlynedd, dileu *'gwerth priodas'* o'r tâl ymestyn prydles a gwahardd gwerthu'r rhan fwyaf o dai newydd ar brydles.

Addawodd maniffesto Llafur i fynd ymhellach a *'gweithredu lle mae'r Ceidwadwyr wedi methu ac o'r diwedd dod â'r system brydles ffiwdal i ben'*. Bydd hyn yn cynnwys *'camau pellach i wahardd fflatiau newydd ar brydles a sicrhau mai cyfunddaliad yw'r ddeiliadaeth ddiofyn'* a mynd i'r afael â *'thaliadau rhent tir direol ac anfforddiadwy'* ar gyfer prydleswyr presennol, a thaliadau cynnal a chadw annheg ar stadau tai preifat sy'n *'blingo'* prydleswyr.

Collwyd y Bil (Diwygio) Rhentwyr oherwydd yr etholiad cynnar. Addawodd maniffesto Llafur i *'atal troi allan heb fai o dan Adran 21 ar unwaith'*, rhoi terfyn ar ecsploetio rhentwyr a'u *'grymuso i herio cynnydd afresymol mewn rhenti, a chymryd camau penderfynol i godi safonau, yn cynnwys ymestyn "Cyfraith Awaab" i'r sector preifat'*.

Ni fyddai'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth yma yn berthnasol i Gymru ond gallem deimlo'r oblygiadau yma o hyd. Gyda'r papur gwyn ar gyfaddasrwydd tai a rhenti teg i'w gyhoeddi yn fuan, hyd yn oed os nad yw am ailystyried Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru), gallai llywodraeth Lafur Cymru ddod o dan bwysau i gynnwys unrhyw welliannau i rentwyr a gyflwynir yn Lloegr.

Dywedodd ***maniffesto Llafur Cymru*** ar gyfer etholiad San Steffan: *'Mae Llafur Cymru wedi dileu taliadau a ffioedd tenantiaeth afresymol, ac mae hefyd yn cyflwyno dulliau newydd o sicrhau rhenti fforddiadwy i bobl leol a hawl i dai digonol.'*

# DIWEDDARIAD POLISI

## DATBLYGIADAU POLISI MEWN RHANNAU ERAILL O'R DU

### *Y DU*

#### Adeiladu tai'n ganolog i'r llywodraeth newydd

Enillodd Llafur etholiad cyffredinol San Steffan ag adeiladu tai a chynllunio'n allweddol i'w chynlluniau i hybu twf economaidd.

Wrth i WHQ fynd i'r wasg, disgwylid llu o gyhoeddiadau yn adfer targedau adeiladu tai, adolygu ffiniau'r llain las, a recriwtio 300 o swyddogion cynllunio ychwanegol yn Lloegr.

Roedd disgwyl hefyd i waith ddechrau ar bennu safleoedd ar gyfer to newydd o drefi newydd, diwygio pryniant gorfodol a diogelu cartrefi cyngor newydd rhag yr hawl i brynu.

Addawodd Llafur hefyd i gwblhau'r gwaith o ddileu'r brydles 'ffiwdal' a dod â diwygio sefyllfa rhentwyr yn ôl fel blaenoriaethau deddfwriaethol cyn Araith y Brenin ar 17 Gorffennaf.

Addawai maniffesto'r blaid 'yr hwb mwyaf i dai fforddiadwy a chymdeithasol' ers cenhedlaeth ond heb unrhyw ymrwymiadau gwariant newydd i gefnogi'r uchelgais.

Cwtogwyd ar gynlluniau i fuddsoddi mewn datgarboneiddio cyn yr etholiad, a fydd yn effeithio ar arian canlyniadol i'r llywodraethau datganoledig.

Gwrthododd Llafur ymrwymo i ddileu toriadau'r Toriaid i fudd-daliadau, yn cynnwys y terfyn dau-blentyn, y cap budd-daliadau a'r dreth stafell wely.

***Am ddadansoddiad llawn o'r hyn y gallai'r llywodraeth newydd ei olygu i dai, gweler t9.***

### *LLOEGR*

#### Etholiad yn suddo diwygiadau allweddol i brydleswyr a rhentwyr

Gollyngwyd deddfwriaeth allweddol ar rentu preifat a chyfyngwyd ar ddiwygio'r brydles o ganlyniad i benderfyniad Rishi Sunak i alw etholiad cynnar.

Daeth y Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad, y mae'r rhan fwyaf ohoni'n berthnasol i Gymru, yn gyfraith yn y broses 'olchi lan' ar ddiwedd y senedd fis Mai; mae'n cynnwys gwelliannau i brydleswyr yn cynnwys gwaharddiad ar werthu tai newydd ar brydles a chynnydd mawr yn hyd prydles pan gaiff ei hymestyn.

Fodd bynnag, collwyd newidiadau allweddol yn cynnwys cap ar renti tir ac roedd eisoes wedi methu gweithredu gwaharddiad a addawyd ar werthu cartrefi newydd ar brydles.

Golygodd taith chwim y Ddeddf na fu cyfle i'r Senedd ystyried cydsyniad deddfwriaethol nac i Lywodraeth Cymru geisio gwelliannau i ganiatáu dirprwyo pwerau pellach.

Cawsai'r Bil (Diwygio) Rhentwyr, sy'n berthnasol i Loegr yn bennaf, ei ohirio gan wrthryfel Toriaid meinciau cefn. Golygai'r etholiad iddo redeg allan o amser, gan adael addewid maniffesto'r Toriaidd 2019 i ddileu troi allan heb fai o dan Adran 21 heb ei gyflawni.

### *YR ALBAN*

#### Dengys ystadegau 'enbyd' 'chwalfa mewn adeiladu tai'

Bu cwymp sylweddol yn nifer y tai newydd a gychwynwyd ac a gwblhawyd yn sectorau preifat a chymdeithasol yr Alban yn 2023/24.

Syrthiodd y nifer a gwblhawyd yn y sector cymdeithasol o fwy na 30 y cant i 5,043, yr isaf er y pandemig, a chychwynwyd ar 15 y cant yn llai.

Roedd gostyngiad yn y sector preifat o 13 y cant, i 14,589, sy'n golygu bod y nifer o dai a gwblhawyd ar draws pob sector o dan 20,000 am y tro cyntaf ers chwe blynedd.

Mae hyn yn bygwth targedau tai fforddiadwy Llywodraeth yr Alban, gyda'r gweinidog tai Gordon McLennan yn beio toriadau Llywodraeth y DU. Meddai: *'Er bod ein ffocws yn dal i fod ar ddarparu 110,000 o gartrefi fforddiadwy erbyn 2032, bydd lleihad o 10 y cant bron yn ein grant bloc cyfalaf, colled o fwy na £1.3 biliwn erbyn 2027-28. Yn yr un modd, cafodd ein cyllideb trafodion ariannol – sy'n allweddol i ddarparu tai fforddiadwy – ei thorri o 62 y cant.'*

Dywedodd Sally Thomas, prif weithredydd Ffederasiwn Cymdeithasau Tai yr Alban (SFHA), *'y dylai'r ystadegau enbyd fod yn rhybudd arall i lywodraeth yr Alban ynghylch maint yr argyfwng tai a'r heriau uniongyrchol sy'n ein hwynebu o ran darparu tai rhent fforddiadwy. Mae gostyngiad yn nifer y cartrefi newydd a ddechreuwyd a'r nifer sy'n cael eu cwblhau ym mhob sector ac mae'n glir ein bod yn gweld chwalfa o ran adeiladu tai.'*

### *GOGLEDD IWERDDON*

#### Benthyciad llog-isel i gyllido rhent canolradd

Cyhoeddodd y gweinidog cymunedau Gordon Lyons gyfle cyllido newydd ar gyfer cartrefi rhent canolradd fel elfen o'r Strategaeth Cyflenwi Tai sydd wrth law.

Bydd y cynllun Rhent Canolradd yn cynnig cyllid ar ffurf benthyciad hirdymor, llog-isel gan y llywodraeth i weithredwr a fydd yn datblygu cyflenwad newydd o gartrefi fforddiadwy i'w rhentu.

Meddai Mr Lyons: *'Bydd y cyllid sydd ar gael i ddarparu tai canolradd i'w rhentu yn creu cyflenwad o gartrefi sy'n cynnig opsiwn tai arall i'r rheini a brisiwyd allan o'r farchnad rentu brif-ffrwd.'*

Mae Rhent Canolradd yn fath newydd o dai rhent fforddiadwy, sydd rhwng tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat o ran cost, ac sydd o ansawdd uchel ac yn darparu mwy o sicrwydd. Mae'n cynnig cartrefi â gostyngiad ar y rhent, sy'n golygu eu bod ar gael i rai ar incwm is, a gall gynnig opsiwn tai arall i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd fforddio i rentu tra naill ai'n cynilo i brynu cartref neu'n aros am gartref cymdeithasol.

## LLYWODRAETH CYMRU

### Ymestyn y safon rhent tan 2026

Ymestynnodd yr ysgrifennydd tai Julie James safon rhent a thâl gwasanaeth tai cymdeithasol o 12 mis arall hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026.

Mae'r penderfyniad yn golygu, ar yr amod bod ffigur chwyddiant prisiau defnyddwyr (CPI) mis Medi yn disgyn i rhwng 0 y cant a 3 y cant, y bydd landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru yn gallu pennu eu codiadau rhent eu hunain ar gyfer eu tenantiaid ar gyfer 2025-26, yn unol â'r fformiwla CPI plws 1 y cant a'r canllawiau a geir yn y safon rhent.

Meddai ysgrifennydd y cabinet: *'Mae ymestyn y safon rhent am flwyddyn arall yn hysbysiad cynnar i landlordiaid cymdeithasol o'r paramedrau y mae'n rhaid i unrhyw gynnydd yn rhent eu tenantiaid ei weithredu o'u mewn. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i denantiaid y gwneir ymdrechion i gefnogi'r rhai sy'n profi caledi ariannol difrifol, a nid troi tenantiaid allan i ddigartrefedd pan fyddant yn ymgysylltu â'u landlordiaid, yn parhau yn y dyfodol.'*

Ychwanegodd y byddai hysbysiad cynnar o'r paramedrau ar gyfer setliad rhent y flwyddyn nesaf yn *'galluogi ein holl bartneriaid ar draws y sector ehangach i gyfranogi a chydweithio ar ddatblygu polisi rhent cymdeithasol i Gymru yn y dyfodol. Dwi'n hyderus y gallwn gyda'n gilydd lwyddo yn y maes sylfaenol a phellgyrhaeddol hwn o bolisi tai'.*

### Gweinidog yn gweld Tai yn Gyntaf ar waith

Ymwelodd yr ysgrifennydd tai Julie James â phrosiect Tai yn Gyntaf a rhai o'i weithwyr cymorth hanfodol Ynys Môn (*llun uchod*).

Mae Tai yn Gyntaf yn gweithredu drwy The Wallich, sy'n gweithio gyda mwy na 7,000 o bobl y flwyddyn ledled Cymru. Gwasanaeth Ynys Môn yw prosiect Tai yn Gyntaf hynaf Cymru.

Mae'r prosiect yn helpu i gael pobl oddi ar y strydoedd ac i mewn i'w llety eu hunain, gan gynnal eu tenantiaethau yn y tymor hir a chreu cyfleoedd i bobl.

Mae'r cymorth yn ymestyn i bobl sy'n cysgu allan, syrffio soffa, gadael cyfleusterau iechyd meddwl diogel, triniaeth am gamddefnydd sylweddau neu garchar, a phobl sydd wedi cael eu rhoi mewn llety dros-dro.



Mae'r prosiect yn derbyn cymorth ariannol gan Gyngor Ynys Môn drwy Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru.

Meddai Julie James: *'Mae pawb yn haeddu cael rhywle i'w alw'n gartref, a dyna pam y lluniwyd cynllun radical ac uchelgeisiol yma yng Nghymru i atal a rhoi terfyn ar ddigartrefedd o bob math. Mae nodi'r peryglon yn gynnar a gweithredu yn rhan hanfodol o hyn, ac mae prosiectau fel Tai yn Gyntaf yn Ynys Môn yn gwneud gwahaniaeth go iawn ac yn cefnogi'n cynlluniau.'*

### Cynllun cynghori cyfreithiol ar gyfer prydleswyr

Mae cynllun cyngor cyfreithiol newydd ar gyfer prydleswyr mewn adeiladau canolig ac uchel sydd â phroblemau diogelwch tân yn golygu y gallant bellach gael cymorth a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.

Lansiwyd y cynllun ym mis Mai a golyga y gall prydleswyr neu bobl gyfrifol ar eu rhan, gael mynediad i'r cynllun drwy'r Gwasanaeth Cynghori ar Brydlesau (LEASE).

Bydd cynghorydd yn adolygu'r sefyllfa, yn asesu a yw cymorth cyfreithiol yn briodol ac yn cynghori ar sut i fynd ati.

Lle bo'n briodol, bydd LEASE yn gweithredu fel gwasanaeth atgyfeirio at wasanaethau cyfreithiol y telir am eu cyngor cychwynnol gan Lywodraeth Cymru.

### Biliau i ddod ar ddiogelwch adeiladau a digartrefedd

Cyn ymddiswyddo fel prif weinidog wrth i ni fynd i'r wasg, nododd Vaughan Gething ei flaenoriaethau deddfwriaethol yn y Senedd hon er mwyn adeiladu *'dyfodol uchelgeisiol ar gyfer Cymru gryfach a gwyrddach'.*

Mae'r rhaglen yn cynnwys deddfwriaeth ar ddiogelwch adeiladau, digartrefedd, llety ymwelwyr a chynllunio.

Bydd Bil Diogelwch Adeiladau yn diwygio trefn ddiogelwch adeiladau bresennol Cymru yn sylfaenol ac yn ymdrin â diogelwch tân mewn adeiladau 11 metr a throsodd yn y stoc adeiladau bresennol.

Bydd Bil Digartrefedd yn cynnwys pecyn o ddiwygiadau i helpu pobl i aros yn eu cartrefi ac atal unrhyw un rhag mynd yn ddigartref.

Bydd dau Fil arall yn rheoleiddio llety i ymwelwyr ac yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol godi ardoll ar ymwelwyr.

Tuag at ddiwedd y tymor Seneddol hwn, caiff Bil ei gyflwyno i symleiddio a moderneiddio'r gyfraith gynllunio yng Nghymru, y dywed y prif weinidog ei bod yn *'fwyfwy anhygyrch a rhy gymhleth'* ar hyn o bryd.

Ychwanegodd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda San Steffan ar ddeddfwriaeth y DU yn Araith y Brenin ac yn cyflwyno is-ddeddfwriaeth i weithredu deddfau'r DU a wnaed yn sesiwn flaenorol San Steffan, yn cynnwys Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024, a roddai bwerau i weinidogion Cymru gyflawni diwygiadau yn y maes hwn.

## CYMRU

### Cyntaf mewn datblygu i Cymoedd i'r Arfordir

Datgelodd Cymoedd i'r Arfordir fanylion ei brosiect datblygu cyntaf y tu allan i Ben-y-bont ar Ogwr.

Mewn partneriaeth â Grŵp Castell Cyf, nod y datblygiad yw darparu tai fforddiadwy ynni-effeithlon o ansawdd uchel yn y Porth, Rhondda Cynon Taf, i ymateb i alw sylweddol am gartrefi newydd yn y rhanbarth.

Bydd y prosiect yn trawsnewid safle tir llwyd lle safai adeilad y YMCA, a ddinistriwyd gan dân fis Tachwedd 2008. Bydd yr ailddatblygiad nid yn unig yn darparu tai hanfodol ond hefyd yn anadlu bywyd newydd i ardal a esgeuluswyd ers amser maith.

Meddai Darrin Davies, cyfarwyddwr



*Gwelodd yr ysgrifennydd tai Julie James drosti ei hun sut mae cartrefi yn Sir y Fflint yn elwa o arian grant gan y Rhaglen Ôl-ffitio Optimeiddiedig (ORP).*

*Bydd Cyngor Sir y Fflint yn derbyn gwerth rhyw £5.7 miliwn o arian grant ORP dros dair blynedd ac mae wedi ymrwymo i ôl-ffitio tua 600 o gartrefi.*

*Ymwelodd ysgrifennydd y cabinet â chartrefi y gweithir arnynt yn ardal Coed-llai, rhai a adeiladwyd rhwng 1920 a 1950 ac sydd â waliau traddodiadol gyda nwy fel y prif danwydd gwresogi.Meddai: 'Trwy ôl-ffitio paneli solar ar eiddo presennol, gosod waliau allanol a waliau ceudod, a goleuadau LED, bydd hyn yn helpu i leihau biliau ynni preswylwyr yn sylweddol.'Bydd y wybodaeth a gasglwn o'r gwaith yn gymorth i werthuso'r ffyrdd mwyaf cost-effeithiol o wresogi ein cartrefi a helpu pobl yn y dyfodol i wneud dewisiadau ar sail fwy gwybodus'.*

datblygu Cymoedd i'r Arfordir: *'Mae hon yn foment fawr i ni wrth i ni ehangu ein hymdrechion i ddarparu tai fforddiadwy y mae mawr angen amdanynt y tu allan i Ben-y-bont. Drwy ailddatblygu'r safle hwn, rydym yn ateb anghenion tai dybryd y gymuned ond hefyd yn cyfrannu at adfywio'r ardal.'*

Bydd pob un o'r 21 o fflatiau un-llofft gradd EPC A â gwresogi di-danwydd-ffosil a phaneli solar i helpu preswylwyr i reoli eu costau byw. Gan ddefnyddio technegau adeiladu arloesol, caiff y cartrefi'u hadeiladu gan ddefnyddio system ffrâm bren panel-caeedig. Mae'r dull hwn yn cynnwys cydosod a rhag-insiwleiddio paneli pren o flaen llaw oddi ar y safle, gan sicrhau effeithlonrwydd ac ansawdd.

Caiff y cartrefi oll eu cynnig am rent cymdeithasol a chânt eu dyrannu drwy'r rhestr aros anghenion cyffredinol Cyngor RhCT trwy Homefinder RhCT.

Disgwylir i'r cartrefi fod yn barod erbyn Gwanwyn 2026. Mae'r camau nesaf yn cynnwys sefydlu'r safle yn yr wythnosau nesaf a threfnu digwyddiadau ymgysylltu cymunedol i hysbysu trigolion lleol a'u cynnwys yn y broses ddatblygu.

## Hwb cynllunio i gartrefi gwledig

Cyhoeddodd Cyngor Sir Powys *ganllawiau cynllunio newydd* ar gyfer gweithwyr garddwriaethol sydd ag angen cartrefi ar dir eu mentrau bach neu gerllaw.

Mae hyn yn ategu polisi cynllunio cenedlaethol a'r cyngor yn Nodyn Cyngor Technegol 6 ac fe'i datblygwyd i adlewyrchu amgylchiadau unigryw a phenodol y mentrau hyn. Nod y canllawiau newydd yw cefnogi tyfwyr i baratoi cais cynllunio ar gyfer annedd menter wledig dros-dro neu barhaol, a dylai eu helpu i gael caniatâd cynllunio ar gyfer tŷ ar dir agored pan fydd angen iddynt fod yn agos at eu cnydau. Mae'r angen am y cartref yn seiliedig ar nifer o brofion, yn cynnwys y gofyniad am weithiwr llawn-amser ar y safle am y rhan fwyaf o'r amser, a hyfywedd y busnes.

Croesawodd Judy Wayne, cadeirydd *Our Food 1200*, un o nifer o sefydliadau a gyfrannodd at y canllawiau newydd, ymrwymiad CSP i gefnogi garddwriaeth: *'Mae'r canllawiau hyn yn cynnig llwybr i newydd-ddyfodiaid i ffermio allu byw ar y tir y maent yn ei drin, gan greu tai fforddiadwy y mae mawr angen amdanynt yng nghefn gwlad, a chefnogi'r newid i system fwyd fwy lleol sy'n darparu swyddi da a ffynhonnell ddibynadwy o fwyd ffres, fforddiadwy ar gyfer marchnadoedd lleol.'*

## Partneriaeth i greu byngalos yn Aberdâr

Mae Celtic Offsite yn partneru â Chymdeithas Tai Newydd ac M&J Cosgrove i ddarparu cartrefi y mae mawr angen amdanynt yn Bridge Road, Cwmbach, Aberdâr.

Bydd cangen United Welsh yn darparu'r strwythurau ffrâm bren ar gyfer 17 byngalo carbon-isel o'u ffatri yng Nghaerffili. Caiff y gwaith adeiladu ei gwblhau ar y safle gan y contractwr M&J Cosgrove, gyda'r cartrefi o dan reolaeth CT Newydd.

Meddai Jodie Follett, rheolwr partneriaethau Celtic Offsite: *'Mae'n gyffrous partneru gyda Newydd am y tro cyntaf i ddarparu'r cartrefi newydd hyn i Aberdâr. Bydd y byngalos hyn yn darparu dewis o dai y mae mawr angen amdanynt ar gyfer y gymuned leol, a defnyddir technoleg ynni-effeithlon i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd.'*

Dywedodd Simon Morris, cyfarwyddydd datblygu ac asedau Cymdeithas Tai Newydd: *'Pan gododd y cyfle i ni ddefnyddio strwythurau ffrâm bren a adeiladwyd gan Celtic Offsite gwta 15 milltir i ffwrdd o'n safle yng Nghwmbach, roeddem wrth ein bodd. Gwyddem y byddai hyn nid yn unig yn sicrhau bod ein buddsoddiad yn cefnogi swyddi a sgiliau lleol ond hefyd yn ein helpu i gyflawni ein nod o gynhyrchu datblygiad tai cynaliadwy ac ynni-effeithlon. Mewn partneriaeth â Chyngor Rhondda Cynon Taf a chyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru i'r datblygiad, bydd y byngalos ffrâm bren a graddau Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) A diolch i'n defnydd o systemau gwresogi di-danwydd-ffosil a phaneli solar.'*

Bydd y cartrefi dwy-lofft ar gael i bobl sy'n chwilio am dai fforddiadwy trwy Homefinder, rhestr dai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

## Cost gwresogi tai cynllun Passivhaus yn gostwng yn arw

Bydd gostyngiad o fwy nag 80 y cant ym miliau gwresogi datblygiad gwerth £6 miliwn o 21 o gartrefi carbon-isel yng Ngogledd Cymru. Mae'r eiddo ar safle Plas Penrhyn ym Mae Penrhyn, Conwy yn cael eu hadeiladu i safonau Passivhaus diolch i bartneriaeth arloesol rhwng Adra a Cartrefi Conwy.

Mae'r fframiau pren a'r Posi-ddistiau ar gyfer y tai fforddiadwy yn cael eu gwneud yn arbennig ar gyfer cynllun Adra gan Creating Enterprise, is-gwmni Cartrefi, yn ei ffatri yn y Rhyl.

Oedwyd y datblygiad am gyfnod pan aeth y cwmni adeiladu gwreiddiol, Brenig, i'r wal yn wirfoddol ond mae bellach ar y gweill eto ar ôl i Beech Developments gael ei benodi yn ei le.

Mae gwaith wedi dechrau ar y safle a fydd yn cynnwys cymysgedd o eiddo rhent cymdeithasol a rhent canolradd o wahanol feintiau, gan gynnwys byngalo un-llofft wedi'i addasu'n arbennig, pedwar byngalo dwy-lofft, wyth tŷ dwy-lofft ac

wyth tŷ tair-llofft.

Mae'r sylfeini ar gyfer y cam cyntaf yn eu lle gyda'r fframiau i'w cludo i'r safle o fewn wythnosau a'r prosiect i'w gwblhau ymhen rhyw 12 mis. Yn ogystal â bod ag inswleiddio da a gwydro triphlyg, mae'r selio aerglos yn golygu y collir cyn lleied o wres fel na fydd angen nemor ddim gwresogi. Caiff unrhyw wres ychwanegol sydd ei angen ei ddarparu gan wresogyddion trydan yn aml yn rhedeg ar ynni'r paneli solar ffotofoltäig ar y to.

Bydd gan bob un o'r cartrefi hefyd systemau awyru mecanyddol ac adfer gwres, sy'n tynnu hen aer llaith a chwythu aer ffres a gynheswyd gan uned cyfnewid gwres i mewn.

Yn ôl Adra, mae'r eiddo bron yn hunangynhaliol o ran gwresogi gan ddefnyddio ychydig iawn o ynni o'r grid – ac ni ddefnyddir dim tanwydd ffosil yn uniongyrchol gan yr eiddo.

Meddai Adrian Johnson, dirprwy brif weithredydd Cartrefi Conwy, sy'n bennaeth Creating Enterprise: *'Rydym yn falch iawn o fod yn gweithio mewn partneriaeth ag Adra ar y prosiect gwych yma a darparu'r fframiau pren a Posi-ddistiau i adeiladu cartrefi fforddiadwy, ynni-effeithlon ac amgylcheddol iach ar gyfer pobl leol.'*

## Trivallis yn trosglwyddo cartrefi yn y Pentre



Cwblhaodd Trivallis ei ddatblygiad cyntaf yn 2024 trwy drosglwyddo'r allweddi i wyth cartref newydd sbon yng nghanol y Pentre fis Mehefin (*gweler llun uchod*).

Trawsffurfiodd y cynllun hen safle Gwesty'r Pentre yn dai mawr eu hangen, yn cynnwys fflat un-llofft wedi'i addasu'n arbennig ar y llawr gwaelod.

Cydweithiodd y gymdeithas tai â'r contractwyr lleol WK Plasterers ar y prosiect, a ddechreuodd yn gynnar yn 2023. Mae'r cartrefi newydd bellach yn cyflenwi'r eiddo cyfagos yn natblygiad Llewellyn Place, gan wella golwg gyffredinol ac ymdeimlad cymunedol yr ardal.

Meddai Sarah Davies, rheolydd datblygu Trivallis: *'Mae'n wych gallu anadlu bywyd newydd i mewn i'r adeilad hanesyddol yma yn y Pentre. Ar ôl cwblhau datblygiad Llewellyn Place drws nesaf, fe wnaethom sylweddoli y gellid gwella golwg a theimlad yr ardal ymhellach wrth ddarparu cartrefi newydd i ateb anghenion tai lleol.'*

Ychwanegodd y Cyng. Mark Norris, aelod cabinet ffyniant a datblygiad Cyngor Rhondda Cynon Taf: *'Mae'n wych gweld grantiau tai cymdeithasol yn cael eu defnyddio nid yn unig i fynd i'r afael â'r galw lleol am dai ond hefyd i hybu'r economi leol. Fel cyngor, rydym yn hynod gefnogol i brosiectau sy'n cynyddu nifer y tai fforddiadwy y mae cymaint o'u hangen, mewn lleoliadau hygyrch a chynaliadwy. Gwell fyth pan fo eiddo segur neu wag yn cael eu defnyddio eto.'*

# CYHOEDDIADAU: 10 SY'N DAL Y SYLW

1 **Projections of housing tenure and poverty in older age in Great Britain, 2022 to 2040**
**UK Collaborative Centre for Housing Evidence, Mehefin 2024**
*housingevidence.ac.uk/publications/projections-of-housing-tenure-and-poverty-in-older-age-in-great-britain-2022-2040/*

2 **Disabled people in the housing sector**
**Pwyllgor Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Mehefin 2024**
*publications.parliament.uk/pa/cm5804/cmselect/cmcomloc/63/report.html*

3 **LGBTQ+ Housing & Homelessness Survey**
**UK Collaborative Centre for Housing Evidence, Mehefin 2024**
*housingevidence.ac.uk/publications/lgbtq-housing-amp-homelessness-survey/*

4 **First-time buyers – Age-old problems, modern solutions, a road map for change**
**Building Societies Association, Mai 2024**
*www.bsa.org.uk/information/publications/research-and-reports/first-time-buyers*

5 **Home again: a 10-city plan to rapidly convert empty homes into social rent homes**
**Shelter, Ebrill 2024**
*england.shelter.org.uk/professional_resources/policy_and_research/policy_library/empty_homes_10-city_plan*

6 **The finances and sustainability of the social housing sector**
**Pwyllgor Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Mai 2024**
*publications.parliament.uk/pa/cm5804/cmselect/cmcomloc/60/report.html*

7 **Let down: rental regulations, subsidies and tenants' rights across the English-speaking world**
**Social Market Foundation, Ebrill 2024**
*www.smf.co.uk/publications/anglosphere-rental-regulations/*

8 **Bringing private homes into social ownership can rewire the housing system**
**Sefydliad Joseph Rowntree, Mawrth 2024**
*www.jrf.org.uk/housing/bringing-private-homes-into-social-ownership-can-rewire-the-housing-system*

9 **Shared ownership**
**Pwyllgor Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Mawrth 2024**
*publications.parliament.uk/pa/cm5804/cmselect/cmcomloc/61/summary.html*

10 **Unlocking affordable homes: Boosting affordable housebuilding to solve the housing crisis**
**YMCA, Mawrth 2024**
*www.ymca.org.uk/wp-content/uploads/2024/03/ymca-unlocking-affordable-homes-1.pdf*

# Siwrnai ddatganoledig



**Mae llywodraeth Cymru wedi teithio ffordd bell oddi ar y dyddiau pan gâi polisi tai ei bennu gan Ysgrifenyddion Cymru a gynrychiolai etholaethau yn Lloegr. Bu sawl cam yn y siwrnai honno.**

Ar ôl refferendwm llwyddiannus 1997, ffurfiwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru 25 mlynedd yn ôl ym 1999 ond gyda San Steffan yn cadw'r hawl i osod terfynau ar ei bwerau. Nid tan 2011, ar ôl refferendwm arall, y cafodd bwerau deddfu sylfaenol ac nid tan 2014 y cafodd bwerau ariannol. Y cam nesaf oedd symud o fodel rhoi pwerau i fodel cadw pwerau gyda chynnydd yn ei bwerau deddfwriaethol, a nodwyd gan newid ei enw i Senedd yn 2020.

Yn y maes tai, bu'r siwrnai ddatganoledig yn fater o ymwahanu cyson oddi wrth Loegr i gyfeiriad ffyrdd Cymreig o ddatrys problemau Cymru: gohirio hawl i brynu ac yna'i diddymu; deddfwriaeth arloesol ar ddigartrefedd; mwy o amddiffyniad i denantiaid; Safon Ansawdd Tai Cymru; cadw'r Grant Cymorth Tai; Treth Trafodiadau Tir; a chodi premiwm ar dreth gyngor ail gartrefi a chartrefi gwag.

I nodi'r 25ain mlwyddiant, rydym wedi gofyn i amrywiaeth o gyfranwyr WHQ am eu barn ar y siwrnai hyd yn hyn, a'r hyn yr hoffent ei weld gan ddatganoli yn y dyfodol.

## Gweithredu i roi terfyn ar dlodi



**Un o'r pethau pwysig a wnaeth y DU ar ôl yr ail ryfel byd ac am y 30 mlynedd nesaf oedd adeiladu llwyth o gartrefi y gallent eu fforddio i bobl. Doedd popeth ddim yn llwyddiant, ond gwellodd iechyd a disgwyliad oes ac roedd gan lawer o bobl gartrefi da, ac yna dechreusom eu gwerthu, heb godi ond nifer fach yn eu lle.**

Dwi'n falch o fod wedi gweithio ym maes tai yng Nghymru ers 15 mlynedd. Rydym ymhell ar y blaen i Loegr o ran ateb anghenion tai ein cenedl. Ataliwyd yr hawl i brynu cartrefi rhent cymdeithasol ac rydym yn adeiladu niferoedd sylweddol o gartrefi rhent cymdeithasol a deiliadaethau tai fforddiadwy eraill o ansawdd uchel bob blwyddyn. Mae gennym lywodraeth sy'n ymrwymedig i geisio ateb anghenion tai Cymru â buddsoddi cyfalaf sylweddol dros sawl tymor gwleidyddol. Ac mae'r dyfodol yn galw am barhau â'r meddylfryd hirdymor hwn, cyllid hirdymor, a mwy o ddewrder

Ond gwaethygu a wnaeth pethau i lawer o'n pobl yn yr 20 mlynedd diwethaf. Felly beth arall sydd ei angen arnom gan y Senedd ar gyfer y dyfodol? Llawer mwy o weithredu ar ddod â thlodi i ben. Pam fod Cymry'n ennill llai na gweddill y DU? Pam fod mwy na thraean o'n plant yn byw mewn tlodi? Pam fod cymaint o deuluoedd sy'n gweithio yn methu fforddio gwresogi eu cartref a bwydo'u teuluoedd yn iach? A sut y gallai Llywodraeth Cymru ddatrys hyn?

Dichon y gallai mwy o ddatganoli helpu rywfaint (ond dim ond hyn a hyn y gellir ei wneud â chyllideb fudd-daliadau ddatganoledig). Rhaid i ni greu swyddi gwerth gwell/ar gyflogau uwch. Rhaid i ni wario mwy ar atal pobl rhag mynd yn sâl fel y gellir ryddhau arian iechyd i'w wario ar bethau eraill. Dylid gwneud gyrfaoedd mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau digartrefedd yn atyniadol i bobl ac adeiladu digon o gartrefi ym mhob sector, yn cynnwys gwerthu ar y farchnad, fel na chaiff cymaint eu prisio allan o'r farchnad dai. A ddylid dileu rhai o'r rhwystrau i fuddsoddi yn y sector rhentu preifat? Dylai rhentu fod yn ddeiliadaeth mor ddewisol â pherchenogaeth.

**Clare Budden yw prif weithredydd ClwydAlyn**

## Tai dan arweiniad y gymuned



**Pleser i Cwmpas fu gweithio gyda Llywodraeth Cymru a gweld ei chefnogaeth yn tyfu i'r mudiad tai cydweithredol a thai dan arweiniad y gymuned ers 2012. Gall tai dan arweiniad y gymuned (CLH) chwarae rhan hanfodol mewn mynd i'r afael â phrinder tai fforddiadwy, gyda phobl leol yn dod at ei gilydd i ddatblygu ffyrdd o ddarparu tai fforddiadwy iddyn nhw'u hunain a'u cymunedau. Yn ystod tymor nesaf y Senedd, hoffem weld cefnogaeth yn parhau i CLH i gyflawni'r rhwydwaith gref o gynlluniau sydd ar y gweill ledled Cymru, gan ychwanegu:**

**1. Cyllid fforddiadwy**
Llywodraeth Cymru i greu cronfa fenthyciadau cylchdro o gyfalaf trafodion ariannol ar gyfer grwpiau CLH i wireddu posibiliadau cartrefi fforddiadwy dan arweiniad y gymuned.

**2. Polisïau cefnogol**
Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth newydd i sicrhau hawliau cymunedol i dir ac asedau sector cyhoeddus a phreifat, gyda rhagdybiaeth o blaid gwaredu asedau cyhoeddus er mwyn datblygu cartrefi fforddiadwy dan arweiniad y gymuned a chyfleusterau cymunedol.

Dylai hefyd greu polisïau cynllunio sy'n cefnogi CLH a'u gorfodi, a dylai ddiweddaru TAN2 i gynnwys CLH fel ffordd o ddarparu tai fforddiadwy parhaol.

**3. Cymorth seilwaith**
Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi a gweithio gyda Cwmpas, unig hyb tai dan arweiniad y gymuned Cymru, sy'n darparu cyngor a chymorth i grwpiau cymunedol sydd am ddatblygu CLH.

**Casey Edwards yw cynghorydd prosiect tai cydweithredol Cwmpas**

## Ffordd Gymreig ymlaen



**Tra bod datganoli wedi arwain at rai newidiadau positif mewn rhannau o'r sector tai, mae'n amlwg ein bod yn symud i mewn i'r 25 mlynedd nesaf yn wynebu rhai o'r un hen heriau sylfaenol.**

Un gredo gadarnhaol, wrth inni edrych yn uniongyrchol ar yr heriau hynny, yw bod consensws, yn wleidyddol ac o fewn/o amgylch y sector, y gallwn gyrraedd man lle y *gall* digartrefedd fod yn rhywbeth o'r gorffennol; lle y *gall* cyflenwad ateb y galw; lle y *gall* pobl fod â chartref diogel, sicr, y gallant ei fforddio.

Os gwnawn fel yr ydym wedi'i wneud erioed, yr un fydd y canlyniadau. Dyna pam y dylai'r to nesaf o wleidyddion datganoledig fod yn edrych y tu hwnt i gylchredau gwleidyddol tymor-byr a meddwl, yn hytrach, am y tymor hwy i greu polisïau mwy effeithiol.

Egwyddor sylfaenol datganoli oedd dod o hyd i atebion Cymreig i broblemau Cymru. Mae gennym felly gyfle euraid i ail-lunio'r fersiwn o 'ffordd Gymreig' ymlaen yn ein polisi tai, a'i ategu gan bwyslais ar hawliau dynol. Drwy gyflwyno hawl i dai digonol, byddem ar flaen y gad yn rhyngwladol o ran cydnabod arwyddocâd a phwysigrwydd cartref da ym mhob agwedd ar ein bywydau, ac effaith hynny ar draws meysydd polisi.

Yn absenoldeb strategaeth dai benodol ar hyn o bryd, credwn y byddai sicrhau hawl i dai digonol yn llinyn defnyddiol a sylfaenol y gallai pethau fel datgarboneiddio, ôl-ffitio, cyflenwi, a chynlluniau a rhaglenni eraill lifo ohono.

Hawliau dynol, deddfwriaeth, cyllid digonol a meddwl hirdymor, y cwbl yn gweithio ar y cyd i helpu i ddatrys heriau hirsefydlog ac ystyfnig yn y maes tai. Gan adeiladu ar y consensws presennol bod pawb yn haeddu'r hawl i gartref da, siawns nad yw hyn yn ganlyniad i ddatganoli na fyddai nemor neb yn anhapus yn ei gylch.

**Alicja Zalesinska yw prif weithredydd Tai Pawb**

## Ni all y cyfnod caled barhau



**Mae hwn yn gyfnod caled – mae miloedd o bobl ledled Cymru yn wynebu digartrefedd a'r trawma sy'n deillio o fod heb le sefydlog i'w alw'n gartref. Ni all hyn barhau.**

Mae ein sector yn wynebu heriau sylweddol wrth geisio ateb yr angen cynyddol am gymorth diymdroi, tra'n parhau i ganolbwyntio ar adeiladu dyfodol heb ddigartrefedd. I ni allu ymateb i'r heriau hyn, rhaid i'r Senedd barhau i ddefnyddio'i bwerau ar dai.

Gwelsom rai sylfeini'n cael eu gosod – ehangodd Deddf Tai Cymru y cymorth i bobl sy'n wynebu digartrefedd ac, er gwaetha'r cyfnod paratoi maith, mae Deddf Rhentu Cartrefi Cymru wedi cynyddu sicrwydd deiliadaeth rhentwyr. Yn hollbwysig, mae Cynllun Gweithredu i Roi Terfyn ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i adeiladu ar y sylfeini hyn trwy adeiladu cartrefi cymdeithasol mawr eu hangen, symud at Ailgartrefu Cyflym, a gwneud diwygiadau pellach i'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd.

Ni fydd y ffordd ymlaen yn hawdd, ond rhaid i'r Senedd fuddsoddi yn ein gwasanaethau digartrefedd a'n seilwaith tai cymdeithasol a chwrdd â thargedau tai cymdeithasol. Rhaid iddi fwrw ymlaen â'r Papur Gwyn ar Roi Terfyn ar Ddigartrefedd, i wneud cymorth i'r rhai sy'n wynebu digartrefedd yn fwy cynhwysol ac yn deall trawma yn well, a sicrhau ein bod yn atal digartrefedd ynghynt, gyda chefnogaeth ein gwasanaethau cyhoeddus ehangach.

Tra bod angen bwrw ymlaen â newidiadau allweddol, ymrwymiadau a buddsoddi yn y Senedd, mae hefyd yn bwysig bod y sector digartrefedd a thai, ochr yn ochr â phobl â phrofiad o fyw drwy hyn, yn helpu i lunio'r newidiadau i ddarparu'r cymorth gorau i bobl. Rydym wedi gweld beth ellir ei gyflawni pan fyddwn oll yn gweithio ynghyd a dwi'n hyderus, drwy barhau i wneud hynny, y gallwn, ac y byddwn, yn rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

**Debbie Thomas yw pennaeth polisi Crisis Cymru**

## Gwell mynediad at swyddogion


**Bu Gofal a Thrwsio yn hyrwyddo gwell ansawdd tai a hygyrchedd i bobl hŷn yng Nghymru ers ei ddyddiau cynnar di-nod yn Ferndale ym 1979, pan oedd datganoli yn dal i fod yn ddim ond chwinciad yn llygad 12 y cant o'r boblogaeth.**

Arweiniodd datganoli at wahaniaeth mewn polisi tai hygyrch yng Nghymru. Yn 2002 lansiwydd Rhaglen Addasiadau Brys Llywodraeth Cymru, cynllun heb brawf modd, a weithredir gan Gofal a Thrwsio, sy'n galluogi unrhyw un dros 60 yng Nghymru i gael addasiadau bach fel canllawiau a rheiliau wedi eu gwneud o fewn 15 diwrnod gwaith. Yn wahanol i wledydd eraill y DU, mae'r ffordd ataliol yma o fynd ati dros Gymru gyfan yn dileu loteri cod post am newidiadau bach sy'n gwneud gwahaniaeth mawr.

Mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) yn rhwymedigaeth statudol yng Ngogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr. O ledu drysau a gosod rampiau, i ddarparu estyniadau sy'n cynnwys stafelloedd molchi hygyrch a llofftydd lawr-llawr, gall grant ddarparu addasiadau bywyd-newidiol i bobl sy'n byw gydag anableddau. Y gwledydd datganoledig a arweiniodd y ffordd wrth ddileu'r prawf modd ar gyfer DFG i blant a phobl ifanc, gan roi pwysau ar Loegr i ddilyn yn gyflym.

Yng Nghymru, mae datganoli yn golygu bod y llywodraeth a llunwyr polisi yn nes at y sector. Bydd swyddogion yn aml yn monitro a gwerthuso polisi. Mae llwyddiant cysylltiadau a grëwyd trwy fod â swyddogion mwy hygyrch yn golygu bod atebion arloesol ac effeithiol fel yr RRAP yn dal i weithredu'n llwyddiannus 20 mlynedd a mwy yn ddiweddarach. Mae ein llais ni a llais y bobl mae'r polisïau'n eu cefnogi yn dylanwadu newid er gwell.

**Faye Patton yw rheolydd polisi Gofal a Thrwsio Cymru**



## Gweithio ar y cyd go iawn



**Peth syml (ac amlwg, rhaid cyfaddef) yw gofyn i'r Senedd i flaenoriaethu tai.**

Mae rhywbeth o'i le pan fo cymaint o bobl yn dioddef digartrefedd ledled Cymru – fel cenedl flaengar, rhaid i ni wneud mwy i fynd i'r afael â'r broblem. Dylem fod yn blaenoriaethu codi mwy o gartrefi cymdeithasol ac mae angen i'r Senedd ddefnyddio'r offerynnau cywir i alluogi hyn.

Gadawaf i eraill mwy huawdl na fi i egluro cymhlethdodau'r hyn a ddylai ddigwydd. Byddai cyfeirio cyllid tuag at adeiladu a chynnal cartrefi cymdeithasol yn fan cychwyn, a llai o fiwrocratiaeth sy'n effeithio ar y broses gynllunio a datblygu, ac yn achosi oedi. Byddai llai o lusgo sodlau, a mynd ati'n bwrpasol i gyflwyno a sefydlu'r hawl i dai digonol yn un arall – mae hon yn hawl ddynol sylfaenol.

Mae angen i'r Senedd weithio ar y cyd go iawn â'r sector cyfan fel ein bod oll yn cyd-dynnu i'r un cyfeiriad. Mae cydgrynhoi a defnyddio ein holl arbenigedd, a'n dymuniad am derfyn ar ddigartrefedd ledled Cymru yn allweddol.

Felly, mewn gair, yr hyn dwi'n edrych amdano yn y dyfodol (a nawr yn y presennol) gan y Senedd yw – Codi Mwy o Gartrefi Cymdeithasol. Diolch.

**Gareth Leech yw rheolwr strategaeth a gwella busnes Cartrefi Conwy**

## Parhau â'r gefnogaeth i dai fforddiadwy



**Datganoli a'r Senedd yn 25 – pan oeddwn i'n 25, roeddwn i'n meddwl fod y byd yn eiddo i mi ac y gallwn wneud unrhyw beth. Dwi'n gobeithio bod y Senedd hefyd o'r un farn ac wedi aeddfedu digon i beidio â theimlo bod yn rhaid iddi wneud dim i gyfiawnhau ei bodolaeth, ac wedi datblygu perthynas gynhyrchiol â'i chwaer hŷn yn San Steffan a'r gwledydd datganoledig eraill.**

O ran polisi dros y 25 mlynedd nesaf, felly, prin ei bod hi'n syndod mai'r hyn y byddwn yn gofyn amdano yw parhau â'r gefnogaeth i ddarparu tai fforddiadwy, gan gynyddu maint y grant sydd ar gael tra'n gwella'r broses gynllunio hefyd fel y gellir defnyddio tir ar gyfer tai fforddiadwy. Fy ngobaith yw y gall y Senedd ddefnyddio'i dylanwad i leihau'r stigma ynghylch tai cymdeithasol a fyddai, yn ei dro, yn lleihau NIMBY-aeth pan fyddwn yn ceisio datblygu cartrefi fforddiadwy newydd.

Heblaw'r angen am dai fforddiadwy, byddwn o blaid mwy o ymreolaeth a phwerau penderfynu mewn meysydd fel cyfiawnder, plismona, a threthiant er mwyn creu polisïau sy'n gweddu'n well i anghenion penodol Cymru. Mwy o bwerau cyllidol i godi a dyrannu arian yn fwy effeithiol i flaenoriaethau Cymru. Mwy o bolisïau wedi'u hanelu at leihau anghydraddoldeb a thlodi, sicrhau triniaeth deg i bob cymuned, cymorth i grwpiau ymylol a mesurau i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, gwell gwasanaethau cyhoeddus hygyrch a theg.

Penblwydd hapus, Senedd! Pan adolygaf dy berfformiad ar dy hanner-canfed yn 2049, byddaf yn 78, felly mae'n debyg y bydd fy mlaenoriaethau'n dra gwahanol...

**Jason Wroe yw prif weithredydd Cymdeithas Tai Newydd**

## Cymru decach, well



**25 mlynedd yn ôl pleidleisiodd Cymru o blaid datganoli – pleidlais hanesyddol a sefydlodd rywbeth heb ei debyg ers Senedd Owain Glyndŵr chwe chanrif yn ôl.**

Er hynny, dim ond yn 2011, gyda refferendwm pellach, y derbyniodd y Cynulliad rymoedd i basio deddfwriaeth gynradd a dim ond Deddfau Cymru 2014 a 2017 a'n galluogodd i greu a chodi trethi.

Dim ond yn 2021, gyda'n *Senedd*, y dechreuodd Cymru wir lunio polisi tai ei hun trwy alluogi awdurdodau lleol i gyflwyno mesurau Erthygl 4 a chyflwyno premiymau treth cyngor uwch ar ail dai a thai gwag, ac megis dechrau ymbellhau o farchnad dai 'wallgof' y Deyrnas Unedig, yng ngeiriau Julie James.

Mewn datganiadau di-ben-draw, mae Llywodraeth Cymru wedi brolio polisi tai mwy blaengar nag unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig; ond, rydym dal ar groesffordd. Os ydym wir am gorffori'r hawl i dŷ mewn cyfraith gwlad, ochr yn ochr ag addysg neu iechyd, fel sy'n cael ei addo yn eu papur gwyn hir-ddisgwyliedig, gall fod yn drawsnewidiol.

Mae'r farchnad dai fel y mae yn effeithio'n andwyol ar gymunedau ledled Cymru ar lefel economaidd, gymdeithasol, gymunedol ac ieithyddol, ac mae'r argyfwng ar ei waethaf yn ein cymunedau Cymraeg cryfaf. Gydag all-lifiad o bobl ifanc o'r ardaloedd hyn, mae angen gweithredu ar frys.

Ar 14 Medi, ar ddiwrnod Owain Glyndŵr, bydd Cymdeithas yr Iaith yn mynd ati i efelychu gweledigaeth radical Glyndŵr o Gymru decach, well mewn rali ym Machynlleth, tref ei Senedd-dy, a mynnu bod ein Llywodraeth o'r diwedd yn cyflwyno Deddf Eiddo.

**Jeff Smith yw cadeirydd Grŵp Ymgyrchu Cymunedol Cymdeithas yr Iaith**

## Ymateb brys i argyfwng



**Beth dwi'n edrych amdano yn y dyfodol gan y Senedd a datganoli ar dai ac adfywio? Mwy o ffocws ar wneud argraff bositif o blaid y rhai sydd â'r angen mwyaf – nid yn unig o'r sector tai ond o bob rhan o'r llywodraeth.**

Er enghraifft, rydym ar hyn o bryd mewn sefyllfa lle mae gennym bron 12,000 o bobl yn byw mewn llety dros-dro a 3,000 ohonynt yn blant. Dylai hwn fod ar frig y rhestr flaenoriaethau. Mae gwaith diweddar gyda sefydliadau digartrefedd wedi amlygu sut y mae dod o hyd i lety parhaol i bobl ledled Cymru, sydd wedi bod yn her erioed, a bron yn amhosib mewn sawl rhan o Gymru bellach. Mae'n rhaid i ni ganfod ffyrdd o ddatrys a chyllido hyn – mae codi tai cymdeithasol newydd yn hanfodol ond hyd yn oed â dulliau adeiladu modern, cymerai hyn ormod o amser i fod yn unig ateb.

Cafodd y Rhaglen Grant Cyfalaf Llety Dros-Dro ei defnyddio'n greadigol i wneud gwell defnydd o'r stoc bresennol. Hoffwn weld y Llywodraeth yn adeiladu ar sail y llwyddiant hwn ac yn gweithio gyda'r sector i ddod o hyd i ffyrdd mwy creadigol fyth o ddefnyddio adeiladau a gofodau presennol i lunio llu o ffyrdd o helpu'r bobl sydd mewn angen dybryd am dai. I'r teuluoedd sy'n byw mewn stafelloedd gwesty, mae hwn yn argyfwng – hoffwn weld ymateb brys yn brif flaenoriaeth.

A thros y 25 mlynedd nesaf, hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn cydbwyso blaenoriaethau, rhaglenni a chyllid fel bod ei hymyriadau o'r budd mwyaf i'r rhai sydd â'r lleiaf.

**Mae Joy Kent yn ymgynghorydd annibynnol**

## Cenhadaeth genedlaethol



**O edrych yn ôl ar 25 mlynedd cyntaf datganoli yng Nghymru o safbwynt tai, cymerwyd camau breision o ran gwella ansawdd tai, yn enwedig dyfodiad fersiwn cyntaf Safon Ansawdd Tai Cymru, gyda biliynau o bunnau yn cael eu buddsoddi.**

Ond yn y cyfnod hwnnw, parhawyd i werthu tai cymdeithasol o dan Hawl i Brynu, cyn diddymu'r hawl yn 2018, ac ar yr un pryd methwyd buddsoddi'n iawn mewn cyflenwad o gartrefi newydd ar rent cymdeithasol, a olygodd ein bod yn druenus o ddibaratoad yn wyneb ergydion economaidd, a digwyddiadau byd-eang. Gwaethygodd hynny yr hyn a oedd eisoes yn broblem strwythurol gynhenid gyda thai, gan arwain at yr argyfwng cyfredol.

Felly, am y 25 mlynedd nesaf hoffai CIH Cymru weld tai, neu ddarparu cartref diogel, cynaliadwy a fforddiadwy i bawb yng Nghymru, yn mynd yn genhadaeth sylfaenol i lywodraethau'r presennol a'r dyfodol.

Ni ellir mynd i'r afael â'r cyflenwad tai strategol, neu ddiffyg hynny, mewn un cylchred gwleidyddol. Bydd datrys ein hargyfwng tai cyfredol yn siwrnai lawer hwy, ymhell y tu hwnt i'r tymor Senedd hwn, a'r nesaf.

Dylem fod yn ymrwymo llawer mwy na'r tua 4.6 y cant presennol o gyllideb Llywodraeth Cymru i dai yn flynyddol, ac mae arnom angen sicrwydd tymor-hwy ynghylch buddsoddi cyfalaf.

Ond i wneud y genhadaeth genedlaethol honno yn rhan annatod o'n tirlun datganoli, mae CIH Cymru, ynghyd â'i bartneriaid Tai Pawb a Shelter Cymru, yn dadlau mai'r man cychwyn, o reidrwydd, yw ymgorffori hawl i dai digonol yng nghyfraith Cymru – a fyddai, fel y dengys ymchwil annibynnol a wnaed i'n hymgyrch gan Alma Economics, yn arbed £11.5bn i bwrs y wlad.

**Matt Dicks yw cyfarwyddydd Sefydliad Tai Siartredig Cymru**

## Ein cydweithwyr yn edrych yn eiddigeddus dros y ffin



**Cyfeiriodd cyn-Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gofiadwy at ddatganoli fel 'proses, nid digwyddiad'. Wrth i bwerau'r Senedd ddatblygu dros y 25 mlynedd diwethaf, mae dull Cymru o ymdrin â digartrefedd wedi parhau i ddatblygu hefyd, ac mae'n debygol o newid eto cyn etholiadau 2026.**

Ar ôl ennill pwerau deddfu sylfaenol yn refferendwm 2011, pasiodd y Senedd Ddeddf Tai (Cymru) 2014, gan gyflwyno dyletswyddau byd-arweiniol i atal digartrefedd, yn hytrach na dim ond ymateb iddo. Roedd yr arwyddion cynnar yn galonogol, a llwyddwyd i atal digartrefedd mewn rhyw ddau draean o achosion. Ers hynny mabwysiadodd gwledydd eraill ddulliau tebyg.

Ddegawd ymlaen, cyflwynodd y ***Panel Adolygu Arbenigol*** diweddar gynigion deddfwriaethol mwy uchelgeisiol i'r gweinidog cyfredol, yn cynnwys dileu angen blaenoriaethol a bwriadoldeb, yn ogystal â gosod dyletswydd ar ystod o wasanaethau cyhoeddus i nodi, gweithredu ac atgyfeirio pan fo rhywun yn, neu mewn perygl o fod yn, ddigartref. Gobeithiwn weld deddfu ar hyn cyn etholiadau nesaf y Senedd i helpu Cymru ar y siwrnai at roi diwedd ar ddigartrefedd.

Er i bedair cenedl y DU droi at ei gilydd yn aml am ysbrydoliaeth ar ddeddfu,fe'n galluogwyd gan ddatganoli i fynd ati i ymdrin â pholisi mewn ffyrdd gwahanol. Un o'r enghreifftiau mwyaf trawiadol o Gymru'n gwyro oddi wrth Loegr yw cadw'r rhaglen Cefnogi Pobl, sef y Grant Cymorth Tai bellach. Achosodd y penderfyniad i beidio â diogelu'r grant hon yn Lloegr ddirywiad mewn gwasanaethau. Er y clywch chi fi'n aml yn galw am fwy o gyllid yng Nghymru, rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth (drawsbleidiol) barhaus i'r grant hollbwysig hon, tra bod ein cydweithwyr yn Lloegr yn edrych yn eiddigeddus dros y ffin. Yn sicr, gwnaf bopeth o fewn fy ngallu i sicrhau ei barhad am y 25 mlynedd nesaf.

**Katie Dalton yw cyfarwyddydd Cymorth Cymru**

## Atebion Cymreig i broblemau Cymru



**Dyddiau sobreiddiol i devo-optimydd fel fi. Y fath fisoedd! – y groesgad gwrth-20 mya; cwymp Cytundeb Cydweithrediad Llafur a'r Blaid; y dadlau gwleidyddol ynghylch Vaughan Gething.**

A hyn oll ar adeg pan fo grymoedd allanol llawn distryw yn bygwth: prin fod economi'r DU yn symud o gwbl; lefelau erchyll o dlodi plant; GIG sy'n cael trafferth gwasanaethu; ac agwedd gwpwrdd-gwag tuag at arian ychwanegol i Gymru gan lywodraeth newydd y DU.

Does dim o hyn yn mynd i newid. Dyna pam ei bod yn bwysicach fyth dod o hyd i atebion Cymreig i broblemau Cymru. Rhaid i'r Llywodraeth a'r Senedd hyrwyddo a chefnogi agwedd *Gallwn, mi Allwn* ein sector, yn cynnwys:

- **Yr economi sylfaenol:** Mae dyddiau mewnfuddsoddi enfawr wedi diflannu ac mae 'tyfu ein cnwd ein hunain' yn bwysicach o lawer. Mae hynny'n golygu cydnabod swyddogaeth fwy i gymdeithasau tai a chynghorau fel cyrff angori economaidd mewn cymunedau.
- **Sero net:** Cefnogi arloesedd trwy fentrau fel y prosiect 21-landlord Delivering Net Zero, rhannu gwybodaeth ac arbenigedd, datblygu cadwyni cyflenwi a chreu swyddi o ansawdd uchel.
- **Llais tenantiaid:** Bu Cymru'n arwain ar hyn, ond rydym wedi llithro ar ei hôl hi yn ddiweddar. Mae tenantiaid ledled Cymru bellach yn dechrau ymdrefnu eto i sicrhau y clywir eu llais yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae angen i'r ffocws fod ar y dyfodol, ond gallwn gymryd ysbrydoliaeth o'n gorffennol. Cofiwch fod chwyldroadau'n cychwyn yma: y *chwyldro diwydiannol* ar eigion y cymoedd; *chwyldro gwleidyddol* y Siartwyr yng Nghasnewydd; a'r em yn ein coron, y *chwyldro cymdeithasol* a arweiniodd Nye Bevan wrth greu'r GIG.

**Mae Keith Edwards yn gyn-gyfarwyddydd TPAS a CIH Cymru. Ers 2014 bu'n llawrydd. Ef yw'r arweinydd ar dai ar gyda Chynghrair Economi Sylfaenol Cymru**

## Y realiti ar lawr gwlad



**Mae datganoli wedi bod yn gaffaeliad mawr. Cyn dod i Gymru, roeddwn yn edrych ati drwy lens eiddigedd, fel galluogwr a buddsoddwr rhwystredig mewn adfywio stadau yn Llundain, oherwydd yr hawl i brynu. Roedd yn llesteirio'r broses o gwblhau cynlluniau wrth i ni weld erydu cyson yn y stoc fforddiadwy mewn argyfwng tai cynyddol, felly roedd y ffaith i'r Senedd gymryd yr awenau a dileu'r hawl i brynu yn enfawr. Roedd peidio â thorri Cymorth i Brynu a gwrando ar y farchnad yng Nghymru yn fantais amlwg arall yn fy marn i.**

Ar gyfer y dyfodol, rhaid i'r Senedd barhau i fod yn feiddgar ac yn ddewr a gwneud y penderfyniadau polisi iawn i symud yr agenda gyfan ymlaen gyda'n gilydd. Yr hyn yr hoffwn ei weld yw mwy o ategu polisi ar draws yr holl ddisgyblaethau tai ac adfywio, i sicrhau bod y polisïau a'r syniadau a'r agendâu yn gydgysylltiedig, ac yn cydweithio'n gytûn. Bod ag un ffynhonnell gyllidol fwy cydlynol yw'r greal sanctaidd mewn rhai ffyrdd o safbwynt cyfleoedd datblygu mwy, a bythol-gyfnewidiol; byddai symleiddio hynny'n hwyluso rhai elfennau o'r ddarpariaeth.

Rhaid i'r papur gwyn digartrefedd fod wedi ei alinio â realiti cyflenwad ac adnoddau ar lawr gwlad ar draws yr holl awdurdodau lleol sy'n profi cyni eithafol. Mae safonau ansawdd uwch yn ganmoladwy a dyma'r peth iawn i'w wneud, ond mae angen i'r Senedd ddod â rhywfaint o bragmatiaeth i'r syniad y gall y sector gyflawni'r targedau adeiladu newydd, gyda'r holl bwysau cystadleuol ar hyfywedd, a chodi stoc i fyny i'r safon ofynnol. Polisi canmoladwy na fyddai neb yn y sector yn anghytuno ag ef, ond dylai'r Senedd wrando ar y sector a gweithredu fel partner, er mwyn cyflawni ei mandad gwleidyddol ei hun.

**Nick Taylor-Williams yw pennaeth tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

## Cymaint o adnoddau ag sydd ar gael



**Cred Shelter Cymru bod cartref yn bopeth ac y dylai sicrhau hawl pawb i gartref diogel, addas a gwirioneddol fforddiadwy fod yn brif flaenoriaeth i Gymru.**

I wreiddio hyn yn gadarn, mae'n hanfodol ymgorffori hawl i dai digonol yn y gyfraith. Ers datganoli, bu llwyddiannau gyda hawliau tai, ond wrth edrych i'r dyfodol mae'n amlwg ei bod yn bryd cymryd y cam nesaf. Byddai hyn yn clymu'r llywodraeth i symud ymlaen tuag at wireddu'r hawl i gartref addas i bawb, gyda mecanweithiau atebolrwydd cryfach, ac yn ysgogi'r newid sydd ei angen arnom.

Buom yn lobïo ers oes o blaid gwelliannau arfaethedig Llywodraeth Cymru i'r ddeddfwriaeth digartrefedd. Ond wrth i ni wynebu argyfwng tai difrifol a pharhaus ym mhob deiliadaeth, mae angen cynllun diymdroi fynd i'r afael ag angen dybryd ochr yn ochr â strategaeth hirdymor sy'n cynnwys hyrwyddo 'cartref' ar draws adrannau'r llywodraeth, gan gydnabod bod buddsoddi mewn cartrefi yn golygu buddsoddi mewn pobl – mewn iechyd, addysg, cyflogaeth a chenedlaethau i ddod. Rhaid i gyllideb Cymru roi mwy o flaenoriaeth i ddiweddu digartrefedd ac i gartrefi cymdeithasol, ynghyd ag ymrwymiad i sicrhau gwell mynediad pobl i gartrefi sy'n ateb eu hanghenion.

Mae hawl i dai digonol, sy'n golygu defnyddio 'cymaint o adnoddau ag sydd ar gael', yn gyfle i greu dyfodol gwahanol. Mae Clymblaid Cefnogi'r Bil wedi cyhoeddi llwybr tuag at gyflawni hyn, ac i Gymru, dyma gyfle i wneud gwireddu'r hawl i dai digonol yn gyflawniad blaengar a fydd yn goron ar oes nesaf datganoli.

**Ruth Power yw prif weithredydd Shelter Cymru**



## Rydym wedi dod yn bell



**Yn y 1980au hwyr, am resymau yn ymwneud yn fwy â gwleidyddiaeth y DU na hunaniaeth Gymreig, datblygodd Cymru a Lloegr bolisïau ac arferion tai ar wahân.**

Aeth 'swyddfa ranbarthol' y Gorfforaeth Tai yn Tai Cymru; sefydlodd y Sefydliad Tai Siartredig swyddfa ar wahân i Gymru; roedd gan y Swyddfa Gymreig ei 'Hagenda Gweithredu' ei hun gan gynnwys, yn nyddiau John Redwood, y dyhead am weld 80 y cant yn berchen ar eu cartrefi eu hunain. Derbyniai'r Swyddfa Gymreig ganllawiau arfer da gan y Panel Cynghori ar Reolaeth Tai annibynnol. Rydym wedi dod yn bell o'r dyddiau hynny cyn y refferendwm.

*'Proses yw datganoli. Nid yw'n ddigwyddiad, ac nid yw ychwaith yn siwrnai â phen draw sefydlog,'* meddai Ron Davies, ysgrifennydd gwladol Cymru ar y pryd. Fel datganoli, does dim pen draw i ddiwallu'r angen am dai. Mae llawer i'w groesawu yn llwyddiannau'r 25 mlynedd diwethaf: mwy o fesurau i amddiffyn tenantiaid, gwell cartrefi, diwedd ar yr hawl i brynu. Ac eto, mae digartrefedd, yr amlygiad eithafol o angen, yn tyfu, a chostau rhentu a pherchentyaeth yn cynyddu o hyd. Bydd mwy o ddigwyddiadau annisgwyl a ddaw â heriau newydd i darfu ar gynlluniau a chynnydd. Mae newid hinsawdd yma.

Ble gall y Senedd wneud fwyaf o argraff? Mae angen polisïau ac adnoddau arnom i wneud cartrefi'n fwy fforddiadwy ac ynni-effeithlon, lleiniau gwyrdd â gorchudd coed, a mannau tyfu cymunedol i feithrin gwytnwch hinsawdd a sicrwydd bwyd: llefydd lle gall pobl fyw'n dda. Yna, ymhen 25 mlynedd, gellir dweud ein bod yn cyflawni nodau 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'.

**Judy Wayne yw cadeirydd Our Food 1200 a hi oedd cyfarwyddydd cyntaf CIH (Cymru)**



## Braf gweithio yng Nghymru



**Wel, aeth 25 mlynedd o ddatganoli heibio mewn chwinciad. Mae llawer i fod yn bositif yn ei gylch ond mae rhai pethau bob amser a allai fod yn well. Ar ôl dechrau fy ngyrfa dai yn Lloegr, mae wedi bod yn braf gweithio yng Nghymru mewn amgylchedd polisi datganoledig ers 18 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru yn teimlo'n agos at y sector tai yma, sydd wedi bod o fudd gwirioneddol wrth ddatblygu polisi tai.**

Bu gwahaniaethau polisi mewn rhai meysydd allweddol. Cafwyd y buddsoddiad mwyaf erioed yn y stoc tai cymdeithasol yn y 15 mlynedd diwethaf ar ffurf Safon Ansawdd Tai Cymru. Rydym nawr yn cychwyn ar ail fersiwn lawn y safon, gan ehangu'r gwaith ar ddatgarboneiddio a gwneud tai yn fwy cynaliadwy.

Gwelsom dargedau uchelgeisiol yn rheolaidd ar gyfer tai fforddiadwy i Gymru, wedi'u cefnogi gan gysondeb o ran cyllid grant wedi'i glustnodi i gefnogi datblygiad. Cafodd hyn hefyd effaith allweddol ar adfywio cymunedau lleol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi diogelu polisi gosod rhenti i raddau helaeth, gan anelu at gadw rhenti'n fforddiadwy. Gyda pholisïau gwahanol yn Lloegr, gwelwyd twf cymdeithasau tai anferthol, yn dilyn ton o gyfuno. Mewn rhai achosion bu problemau gwirioneddol gyda safon cynnal a chadw eiddo, a chollwyd gwerthoedd craidd. Mae hyn yn air o rybudd i gymdeithasau tai yng Nghymru wrth i nifer fynd ati i gyfuno. Doeth o beth fyddai sicrhau bod preswylwyr yn parhau i fod yn gwbl ganolog i'n syniadaeth.

Gan symud ymlaen, beth fydd y 25 mlynedd nesaf o ddatganoli yn ei gynnig? Wel, gobeithio y bydd y berthynas waith agos rhwng y llywodraeth a'r sector tai ehangach yn parhau. Mwy o bwerau cyllidol i gefnogi blaenoriaethau buddsoddi Cymru. Cadw buddiannau gorau cymunedau Cymru wrth galon y broses benderfynu.

**Tom Broadhead yw cyfarwyddwr gwella busnes Cartrefi Melin a chadeirydd bwrdd cynghori WHQ**

## Gweld y darlun mawr



**Tai yw un o'r meysydd polisi a welodd rai o'r diwygiadau pwysicaf ers dyfodiad datganoli gwleidyddol. O ddileu'r hawl i brynu i ddeddfu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru), mae'r Senedd wedi cymryd camau pwysig i wella'r system dai yng Nghymru. Ond er gwaethaf gweithredu o'r fath, mae effaith yr argyfwng tai yn parhau i fod yn rhy amlwg ledled y wlad. Felly sut dylid gwneud pethau'n well dros y 25 mlynedd nesaf?**

Yn gyntaf, mae angen sicrhau bod y Senedd a Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar atebion sy'n gweld y darlun mawr. Yn rhy aml, mabwysiadwyd dull tameidiog o lunio polisi nad yw wedi newid pethau'n sylfaenol o safbwynt tlodi ac anghydraddoldeb. Dros y chwarter canrif nesaf, rhaid i'r ffocws fod ar ymyriadau polisi a fydd yn gwneud gwahaniaeth ar raddfa fawr, megis cynyddu argaeledd tai cymdeithasol yn sylweddol.

Yn ail, mae angen cydnabod ymylon anniben y setliad datganoli yn well. Mae'r dreth stafell wely, er enghraifft, yn rhoi straen sylweddol ar systemau tai a digartrefedd Cymru. Er gwaethaf hyn, ychydig iawn o lwyddiant aa fu gyda chynyddu'r nifer o unedau eiddo un-llofft sydd ar gael dros y degawd diwethaf. Os nad oes rhagor o bwerau dros fudd-daliadau yn mynd i gael eu datganoli, yna rhaid i bolisi tai Cymru ymateb yn well i benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU, er mwyn sicrhau na chaiff llawer o bobl dlotaf Cymru eu gwthio i mewn i galedi.

**Dr Steffan Evans yw pennaeth polisi Sefydliad Bevan**

Jonny Gios via Unsplash



# DEALL YR EFFEITHIAU

Caiff darllenwyr WHQ y diweddaraf gan Jennie Bibbings am waith y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn dilyn newidiadau i'r cyd-destun gwleidyddol yng Nghymru a San Steffan

**Mae newid mawr ar y gweill yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn sgil yr ad-drefnu gan Lafur, y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru. Mae'r Cadeirydd, John Griffiths AS, yn parhau wrth y llyw, ond mae Lee Waters AS, Altaf Hussain AS, James Evans AS a Siân Gwenllian AS yn ymuno ag ef fel aelodau newydd o'r pwyllgor. Waeth beth fo'r newidiadau o ran yr aelodaeth, mae rhaglen waith y pwyllgor yn parhau.**

Clywodd y pwyllgor dystiolaeth fel rhan o'i ***ymchwiliad i'r sector rhentu preifat*** rhwng mis Chwefror a mis Ebrill, gan ***graffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet*** dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, Julie James AS, ar 24 Ebrill. Holodd yr aelodau yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch materion megis amodau, lefelau rhent a throi allan heb fai, yn ogystal â'r cwestiwn hirsefydlog o sut i gasglu data o ansawdd da. Bydd y pwyllgor yn trafod ei adroddiad yn ddiweddarach yn nhymor yr haf, a disgwylir i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi yn fuan wedyn.

Yn y cyfamser, mae'r pwyllgor yn parhau i gymryd tystiolaeth fel rhan o'i ***ymchwiliad i gyflenwad tai cymdeithasol***. Mae ***30 o ymatebion*** i'r ymgynghoriad ysgrifenedig wedi dod i law, ac mae pob un ohonynt ar gael ar-lein. Ar adeg ysgrifennu'r erthygl hon, roedd yr aelodau wedi clywed gan wyth panel o dystion, gyda phanel arall wedi'i drefnu ar gyfer 3 Gorffennaf. Mae'r aelodau wedi cynnal dwy sesiwn i ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli darparwyr tai ac adeiladwyr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymgysylltu â phobl sy'n aros am dai cymdeithasol a thenantiaid cymdeithasol newydd, gan fod yr aelodau am ddeall effeithiau dynol y diffyg cyflenwad o gartrefi cymdeithasol. Hyd yn hyn, mae tystion wedi gwneud llawer o argymhellion ar themâu fel tir, cynllunio, cyllid a dulliau a arweinir gan y gymuned. Er bod heriau mawr yn bodoli, y neges gyffredinol yw bod yna gyfleoedd hefyd i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi cymdeithasol a chartrefi fforddiadwy o ansawdd da.

Nesaf fydd y sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet. Mae'r sesiwn hon yn debygol o gael ei chynnal ganol mis Medi. Bydd y pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ar yr ymchwiliad yn ystod tymor yr hydref.



## NEWYDDION ERAILL

Mewn newyddion eraill, rhoddodd y cyhoeddiad ynghylch Etholiad Cyffredinol y DU ***derfyn sydyn*** ar y ddau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Filiau gan Lywodraeth y DU yr oedd y pwyllgor yn eu trafod. Nid oedd angen bwrw ymlaen mwyach â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Diwygio Rhentwyr, a oedd â'r nod o wahardd gwahaniaethu yn erbyn tenantiaid preifat, oherwydd ni chafodd y Bil hwn ei gynnwys ar y rhestr o ***ddeddfwriaeth oedd yn weddill yr oedd yn rhaid ymdrin â hi cyn yr etholiad***.

Cafodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol arall, sef y memorandwm ar ddiwygio lesddaliadau, ei ddisodli oherwydd bod y ddeddfwriaeth wedi cael Cydsyniad Brenhinol heb i'r Senedd gael cyfle i gwblhau'r broses o benderfynu ar gydsyniad deddfwriaethol. Mae ***Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024*** yn cyflwyno hawliau newydd sylweddol i berchnogion tai yng Nghymru, gan gynnwys gwahardd lesddaliadau ar gyfer y rhan fwyaf o dai newydd, a chyflwyno hawliau i ddileu rhenti tir ar brydlesi presennol ar ôl talu premiwm.

Gan edrych ymhellach ymlaen, disgwylir i Lywodraeth Cymru osod dau ddarn o ddeddfwriaeth ynghylch tai cyn diwedd tymor y Senedd hwn yn 2026: un ar ***ddiogelwch adeiladau*** a'r llall ar ***ddigartrefedd***. Mae'r ddau yn Filiau hir-ddisgwyliedig a fydd yn effeithio ar fywydau llawer o bobl. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eto pryd y bydd y naill Fil na'r llall yn cael ei osod. O gofio pa mor gymhleth yw'r ddau faes hyn, mae'n bwysig bod rhanddeiliaid yn y sector yn casglu tystiolaeth cyn gynted â phosibl, yn barod i gymryd rhan yn yr ymgynghoriadau pan ddaw'r amser.

**Mae Jennie Bibbings yn uwch-ymchwilydd yn y Senedd. Mae Ymchwil y Senedd yn darparu ymchwil a dadansoddiadau sy'n ddiduedd yn wleidyddol i Aelodau o'r Senedd a phwyllgorau'r Senedd. Maent yn cyhoeddi llawer o'u gwaith i bawb ei ddarllen yn *ymchwil.senedd.cymru* a gallwch eu dilyn ar X yn *@SeneddYmchwil*.**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diweddaru rheoliadau

Mae ein diweddariad rheolaidd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys hynt y gwaith ar fodel rheoleiddio newydd a chryfhau'r tîm

**Yn y diweddariad hwn, gofynnwyd i Ceri Victory Rowe, cyfarwyddwr Campbell Tickell, i ystyried ei waith o gefnogi adolygiad y tîm rheoleiddio o'r ffordd yr ydym yn asesu perfformiad rheoleiddio yng Nghymru. Fel y dywed Ceri, y cynllun oedd profi model newydd yn gynnar yn 2020…**

> *Mae felly'n amser da i ystyried sut y dylai model asesu rheoleiddiol, addas ar gyfer y dyfodol, edrych*

*'Gwnaeth y pandemig COVID rywbeth rhyfedd i'n canfyddiad o amser. Crebachodd ac ehangodd ein gorwelion, fel bod 2020, pan oeddem yn barod i helpu Llywodraeth Cymru i roi prawf ar ffordd newydd o reoleiddio tai cymdeithasol, yn ymddangos rywsut yn ddiweddar iawn ac yn hynod o bell i ffwrdd.*

*'Y gwir amdani yw, mewn cwta bedair blynedd, bu newidiadau enfawr, ac mae'r rheoleiddiwr bellach yn gweithredu mewn amgylchedd tra gwahanol. Amgylchedd anodd: i LCCiaid, i'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu, i'r bobl maen nhw'n eu cartrefu a'u cefnogi. Mae felly'n amser da i ystyried sut y dylai model asesu rheoleiddiol, addas ar gyfer y dyfodol, edrych.*

*'I ddechrau, mae hynny'n golygu bod ag agwedd gyfannol tuag at yr adolygiad, yn cwmpasu llywodraethiant, gwasanaethau tenantiaid a hyfywedd ariannol, ac angori'r gwaith yn y Safonau a Fframwaith Rheoleiddiol newydd a gyhoeddwyd yn 2022. Rydym yn treulio amser gyda'r tîm rheoleiddio, i ddeall y cyfleoedd, y pwysau a'r heriau yn eu gwaith a sut beth allai ffordd newydd o fynd ati fod, un sy'n gweithio iddyn nhw tra'n gwasanaethu'r nod derfynol o amddiffyn tenantiaid, buddsoddi cyhoeddus mewn tai cymdeithasol a'r holl bobl sy'n elwa arno. Yn ganolog i hyn, wrth gwrs, mae egwyddorion cyson rheoleiddio cyd-reoleiddiol, cymesur, sy'n seiliedig ar risg – a'r awydd i fod â pherthynas dryloyw, adeiladol a chadarn gyda'r sector.*

*'Wrth i'r model newydd ddod i'r amlwg, rhagwelwn y bydd yna lawer y bydd y sector yn gyfarwydd ag ef o gysyniadau a rannwyd yn gynnar yn 2020, a adeiladwyd ar eu hadborth. Ond bydd y model newydd yn seiliedig, hefyd, ar yr hyn a ddysgwyd yn y cyfnod ers hynny – o siâp rheoleiddio yn ystod y pandemig, a'r cyfnod trosiannol ers hynny.*

*'Rhoddodd aelodau o'r sector adborth gwerthfawr am y syniadau roeddem yn eu datblygu yng Nghynhadledd Llywodraethiant CHC fis Mawrth, a chynhelir gweithdai pellach gyda'r sector yn ogystal ag ymgynghoriad â'r Grŵp Cynghori ar Reoleiddio (RAG). Yn bwysig iawn, byddwn hefyd yn gweithio gyda TPAS Cymru i sicrhau y caiff tenantiaid gyfle i roi adborth*

*'Pan fydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, bydd y rheoleiddiwr yn rhoi prawf ar y model mewn amgylchedd asesu byw yn gyntaf, gan ei ddatblygu ymhellach os bydd angen trwy ddysgu o ddefnydd ymarferol ac adborth.'*

Yn y tîm, gwelwn y newidiadau sy'n cael eu cynnig fel esblygiad nid chwyldro, yn adeiladu ar sail elfennau gorau'r model asesu presennol ac yn ymateb i'r hyn a ddysgwyd a heriau'r blynyddoedd diwethaf yn ogystal ag amgylchedd gweithredu ac economaidd a newidiodd yn aruthrol.

Mae cryfhau'r tîm hefyd yn allweddol i weithrediad y model asesu newydd a gallwch ddisgwyl gweld hysbysebion ar gyfer nifer o swyddi tîm, yn ogystal â rhai cynghori, yn yr ychydig wythnosau nesaf. Pleser gennym hefyd yw cyhoeddi bod Joanne Valentine wedi'i phenodi'n ddirprwy gyfarwyddydd strategaeth tai a rheoleiddio. Mae gan Jo 15 mlynedd a mwy o brofiad o bolisi a chyflawni yn y gwasanaeth sifil ar draws amrywiaeth o adrannau a bydd rhai ohonoch yn ei hadnabod eisoes drwy ei gwaith yn arwain yr ymateb dyngarol tymor-hwy i Wcráin a goruchwylio gweithrediad y rhaglen Cyfalaf Llety Trosiannol i gefnogi'r rhai sydd ag angen tai.



# Y siwrnai ddigidol

O reolaeth tai i dargedau cydraddoldeb ac adeiladu tai i gyflwr y sector rhentu preifat, data yw'r allwedd i fesur perfformiad ar gyfer llywodraethau a landlordiaid fel ei gilydd. Mae'n bosibl bod yr holl gyffro am Ddata Mawr heibio'i anterth bellach ond mae oblygiadau technoleg ddigidol yn parhau i ymledu ar draws y maes tai, ac mae diogelu gwybodaeth bersonol a dilysrwydd systemau wedi mynd yn fater allweddol i sefydliadau tai. Mae'r adran nodwedd WHQ arbennig hon yn pwyso a mesur y sefyllfa.






# GWYBOD YR HYN NA ŴYR POBL ERAILL

Bethan Jones yn archwilio gwerth y data a gedwir gan Rhentu Doeth Cymru a'r hyn a ddywed wrthym am gyflwr y sector rhentu preifat yng Nghymru heddiw.

**'Camgymeriad marwol yw damcaniaethu cyn bod gan rywun ddata,' meddai Syr Arthur Conan Doyle yn A Study in Scarlet ym 1887. Tra'r oedd ef wrth gwrs yn sôn am ddatrys dirgelion, yn yr un modd ni ellir gorbwysleisio rhinweddau meddu ar y data cywir yn ein gwaith i wella safonau ar draws y sector rhentu preifat yng Nghymru.**

Elfennol, efallai, ond does dim rhaid i chi fod yn Sherlock Holmes i ganfod bod ein dealltwriaeth o'r sector ledled y genedl wedi gwella'n fawr ers sefydlu Rhentu Doeth Cymru bron naw mlynedd yn ôl, diolch i'r wybodaeth a'r mewnwelediadau rydym wedi'u crynhoi a'r data a gasglwyd drwy'r cynllun.

Oes, mae gennym yr ystadegau sylfaenol sy'n dangos mwy na 215,000 eiddo cofrestredig ledled Cymru yn perthyn i 103,000 o landlordiaid preifat, sef 2.09 eiddo yr un ar gyfartaledd, cynnydd graddol ym maint y portffolio dros y blynyddoedd.

Gwyddom fod bron 47,500 o drwyddedigion cymeradwy ledled y wlad, a sut mae'r ffigur hwnnw'n ymrannu'n landlordiaid ac asiantiaid. Mae gennym ddata hyfforddi, ystadegau gorfodi a gwybodaeth am berfformiad misol ein canolfan gyswllt Rhentu Doeth Cymru. Mae'r cwbl yn stwff *defnyddiol* iawn ond aeth hyd yn oed yn fwy *defnyddiadwy* pan lansiwydd ein dangosfyrddau rhyngweithiol ar-lein yn **www.rentsmart.gov.wales** y llynedd (*Ffigur 1*).

## YSTADEGAU RHYDDID GWYBODAETH

Arweiniodd hyn at ostyngiad dramatig yn nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth am ddata a dderbyniwn, gan fod y wybodaeth sydd gennym bellach ar gael yn rhwyddach ac yn fwy hygyrch i aelodau'r cyhoedd, cwsmeriaid a phartneriaid.

Gall ymwelwyr â'n gwefan weld data ar gofrestriadau, trwyddedu, hyfforddi, gorfodi a pherfformiad ynni o fis i fis yn rhwydd, a gellir hidlo fesul ardal a/neu awdurdod lleol.

Mae'r nodwedd gymharu ar y dudalen gofrestru yn galluogi defnyddwyr i weld ystadegau dros gyfnod penodol o'r adeg i ni ddechrau casglu data, sy'n arf bach defnyddiol i'n helpu i ddeall gwedd gyfnewidiol y sector rhentu preifat yng Nghymru. Er enghraifft, gan ddefnyddio'r hidlydd i ddangos cofrestriadau o 2020 hyd heddiw, gwelir bod llai o landlordiaid ond mwy o eiddo, sy'n arddangos tuedd i landlordiaid fod yn berchen ar fwy o eiddo ar gyfartaledd, fel y nodais uchod (*Ffigur 2*).


Dywed ein data trwyddedu wrthym fod y sector yn cael ei reoli gan nifer cymharol fach o asiantiaid (4,544). Mae canran yr eiddo a reolir gan asiantiaid mewn ardal yn amrywio'n fawr ledled y wlad, fel y gellid disgwyl ac nid yw'n syndod mai'r brifddinas sydd ar frig y siart gyda rhyw 69 y cant o eiddo a rentir yng Nghaerrdydd o dan reolaeth asiant.

Fodd bynnag, mae'r nifer cymharol isel o asiantiaid yng Nghymru yn golygu y gall eu perfformiad ar draws y sector gael effaith eang ei gwmpas – ar denantiaid, landlordiaid ac asiantiaid eu hunain. Dyma'r prif reswm pam rydym yn clustnodi mwy o adnoddau ar gyfer gwella eu perfformiad; er enghraifft, byddwn yn cynnal archwiliadau asiant masnachol i adolygu arferion gwaith er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag amodau trwyddedu, y Cod Ymarfer, a gofynion y ddeddf.


Bwriad archwiliadau yw helpu asiantiaid i wneud newidiadau hirdymor i'w harfer busnes a dywed asiantiaid wrthym fod y broses yn hynod werthfawr. Ar ei therfyn, rhoddir gradd iddynt sy'n amrywio o 'Arfer Gorau' i 'Angen Gweithredu Brys' a chynllun gweithredu. Cefnogir hyn gan ystod o adnoddau i'w helpu i newid pethau.

Dadleuir yn aml nad yw awdurdodau gorfodi yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r landlordiaid a'r asiantiaid hynny sy'n gwrthod cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol ond mae Rhentu Doeth Cymru a'n partneriaid ar gynghorau wedi ymrwymo i sicrhau bod rhai sy'n torri'r gyfraith yn wynebu'r gosb briodol. Dengys y dangosfwrdd


*Ffigur 1*



*Ffigur 2*




*Ffigur 3*






gorfodi ar-lein nifer yr ymchwiliadau a wneir gennym o fis i fis sy'n arwain at gydymffurfiaeth, nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB) a gyhoeddwyd fesul ardal ac, yn y pen draw, cyfanswm yr erlyniadau yn erbyn landlordiaid ac asiantiaid sy'n parhau i fethu cydymffurfio, sef tua 18 y cant o'r rhai y rhoddwyd HCB iddynt.

## TU HWNT I'N DISGWYLIADAU

Os ydych chi'n darllen ***Welsh Housing Quarterly*** yn rheolaidd, efallai i chi weld erthygl gennyf y llynedd am effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi rhent. Mae effaith a gafodd Rhentu Doeth Cymru ar berfformiad ynni ledled sector rhentu Cymru wedi bod y tu hwnt i'n disgwyliadau. A diolch i'n gallu i gymharu data Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) a data cofrestru Rhentu Doeth Cymru, gallasom dargedu landlordiaid oedd heb gydymffurfio â negeseuon 'angen cydymffurfio' a arweiniodd at fwy o ymwybyddiaeth yn y sector o ofynion MEES (Safon Isafswm Effeithlonrwydd Ynni) a gostyngiad amlwg yn nifer y tai gradd F a G.

Mae tua 2 y cant o gartrefi yn y sector yn parhau yn y categorïau isaf hynny ac felly byddwn yn parhau i gydweithio â thimau Safonau Masnach i rannu data i'w cynorthwyo gyda gweithgareddau gorfodi ac i sicrhau gwelliannau pellach. Mae gan ein dangosfwrdd perfformiad ynni dabl cynghrair o effeithlonrwydd ynni'r sector rhentu preifat fesul awdurdod lleol, a dengys y data bod y perfformiad ynni yn waeth mewn awdurdodau gwledig. Inswleiddio waliau yw'r her fwyaf o hyd (*Ffigur 3*).

Yn olaf, mae ein dangosfyrddau ar gyfer y cyhoedd yn gwella'n gyson ac fe lansiwyd ein seithfed dangosfwrdd cyhoeddus yn ddiweddar. Mae'r dangosfwrdd eiddo, a'i lefel o fanylion gronynnol ar nodweddion eiddo cofrestredig – sawl llofft, mathau o eiddo, pwy sy'n rheoli'r eiddo, a sgôr EPC fesul ward – yn drysorfa wirioneddol i dimau strategaeth tai, timau iechyd yr amgylchedd a chynllunwyr sy'n chwilio am wybodaeth er mwyn datblygu polisi lleol a blaenoriaethu rhaglenni gwaith. Edrychwch ar ***www.rentsmart.gov.wales***

**Bethan Jones yw rheolydd gweithredol Rhentu Doeth Cymru yng Nghyngor Caerdydd, yr awdurdod ar gyfer cynllun cofrestru a thrwyddedu sector rhentu preifat Llywodraeth Cymru.**








# DIOGELU GWYBODAETH BERSONOL YN Y MAES TAI

David Teague yn rhannu cyngor ymarferol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) i helpu sefydliadau tai i ddiogelu gwybodaeth bersonol preswylwyr a chadw eu systemau'n ddiogel



**Er mwyn darparu llety, gwasanaethau a chymorth i breswylwyr, rhaid i bob sefydliad tai brosesu gwybodaeth bersonol. Gall hyn fod yn unrhyw beth o fanylion cyswllt rhywun i wybodaeth sensitif fel eu cofnodion meddygol. Mae gan unrhyw un sy'n prosesu gwybodaeth bersonol gyfrifoldeb i'w diogelu o dan y gyfraith ar ddiogelu data. Mae hyn yn cynnwys ei gadw'n ddiogel, sicrhau ei fod yn gywir a bod yn dryloyw gyda phobl ynghylch sut rydych yn bwriadu ei ddefnyddio.**

Fel rheoleiddiwr diogelu data'r DU, rydym am gefnogi pob sefydliad yn y sector tai i drin gwybodaeth bersonol yn gyfrifol ac yn gyfreithlon. Gall blaenoriaethu camau sylfaenol, megis hyfforddi staff, gwirio cofnodion ddwywaith a chyfyngu ar fynediad helpu i atal bylchiadau data personol cyn iddynt ddigwydd, gan leihau'r risg o niwed i breswylwyr. Gall diogelu gwybodaeth yn dda hefyd leihau'r risg o ymosodiadau seiber ac helpu i ddiogelu'r wybodaeth bersonol sydd gennych.

Rydym wedi aroleuo rhai camau ymarferol y gall sefydliadau tai eu cymryd i sicrhau bod ganddynt arferion diogelu data cadarn ar waith:

## RHOI HYFFORDDIANT TRYLWYR A PHERTHNASOL

Rhaid i bob sefydliad tai sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol fel eu bod yn gyfarwydd â'u rhwymedigaethau diogelu data. Rhaid hyfforddi'r holl staff yn llawn yn y prosesau a'r gweithdrefnau cywir wrth ymdrin â gwybodaeth bersonol fel eu bod yn gwybod pryd i uwchgyfeirio unrhyw fylchiadau, a pha gofnodion y cânt eu cyrchu. Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw hyfforddiant yn benodol i'r rôl, yn gweddu i'r tasgau dan sylw ac yn berthnasol iddynt. Dylai staff deimlo'n hyderus wrth drin gwybodaeth bersonol pobl yn ddiogel a dilyn prosesau eu sefydliad.

Yn gynharach eleni, cyhoeddwyd *cerydd i Gymdeithas Tai Clyde Valley* am ddangos gwybodaeth bersonol preswylwyr ar borthol cwsmeriaid ar-lein. Ffoniodd preswylydd gynghorydd gwasanaethau cwsmeriaid i'w hysbysu am y bylchiad data, ond ni chafodd ei bryderon eu huwchgyfeirio. Canfu ein hymchwiliad fod y gymdeithas tai wedi methu cynnal profion digonol cyn i'r porthol cwsmeriaid fynd yn fyw ac nad oedd staff wedi'u hyfforddi'n briodol ar sut i uwchgyfeirio bylchiad.

## GWIRIWCH AC AIL-WIRIWCH YN RHEOLAIDD FOD GWYBODAETH YN GYWIR

Rhaid i sefydliadau tai gymryd camau i sicrhau bod y wybodaeth bersonol sydd ganddynt yn gywir a gellir atal llawer o fylchiadau trwy sicrhau bod staff bob amser yn ail-wirio cyn i unrhyw wybodaeth bersonol gael ei

throsglwyddo, ei newid neu ei datgelu. Gallai gwirio'n aml gyda phobl i weld os yw'r wybodaeth a'r cyfarwyddiadau ar eu cyfer yn dal yn gywir atal gwybodaeth rhag cael ei datgelu i gyfeiriad, cyfeiriad e-bost neu rif cyswllt blaenorol. Bydd cadw cofnod cywir o gyswllt â phreswylwyr hefyd yn eich helpu i ddelio â materion mewn modd amserol.

Yn 2022, rhoddwyd ***cerydd i'r darparwyr tai Bolton at Home*** am ddatgelu cyfeiriad cartref dioddefwr cam-drin domestig yn amhriodol. Canfu ein hymchwiliad fod angen i'r gymdeithas tai fod yn fwy gofalus wrth gadw cofnodion er mwyn amddiffyn preswylwyr.

## BOD Â SYSTEM AR WAITH I GEFNOGI RHANNU DATA

Gall sefydliadau tai o bryd i'w gilydd dderbyn ceisiadau am wybodaeth am breswylwyr presennol a chyn-breswylwyr gan drydydd partïon, megis cwmnïau cyfleustodau a chasglwyr dyledion.

Fe fydd yna sefyllfaoedd lle gall fod angen rhannu gwybodaeth bersonol am breswylwyr gyda thrydydd parti, a dylai fod gan sefydliadau tai system briodol ar waith. Gall bod â system sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i uwch-aelodau o staff, wedi'u hyfforddi mewn diogelu data, benderfynu a ddylid rhyddhau gwybodaeth bersonol fesul achos leihau'r tebygolrwydd y caiff data ei rannu'n amhriodol. Os bydd sefydliad tai yn penderfynu rhannu gwybodaeth bersonol, dim ond gwybodaeth berthnasol, angenrheidiol y dylai ei darparu a dylid cofnodi'r penderfyniad.

Cymryd camau i gadw eich systemau'n ddiogel, yn cynnwys:

- **Defnyddiwch gyfrineiriau cryf a dilysiad aml-ffactor:** Gwnewch yn siŵr y defnyddir cyfrineiriau cryf ar ffonau clyfar, gliniaduron, tabledi, cyfrifon e-bost ac unrhyw ddyfeisiau neu gyfrifon eraill lle caiff gwybodaeth bersonol ei storio. Lle bo modd, dylech ystyried defnyddio dilysu aml-ffactor. Mae hwn yn fesur diogelwch i sicrhau bod y person cywir yn cyrchu'r data. Mae'n mynnu o leiaf ddau ddull adnabod ar wahân cyn caniatáu mynediad.
- **Gochelwch rhag negeseuon e-bost amheus:** Dylid monitro'n rheolaidd i ganfod gweithgarwch amheus neu anarferol ac ymchwilio iddo. Dylai staff wybod sut i drin e-byst amheus a hysbysu cydweithwyr perthnasol amdanynt yn ddioed. Gochelwch rhag galwadau i weithredu ar frys, ceisiadau i ddiweddaru dulliau talu, a chynigion i ailosod cyfrinair nas ceisiwyd.
- **Gosodwch feddalwedd i amddiffyn yn erbyn drwgwedd a'i diweddaru:** Gall helpu i amddiffyn eich dyfais rhag ymosodiad, ond dim ond os caiff ei diweddaru a'i monitro'n rheolaidd. Gweithredwch ar unrhyw rybuddion.
- **Diweddarwch feddalwedd:** Rhedwch pob diweddariad meddalwedd yn ddioed. Mae hyn yn sicrhau y caiff unrhyw broblemau neu wendidau eu trwsio ac yn lleihau'r posibilrwydd o ymosodiad.
- **Peidiwch â chadw data'n hwy na'r angen:** Nid dim ond rhyddhau gofod storio a wna dileu data dianghenraid, mae'n egwyddor allweddol i ddiogelu data. Mae'n golygu bod llai o wybodaeth bersonol mewn perygl os dioddefwch ymosodiad seiber neu fylchiad personol.
- **Gwaredwch hen offer TG a chofnodion yn ddiogel:** Rhaid sicrhau na chaiff data personol ei adael ar gyfrifiaduron, gliniaduron, ffonau clyfar neu unrhyw ddyfais ddigidol arall, cyn cael gwared arnynt. Gallech ystyried defnyddio meddalwedd dileu neu logi arbenigwr i ddileu'r data.
- **Adroddwch wrth yr ICO:** Pe bai ymosodiad seiber yn digwydd, mae gofyniad rheoliadol arnoch i ddweud wrth yr ICO. Rydym hefyd wedi gweithio gyda NCSC i atgoffa sefydliadau i beidio â thalu pridwerth os ceir ymosodiad seiber, gan nad yw'n lleihau'r risg i unigolion nac yn cael ei ystyried yn gam rhesymol i ddiogelu data.

## MAE'R ICO YMA I HELPU SEFYDLIADAU TAI A THRIGOLION

Am astudiaethau achos pellach am faterion megis rhannu data a chadw cofnodion cywir, mae gan yr ICO ***flog penodol ar sut y gall cyfraith diogelu data atal niwed yn y sector tai***.

Gall unrhyw sefydliad tai sydd ag angen cymorth i brosesu neu rannu gwybodaeth bersonol ddod o hyd i ***arweiniad pellach ar ein gwefan*** neu ***gysylltu â ni am gyngor***.

Rydym hefyd yma i gefnogi'r cyhoedd a sicrhau bod eu hawliau diogelu data yn cael eu parchu. Os oes unrhyw un yn pryderu am sut mae sefydliad yn trin eu data, gallant gwyno wrthym ***yma***.

**David Teague yw pennaeth materion Cymreig Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**



# PONTIO'R GAGENDOR DIGIDOL

Sut gall sefydliadau tai fynd i'r afael â diffyg gallu lleiafrifoedd ethnig i gael mynediad i wasanaethau digidol tai cymdeithasol? Mae Sacha Hasan a Gina Netto yn adrodd ar ganfyddiadau prosiect newydd sy'n cynnig ymyriadau sefydliadol a strategol i bolisi a rheolaeth tai







**Wrth i'r pandemig daro ddiwedd mis Mawrth 2020, aeth yn fwyfwy amlwg pa mor gyflym y byddai Prydain – a hyd yn oed y byd – yn dod i ddibynnu ar dechnoleg ddigidol. Bu landlordiaid cymdeithasol wrthi'n manteisio ar atebion digidol newydd ar ffurf llwyfannau hunan-wasanaeth, sgwrsio byw a bots sgwrsio AI, a systemau cartref 'clyfar' i ddarparu eu gwasanaethau. Ystyrir hyn yn ymateb arloesol i'r galw a'r pwysau cynyddol ar wasanaethau ag adnoddau cyfyngedig.**

Fodd bynnag, er i'r broses o ddigideiddio gwasanaethau tai cymdeithasol gyflymu, ni roddwyd sylw manwl i effaith y prosesau hyn ar gymunedau ethnig lleiafrifol (ME). Mae hyn yn destun pryder oherwydd yr anghydraddoldeb sy'n bodoli o ran mynediad at dai cymdeithasol a chanlyniadau hynny ymhlith y cymunedau hyn, megis cyfraddau uwch o ddigartrefedd a thai gorlawn, a'r tebygolrwydd uwch o fod yn byw mewn ardaloedd amddifad. Mae'n bwysig sicrhau nad yw'r newidiadau yn sgil digideiddio gwasanaethau yn ychwanegu at yr anghydraddoldeb presennol neu yn ei waethygu

Nod y prosiect Diogelu Cymunedau Lleiafrifol Ethnig Ar-lein (PRIME) yw darparu ymyriadau, prosesau a thechnolegau lleihau-niwed arloesol a fydd yn trawsnewid gwasanaethau digidol, yn enwedig ym meysydd rhyng-gysylltiedig iechyd, tai cymdeithasol ac ynni, a chreu gofod ar-lein mwy diogel ar gyfer poblogaeth leiafrifol ethnig y DU. At ddibenion ein hymchwil, defnyddiwyd y term cymunedau ethnig lleiafrifol i ganolbwyntio ar unigolion o dras Affricanaidd, Bangladeshi, Caribïaidd, Chineaidd, Indiaidd a Phacistani, tra'n ymwybodol o fodolaeth grwpiau ethnig lleiafrifol eraill yn y DU a allai wynebu problemau tebyg yn ogystal â bod ag anghenion a dyheadau penodol

Nodwyd tlodi digidol, llythrennedd digidol a diffyg medr yn y Saesneg fel rhwystrau allweddol i gymunedau ME gael mynediad i wasanaethau tai cymdeithasol digidol a'u defnyddio. Archwiliwyd y meysydd hyn drwy sgyrsiau â phobl o gymunedau ME fel defnyddwyr gwasanaethau digidol, yn ogystal â landlordiaid cymdeithasol. Cawsom fod angen mwy o sylw i'r maes hwn yng ngoleuni trasiedïau diweddar Awaab Ishak a Sheila Seleoane, a ddeilliodd o ddiffygion yn rheolaeth y system tai cymdeithasol, gan amlygu problemau gyda chyfathrebu ac ymgysylltu gwael ag unigolion o gymunedau lleiafrifol ethnig. Heb sylw o'r fath, rhagwelwn y byddai digideiddio gwasanaethau tai cymdeithasol yn prysur waethygu'r diffyg ymateb i anghenion tenantiaid ME a'u gadael yn ddiymgeledd o ran mynediad i wasanaethau tai cymdeithasol, eu defnydd ohonynt a chanlyniadau.

## EIN CANFYDDIADAU

Wrth ddadansoddi barn defnyddwyr gwasanaethau tai cymdeithasol digidol o safbwynt llythrennedd digidol a medr yn y Saesneg, cawsom fod lefelau amrywiol o fedr yn y Saesneg yn effeithio ar eu gallu i ddefnyddio gwasanaethau digidol, gyda phobl hŷn o dan anfantais neilltuol. At hynny, mae rhai pobl ME yn brwydro gyda llythrennedd digidol yn enwedig os ydynt dros 65 oed. Mae'n bwysig nodi yma bod llythrennedd digidol yn un o achosion allweddol eithrio digidol sy'n effeithio ar y genedl gyfan fel y nododd adroddiad Pwyllgor Cyfathrebu a Digidol Tŷ'r Arglwyddi yn 2023. Ond o ran cymunedau ME, gall lefelau o fedr amrywiol yn y Saesneg ryngweithio â lefelau amrywiol o lythrennedd digidol i'w gwneud hi'n her neilltuol i rai pobl allu defnyddio gwasanaethau digidol.

Er bod tlodi digidol yn brofiad cyffredon ymhlith poblogaeth y DU, mae cyfraddau tlodi uwch rhai cymunedau ethnig lleiafrifol, fel Bangladeshiaid, Pacistaniaid ac Affricanwyr, yn dangos bod pobl o'r cymunedau hyn yn fwy

tebygol o wynebu anawsterau o ran ymgysylltu â gwasanaethau ar-lein. Gallai hyn fod oherwydd diffyg mynediad at ddyfeisiau digonol (er enghraifft, defnyddio ffonau clyfar yn hytrach na chliniaduron neu gyfrifiaduron desg) a/neu ddiffyg mynediad at ddata band-eang neu symudol. Gall cyfraddau uwch o ddigartrefedd a diffyg llety diogel hefyd ei gwneud yn fwy anodd iddynt ymgysylltu â gwasanaethau digidol.

Gan droi at landlordiaid cymdeithasol, cawsom fod y broses o ddigideiddio gwasanaethau yn cael ei hybu gan duedd i drin tenantiaid fel cwsmeriaid a dogni adnoddau. Fodd bynnag, mae diffyg cymorth ariannol ar gyfer y cyfnod trawsnewidiol yn rhwystr i'r broses. O ganlyniad, mae p'run ai bod darparwyr gwasanaethau yn cynnig llwyfannau cydnaws â dyfeisiau symudol, yn lle gliniaduron neu gyfrifiaduron desg, yn amrywio. Er i rai landlordiaid gymryd camau ychwanegol, fel cynnig bargeinion ar ddyfeisiau a Wi-Fi a sianeli mynediad amgen er mwyn mynd i'r afael â thlodi digidol ymhlith eu tenantiaid, mae cryn amrywiaeth yn ymateb landlordiaid cymdeithasol i'r agwedd ariannol ar ymgysylltu â gwasanaethau digidol.

Ymhellach, cawsom fod lefelau amrywiol o wybodaeth am hyd a lled a phatrwm ymgysylltiad tenantiaid â gwasanaethau digidol. Roedd sefydliadau llai yn tueddu i fod yn fwy ymwybodol o broffil eu tenantiaid a'u hymgysylltiad â gwasanaethau digidol. Fel enghraifft o arfer da, darparai'r sefydliadau hyn wasanaethau yn gweddu i'w tenantiaid, er enghraifft drwy gyflogi staff dwyieithog, darparu sianeli mynediad amgen i wasanaethau digidol, a chynnig hyfforddiant i'w staff ar anghenion cymunedau ME. Bu rhai landlordiaid yn fwy creadigol yn eu cymorth technolegol, er enghraifft, trwy gynnig cyfarpar cyfieithu a darllen wedi'i integreiddio o fewn y porthol tenantiaid. Fodd bynnag, mae arfer yn y maes hwn yn anghyson, sy'n llesteirio'r posibilrwydd o newid trawsnewidiol.

Mae landlordiaid cymdeithasol hefyd wedi nodi nifer o ffactorau sy'n effeithio ar eu harfer ac a allai fod yn her i sicrhau gwasanaethau digidol teg. Un rhwystr allweddol yw diffyg ymwybyddiaeth o broffil anghenion tenantiaid ME. Datblygwyd Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol yr Alban (2021) gan Dr Stewart Montgomery ar ran y Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai yr Alban, Fforwm Cymdeithasau Tai Glasgow a Gorllewin yr Alban a Chymdeithas Prif Swyddogion Tai Awdurdodau Lleol, sy'n cefnogi landlordiaid cymdeithasol i allu gweithredu gofynion cyfreithiol a rheoliadol yn ymwneud â chasglu data ar gydraddoldeb. Fodd bynnag, nid yw casglu data yn gyfystyr â monitro data; dim ond un cam ydyw yn y broses fonitro. Ar lefel y DU, mae papur cefndir gan y Sefydliad Cydraddoldeb Hiliol (2009) yn nodi mai prin yw'r dystiolaeth bod monitro data ethnig yn digwydd mewn modd rheolaidd, systematig a manwl. Mae hyn yn rhwystro datblygiad mentrau pwrpasol i ddarparu ar gyfer anghenion cymunedau ME.



## GALW AM NEWID

Dengys profiadau tenantiaid a landlordiaid yr angen am newid ar lefel sefydliadol mewn rheolaeth tai cymdeithasol, yn ogystal ag ym maes cynllunio a gweithredu strategaeth ddigidol.

Ar lefel sefydliadol, galwn am fwy o fuddsoddi mewn ymchwil ac adnoddau i wella ymgysylltiad cymunedau ME â gwasanaethau digidol yn lleol. At hynny, ac yn ogystal â chasglu a defnyddio data wedi'u gwahanu ar sail ethnig mewn rheoliadau tai, rydym yn pwysleisio'r angen am fonitro ac adolygu'r data hwn mewn modd systematig er mwyn deall faint sy'n defnyddio gwasanaethau digidol, ac effaith hynny ar fynediad i dai cymdeithasol a'i ganlyniadau. Rydym hefyd yn annog buddsoddi mewn llwyfannau sy'n sensitif i dlodi digidol a lefelau amrywiol o lythrennedd digidol, ac sy'n cydnabod rhwystrau gydag iaith/darllen. Mae angen ystyried y mesurau hyn fel rhan o fuddsoddiad parhaus mewn meithrin gallu o fewn y sector i ymgysylltu â phoblogaeth amrywiol ei hethnigrwydd. Yn hollbwysig, ochr yn ochr â'r broses barhaus o wella a monitro'r defnydd o wasanaethau digidol, mae'n hanfodol sicrhau bod cyngor a chymorth tai wyneb-yn-wyneb digonol ar gael i unigolion sy'n cael anhawster ymgysylltu â gwasanaethau digidol i leihau'r perygl o'u heithrio o wasanaethau tai allweddol.

Yn ogystal, pwysleisiwn yr angen am ddatblygu strategaeth ddigidol drosfwaol ac unedig ar gyfer tai cymdeithasol i sicrhau nad yw digideiddio gwasanaethau ar garlam yn dyfnhau gwahaniaethau ethnig ac eraill mewn tai cymdeithasol. Rhaid sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhannau allweddol o strategaeth ddigidol genedlaethol, gan gydnabod amrywiadau mewn llythrennedd digidol, incwm a defnydd iaith i liniaru niwed posibl ynghlwm wrth wasanaethau digidol. Mae gan reoleiddio hefyd ran bwysig i'w chwarae yn y maes hwn fel rhan o ymrwymiad ehangach i ddatblygu polisi ac arfer gwrth-hiliol.

**Mae Dr Sacha Hasan yn athro cynorthwyol Daearyddiaeth Ddynol ym Mhrifysgol Heriot Watt, â diddordeb mewn archwilio hunaniaeth, cynhwysiant a llesiant, a chyflwynodd yr astudiaeth hon yng nghynhadledd flynyddol y Gymdeithas Astudiaethau Tai. Mae Gina Netto yn Athro Ymfudo Rhyngwladol a Chyfiawnder Hiliol ym Mhrifysgol Heriot Watt, a phrif ymchwilydd y prosiect Diogelu Cymunedau Lleiafrifol Ethnig Ar-lein (PRIME) a gyllidir gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol fel rhan o'r Gronfa Blaenoriaethau Strategol. Dysgwch fwy am y prosiect yn *www.primecommunities.online/***



# PŴER GWEITHIO GYDA'N GILYDD

Gareth Leech sy'n ystyried siwrnai ddata Cartrefi Conwy

**Darparu cartrefi a gwasanaethau o ansawdd da i'n tenantiaid yw ein nod bob amser yn Cartrefi Conwy ac i wneud hyn rydym ar siwrnai sydd â data yn greiddiol iddi. Rydym wedi dechrau gweld sut y gall data wneud gwahaniaeth, ond megis dechrau yr ydym.**

Casglu data, trosi hynny'n wybodaeth a deallusrwydd busnes, a llywio'r hyn a wnawn. Mae'r rhain yn bethau y gallwn ni, a'r sector tai yn gyffredinol, i gyd eu gwneud yn well.

## RHOI EIN TENANTIAID YN GYNTAF

Rydym wedi mentro fymryn i fyd data, ac mae eisoes yn ein helpu i ddeall anghenion ein tenantiaid mewn ffyrdd newydd. Mae cymaint mwy gennym i'w gyflawni. Edrychwn ymlaen at ddyfodol lle nad rhywbeth i'w wirio nawr ac yn y man yw data, ond rhan o bob penderfyniad. Rydym am i'n swyddogion tai fod â'r wybodaeth ddiweddaraf ar flaenau eu bysedd, fel y gallant gynnig help cyn i denant wybod bod ei angen. Bydd defnyddio data i dargedu adnoddau ar yr adeg iawn yn y mannau iawn yn caniatáu i'n swyddogion tai ganolbwyntio eu hamser ar achosion mwy cymhleth, gan ddefnyddio'u sgiliau caredig a chreadigol i ganolbwyntio ar yr unigolyn, gan greu cymuned lle mae pawb yn teimlo wedi'u cefnogi ac yn gysylltiedig. I gefnogi hynny, rydym wrthi'n buddsoddi mewn systemau a meddalwedd a fydd yn galluogi cydweithwyr i benderfynu ar sail data fel ail natur.

Craidd yr hyn a wnawn yw'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau teg a chydradd i'n tenantiaid. Rydym yn cydweithio'n glòs gyda Tai Pawb ar gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant er mwyn defnyddio data i ddeall ein tenantiaid yn well a phersonoleiddio gwasanaethau i ateb eu hanghenion unigryw. Drwy ddadansoddi data ar deithi personol a dewisiadau tenantiaid, ceisiwn gydweddu ein gwasanaethau er mwyn cynyddu boddhad ac ymgysylltiad tenantiaid, mewn ffordd gynhwysol.

## GOFALU AM GARTREFI

Mae ein heiddo yn fwy na dim ond adeiladau; dyma gartref i'n tenantiaid. Defnyddir data dangosfwrdd byw i alluogi'n gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw i ymateb yn effeithiol ac effeithlon. Un enghraifft yw nodi gwaith atgyweirio ailadroddus i ymchwilio ymhellach iddo – gallai deall y rhesymau y tu ôl i'r broblem ddangos lle y gallem fod yn fwy effeithlon gyda'n gwaith atgyweirio, blaenoriaeth bwysig o ran peidio â gwastraffu arian tenantiaid. Hefyd, gall fod rhesymau cymdeithasol y tu ôl i atgyweiriadau ailadroddus, yn amrywio o denant unig, i gri am help, i arwydd posib o gam-drin domestig neu destun pryder arall. Caiff y rhain eu cyfeirio at y swyddog tai neu gydweithiwr perthnasol i ymchwilio ymhellach iddynt. Rydym yn dysgu beunydd sut i ddefnyddio data i gadw'n cartrefi a'n tenantiaid yn ddiogel. Mae'r dull rhagweithiol hwn o fynd ati yn golygu y gall ein tenantiaid fwynhau eu cartrefi, gan wybod ein bod yn cadw llygad ar bethau.

## GWELL GYDA'N GILYDD

Credwn ym mhŵer cydweithio – yn yr hinsawdd bresennol o grebachu cyson ar wasanaethau cyhoeddus a llai o gyllid beunydd, bydd partneriaethau'n allweddol. Fel cymdeithas tai gwyddom ein yn elfen hanfodol o fewn system gymhleth sy'n cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid, â'r nod derfynol o gefnogi pobl a chymunedau lleol.

Trwy rannu data gyda'n partneriaid trydydd-sector, cyhoeddus a phreifat gallwn gydlynu ein gwaith yn fwy effeithiol, gan sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau di-fwlch i'n tenantiaid. Er enghraifft, bydd troshaenu gwybodaeth iechyd neu ystadegau cyflogaeth â map o'n cartrefi yn helpu i gyfeirio gwasanaethau cymorth ac ymyriadau i'r mannau iawn.

Mae'n fwy na dim ond rhifau ac ystadegau. Mae'n swyddogion tai, ein crefftwyr a chydweithwyr tenantiaid allan beunydd yn ein hardaloedd lleol, yn cysylltu'n rhagweithiol â phartneriaid, aelodau lleol, a lleisiau yn y gymuned. Mae math gwahanol o wybodaeth yn deillio o hyn, am y gymuned ei hun. Mae'r wybodaeth hon yn ein galluogi i drefnu digwyddiadau cymunedol, cymorth ac ymyriadau yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, yn y ffordd iawn.

## DATA, DATA, DATA…

Rydym wedi cychwyn ar ein siwrnai ddefnyddio ddata, ac yn edrych ymlaen at ble y bydd yn ein harwain. Credwn fod posibiliadau enfawr i ddata wella ein darpariaeth o wasanaethau ymhellach. Rydym yn archwilio warysau data a thechnolegau arloesol, fel deallusrwydd artiffisial a dysgu â pheiriant, i gael mewnwelediad dyfnach i'n data a rhwyddineb wrth ei ddefnyddio.

Gorau po fwyaf y gall y sector gydweithio yn y maes hwn. Rydym wedi ymrwymo i gael ein harwain yn fwy gan ddata a bydd gwneud hynny mewn partneriaeth yn sicrhau bod pob cam ymlaen yn ein helpu i wasanaethu ein tenantiaid ledled Cymru yn well bob dydd.

**Gareth Leech yw rheolwr strategaeth a gwella busnes Cartrefi Conwy**









# CAEL POB PETH YN IAWN BOB TRO

Andrea Gale sy'n myfyrio ar bwysigrwydd data, sut mae wedi newid, sut y gallai newid yn y dyfodol a pham ei fod yn ddigon pwysig i fod â chyfarwyddydd gweithredol



**Mae technoleg a data yn effeithio ar sut rydym yn byw'n bywydau. Mae'n ffôn yn ein hannog wrth i ni ddeffro i ddweud sut mae'r traffig a pha mor hir a gymer i ni gyrraedd pen ein taith, bod gan y warws lleol stoc yn barod i gyflenwi'r hyn a ŵyr, cyn y gwyddom ni, ein bod yn mynd i'w brynu ar fympwy, a gallwn gael penderfyniad ar y pethau mwy fel benthyciad â dim ond clic neu ddau. Gyrrir hyn oll gan ddealltwriaeth o'r hyn sydd o bwys, a wireddir gan ddata ac a gyflenwir trwy dechnoleg wych.**

Felly sut mae pŵer data yn cyfieithu i'r maes tai? Mae'r cyfleoedd yn hysbys, gyda meysydd fel seiberddiogelwch wedi eu datblygu'n dda, yn defnyddio patrymau data a deallusrwydd artiffisial (AI) i ganfod ac atal bygythiadau. Mae technoleg gynorthwyol a Rhyngrwyd y Pethau yn ein helpu i gefnogi pobl i fanteisio i'r eithaf ar eu hannibyniaeth. Mae technoleg fodern yn ein galluogi i gydgysylltu data ar draws sefydliadau i gynnig gwasanaethau llyfnach i gwsmeriaid mewn meysydd fel talu rhent neu atgyweiriadau hunan-wasanaeth. Does dim dwywaith nad yw'r sector ar ei ffordd tuag at gael ei lywio gan ddata, ond bydd heriau i'w goresgyn cyn i hyn fynd yn ail natur ym mhopeth a wnawn.

Yn dilyn y cyfuno diweddar rhwng Linc a Pobl, cydnabu'r grŵp newydd, ehangach mor bwysig yw'r maes hwn, gyda chyfarwyddydd gweithredol ar gyfer technoleg, data a newid yn rhan o'r tîm gweithredol newydd. O ran mynd â ni at sefyllfa lle mae data'n gynhenid ym mhob maes o'n busnes, mae ein ffocws ar y meysydd canlynol:

**Deall beth sy'n bwysig:** I sicrhau'r gwerth mwyaf rhaid i'r pwyntiau data iawn fod yn eu lle i fesur y peth iawn. Mae deall beth sy'n bwysig, pa ganlyniadau rydym yn eu ceisio, a pha brofiadau rydym am eu creu i gwsmeriaid yn ganolog i hyn. Byddwn â'n ffocws ar ddyluniad sy'n ymateb i ddefnyddwyr er mwyn deall beth sy'n bwysig i'n cwsmeriaid a sicrhau bod gennym y pwyntiau data iawn i'w ddarparu, ac i wybod pa mor dda rydym yn gwneud hyn.

**Y systemau a'r bensaernïaeth iawn:** bu'r rhan fwyaf o sefydliadau tai trwy broses o ddisodli hen systemau gan wneud defnyddio data yn llawer haws na chynt. Gall ein dangosfyrddau ysgogi camau gweithredu trwy ddefnyddio data a galluogi cydweithwyr i ganolbwyntio ar wneud gwahaniaeth. Un her gyffredin yw defnydd di-dor o ddata sy'n eistedd mewn gwahanol systemau. Mae data eiddo, sy'n aml mewn mwy nag un system, yn enghraifft gyffredin. Mae model data eglur ei ddiffiniad â'r bensaernïaeth iawn i sicrhau un fersiwn o'r gwirionedd a system feistr glir ar gyfer pob darn o ddata yn allweddol i symleiddio defnydd o'r data sydd gennym.

**Ansawdd y data a diwylliant:** wrth i ni ddibynnu fwyfwy ar ddata i awtomeiddio'n gwasanaethau a llywio'n penderfyniadau, rhaid iddo fod yn iawn. Mae ansawdd y data yn hollbwysig ac yn dibynnu ar ddiwylliant y sefydliad cyfan. Wrth ddefnyddio data i'n helpu â nifer cynyddol o dasgau, dylem ganolbwyntio ar greu diwylliant wedi ei yrru gan ddata. Yn aml, rhaid gweithio'n galed ar ansawdd y data cyn i gydweithwyr weld budd diweddaru cyson. Data systemedig fydd y system ddiofyn, gyda data sydd hb fod ar y system yn cael ei ddileu. Mae ffocws ar ddiwylliant y sefydliad ynghyd â systemau a phrosesau sy'n hwyluso hyn i gydweithwyr a chwsmeriaid ill dau yn allweddol i allu manteisio i'r eithaf ar botensial data wrth symud ymlaen.

**Moeseg data ac ymddiriedaeth:** Gall swm a mathau'r data sydd gan y sector tai, ynghyd â'r gallu a gawsom gan dechnolegau newydd, roi mewnwelediad anhygoel i ni sy'n ein galluogi i gynyddu effeithlonrwydd a ffocws a gwella gwasanaethau. Mae meysydd fel synwyryddion eiddo, er enghraifft, yn rhoi mewnwelediad unigryw i ni sy'n ein helpu i ddarparu gwres fforddiadwy yn well a bod yn rhagweithiol gyda lleithder a llwydni, er budd amlwg i'r cwsmer a'r sefydliad. Rhaid defnyddio'r data yn gyfrifol i sicrhau ein bod yn cadw ymddiriedaeth ein cwsmeriaid ac yn gweithredu'n foesegol. Wrth i'n cronfa ddata dyfu, dylem sicrhau ein bod yn glir ynghylch moeseg data, a bod hynny'n rhan o'n hasesiadau sylfaenol wrth fentro i feysydd newydd.

Bydd ffocws ar y pethau hyn yn ein helpu i sicrhau mynediad cwsmeriaid at y gwasanaethau gorau gan ddefnyddio technoleg, data a mewnwelediad i gael pob peth yn iawn bob tro. Gwyddom bod, ac y bydd, AI yn trawsnewid ein galluoedd. Mae bod â'r data iawn yn y fformat iawn yn allweddol i hyn.

Mewn diwydiant â'r pwysau cystadleuol o ddarparu mwy tra'n cadw rhenti'n fforddiadwy, gall data helpu i ddatrys peth o hyn. O wneud hyn yn iawn, mae cost gwasanaethu yn lleihau, mae ansawdd ein gwasanaeth yn cynyddu ac rydym yn penderfynu'n fwy effeithiol. Mae gennym bopeth i'w ennill.

**Andrea Gale yw cyfarwyddydd gweithredol technoleg, data a rhaglenni Grŵp Pobl**



# SYMUD Y TU HWNT I GAM UN

Dylai dadansoddi data cydraddoldeb fod yn rhan allweddol o sicrwydd a gwella gwasanaethau mewn sefydliadau tai, medd Alicja Zalesinska

**Y flwyddyn nesaf, bydd yn 20 mlynedd ers sefydlu Tai Pawb, yn 12 er i mi ymuno â'r sefydliad gwych yma a 18 ers i mi ddechrau gweithio ym maes cydraddoldeb. Wrth ystyried cydraddoldeb tai, dwi'n meddwl am yr enillion, y colledion a'r problemau drwg mae'n rhaid ymdrin â nhw. Mae data cydraddoldeb yn un ohonynt.**

Yn sicr, mae gan y sector tai werthoedd cydraddoldeb cryf a chydnabyddir bod data'n bwysig i'r hyn rydym yn ei wneud. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn deall ei bwysigrwydd o ran datblygu gwasanaethau teg, penderfyniadau teg, ateb anghenion amrywiol ac ati, ond dydyn ni ddim fel pe baem yn gallu ei sicrhau.

Ar adegau, cawn ein hunain yn tin-droi yn y niwl: ni allwn ddefnyddio'n data cydraddoldeb am nad oes gennym ddigon ohono, ond yn y flwyddyn neu ddwy nesaf byddwn yn ei gasglu, ac ar ôl hynny byddwn yn yn gallu gwneud dadansoddiad cydraddoldeb y byddwn wedyn yn ei gynnwys yn ein ffyrdd o weithio ac, ynghyd ag ymgysylltu gwych, byddwn yn sefydliad llawer gwell, mwy amrywiol a thecach.

Weithiau bydd sefydliadau yn gwneud gwaith gwych ar gam un – casglu – ond yn aros yn eu hunfan yno, am amryw resymau. Weithiau byddant yn cyrraedd cam dau – dadansoddi. Gall fod y dadansoddiad yn datgelu profiadau gwahanol iawn o dai ymhlith rhai grwpiau, a bydd yn effeithio'n wirionedd ar newid yn y gwasanaeth. Dyna pryd rydyn ni yn Tai Pawb yn gyffro i gyd ac yn sicr mae enghreifftiau gwych wedi bod! Ond, gan amlaf, dyma lle mae pethau'n dod i ben. Wedi blwyddyn neu ddwy mae'r data wedi dyddio, daw blaenoriaethau eraill, mae staff a galluoedd yn newid, ac rydym yn ôl i sgwâr un.

Mae'n dal yn beth cymharol brin i sefydliadau fod wedi ymgorffori'r defnydd o ddata cydraddoldeb yn eu prosesau a thros y blynyddoedd, cawsom rywfaint o syniad pam oedd hynny. Wrth gwrs, mae'n haws dweud na gwneud ac dydyn ni ddim yma i gyhuddo ac esgus bod yr uchod yn hawdd, dim ond i gynnig rhywfaint o fewnwelediad yn deillio o'n gwaith.

> ***Gall y dadansoddiad ddatgelu profiadau gwahanol iawn o dai ymhlith rhai grwpiau, a bydd ag effaith gwirioneddol ar newid yn y gwasanaeth***



## ARWAIN A GORUCHWYLIO YN STRATEGOL

Mae casglu ac, yn bwysicach, defnyddio data cydraddoldeb yn gofyn am ymrwymiad o'r brig. Mae hwyluso, deall pwysigrwydd, defnyddio, a monitro ar y lefel uchaf yn hollbwysig. Mae data cydraddoldeb da yn rhan sylfaenol o sicrwydd bwrdd ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd diffyg ymrwymiad a goruchwyliaeth strategol yn tanseilio pwysigrwydd defnyddio data cydraddoldeb ac yn arwain at ollwng prosiectau datblygu data ar ôl y casglu neu'r dadansoddi brwdfrydig cychwynnol. O ganlyniad, tanseilir dibynadwyedd, ystyr a defnydd data cydraddoldeb, a'i adael yn dibynnu'n bennaf ar ymrwymiad neu ewyllys da staff. Wrth i staff, systemau a blaenoriaethau newid, mae'r defnydd o ddata cydraddoldeb yn diflannu.

Ers 18 mis, buom yn rhedeg cynllun peilot QED Leaders gyda chymorth caredig Cartrefi Melin. QED Leaders yw lefel nesaf ein hachrediad EDI arobryn, ac



mae ffocws strategol a defnydd o ddata a thystiolaeth cydraddoldeb yn elfen allweddol o'r safon rydym yn ei datblygu.

Yn y broses, datblygodd Melin Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAion) ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a oruchwylir gan yr uwch dîm rheoli a'r bwrdd. Mae ei DPAion yn cynnwys: canran y data cydraddoldeb a gasglwyd ar gyfer tenantiaid a staff (un sylfaenol a pharhaus); cwblhau asesiadau effaith cydraddoldeb (i gadw effaith cydraddoldeb ar yr agenda); a'r bwlch cyflog ar sail rhyw. Yn 2024/25 bydd ffocws Melin ar ddatblygu DPAion cydraddoldeb gydag atgyweirio a chwynion.

Dwi'n tybio fod pob tim rheoli a bwrdd yn goruchwylio un neu ddau DPA sy'n dweud wrthynt cystal y mae'r sefydliad am atgyweirio – boed yn nifer o geisiadiadau ar gyfartaledd, amseroedd cwblhau, neu foddhad – ond sut beth yw'r ffigurau ar gyfer gwahanol grwpiau? A yw pawb yn gallu gwneud cais yr un mor mor hawdd? A oes grwpiau sy'n llai bodlon nag eraill? Sut beth yw cyflwr stoc gwahanol grwpiau? (Dangosai'n harolwg yn 2023 mai tua 50 y cant o landlordiaid cymdeithasol oedd â'r gallu i ddadansoddi data cyflwr stoc fesul nodweddion aelwyd; datgelodd hyn, er enghraifft, bod tenantiaid o leiafrifoedd ethnig yn byw mewn amodau gwaeth, am wahanol resymau).

Ni ddylai dadansoddi o'r fath gael ei weld fel sgil-brosiect mwyach ond fel rhan greiddiol o sicrwydd a gwella gwasanaethau. Tybed a allai'r math hwn o ddata, wedi'i gyflwyno'n glir a phroblemau wedi 'u nodi, fod wedi datgelu rhywbeth i'r gymdeithas oedd yn gyfrifol am gartref Awaab Ishak? Gellir dadlau y gallai problemau ynghlwm wrth stereoteipio grwpiau penodol o denantiaid fod wedi eu hamlygu mewn lefelau gwahanol o foddhad rhwng gwahanol grwpiau, neu nifer y cwynion. Nid ystadegau yw popeth ac mae sgyrsiau gyda thenantiaid amrywiol yr un mor bwysig.

Yn anochel, does dim lle ar ôl gennyf i fynd ar drywydd heriau eraill a sut i'w goresgyn ond dyma grynodeb byr o bethau eraill i'w hystyried:

- **Ymwybyddiaeth:** dim ond y dechrau yw casglu data cydraddoldeb a dim ond trwy ddefnydd clyfar o'r fath ddata y daw ei gwir werth i'r amlwg. Yn anffodus, gwelwn yn aml gyfran fawr o staff a thenantiaid sydd heb wybod pam y cesglir data cydraddoldeb a sut y caiff ei ddefnyddio (oherwydd nad yw'n cael ei ddefnyddio weithiau). Mae hyn yn arwain at gyfraddau uchel o ddiffyg ymateb. Y newyddion da yw po fwyaf y codir ymwybyddiaeth ynglyn â hyn, y mwyaf tebygol y bydd pobl i ymddiried ynoch chi a rhannu eu data (rhaid gwneud rhywbeth ag ef wrth gwrs). Edrychwch ar sleid 10 sy'n dangos y gall ***ymwybyddiaeth gynyddu dychweliadau data yn ddeublyg – mae hyn hefyd yn magu ymddiriedaeth***.
- **Preifatrwydd:** Gall GDPR weithiau fod yn faen tramgwydd i gasglu data cydraddoldeb, ond ni ddylai fod. Edrychwch ar y canllaw cyflym hwn gan ***Tai Pawb i GDPR a data cydraddoldeb***.
- **Cymariaethau:** Mae angen gallu cymharu rhywfaint o ddata ar amrywiaeth gyda â data poblogaeth ehangach. Ewch i'n ***tudalennau Cyfrifiad 2021*** lle ceir data amrywiaeth poblogaeth parod, yn cynnwys mapiau. Am ba gategorïau i'w defnyddio – cyfeiriwch at ***ffurflenni monitro a chanllawiau Tai Pawb***.

**Alicja Zalesinska yw prif weithredydd Tai Pawb**



# TARGEDAU AR EIN CEFNAU – NEU O'N BLAENAU?

Beth ddylai gweinidogion a chynghorwyr polisi ei gadw mewn cof wrth osod targedau? Mae gan Dewi Knight awgrym neu ddau



**Dydy llywodraeth yn *'gollwng'* neu'n methu targed prin yn ddyn yn brathu ci neu fel dal Elvis a Lord Lucan gyda'i gilydd ar gefn Shergar.**

Mewn perthynas â thargedau tai i Gymru, cydnabu'r ysgrifennydd tai Julie James yn TAI fis Ebrill fod Llywodraeth Cymru yn 'dal gafael ar y targed o 20,000 [o gartrefi rhent cymdeithasol carbon-isel y tymor Senedd hwn] â chroen ein dannedd'.

Mae cyhoeddiadau fel y rhain a'r datganiad gan lywodraeth yr Alban ***na fyddai'n cyrraedd ei tharged blaenllaw o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr*** o 75 y cant erbyn 2030 yn rhoi cyfle i'r rhai ohonom sy'n gweithio ym maes polisi fyfyrio ar natur a diben targedau.

Ai gwell bod wedi ceisio a methu yn hytrach na pheidio â gosod nod? Beth yw rôl gweision sifil ac ymchwilwyr o ran herio a chefnogi? A sut y gall data cymharol a thargedau wella'r hyn a ddysgir gan bolisi traws-genedl?

## GWELLA PERFFORMIAD LLYWODRAETH A SECTOR CYHOEDDUS

I lawer ohonom sy'n gweithio ym maes polisi, yn enwedig yn y DU, wrth feddwl am dargedau a chyflawni medyliwn am ***Syr Michael Barber***. Enillodd ei ddull ef o fynd ati, fel pennaeth Uned Gyflawni Tony Blair yr enw ***'Deliverology'***. Yn y bon, ceisiodd wella perfformiad y llywodraeth a'r sector cyhoeddus drwy osod targedau, a pholisïau a phwysau cysylltiedig, o ganol y llywodraeth.

Nododd Syr Michael naw mater allweddol i wneuthurwyr polisi allu cyrraedd targed, yn cynnwys atebolrwydd ac arweinyddiaeth, liferi newid, meincnodi, adnoddau ac adborth. Buasai cyn-brif weinidog Cymru, Vaughan Gething, yn ystyried sefydlu ei ***Uned Gyflawni*** ei hun, hwyrach gan gydnabod bod angen i ganol Llywodraeth Cymru fod â gafael mwy cadarn ar y 'liferi newid' hynny.

Fel cyn-gynghorydd i Lywodraeth Cymru, mae gennyf beth profiad o orfod cefnogi gweinidog i ateb i'r Senedd a'r cyfryngau am ***darged rhifiadol a etifeddodd*** ar gyfer sgorau Cymru yn y profion addysg rhyngwladol PISA.

Ar gyfer y profion a fyddai'n digwydd o dan arweiniad fy ngweinidog fe wnaethom osod targed o ***wella*** ym mhob maes PISA ac is-set o fesurau. Pan benderfynwyd ail-fframio'r targed fel 'nod hirdymor', cawsom ein cyhuddo o'i 'ollwng' ac o ddiffyg uchelgais.

Fodd bynnag, roeddem yn teimlo bod nod uniongyrchol o wella ym mhob maes, peth na wnaethai Cymru erioed, yn darged llawer mwy realistig, un â ffocws ond a oedd yn dal i ymestyn. Rhagwelem y câi gefnogaeth ysgolion a'r system.

Yn y diwedd, cyflawnwyd y nod o ***wella ym mhob maes***, am y tro cyntaf erioed, gan gyplysu cynnydd, y gefnogaeth a'n hamcanion â'r rhaglen diwygio addysg ehangach.

Felly, ai'r ateb yw anelu ychydig yn is? Nid dyna'r brif wers yn fy marn i. Dylem ddewis diwygio a gwneud gwahaniaeth nid am fod hynny'n hawdd, ond am yr union reswm ei fod yn ***anodd***, fel y dywedodd yr Arlywydd Kennedy wrth gyfeirio golygon America tuag at





*Yr ysgrifennydd tai Julie James yn cyfaddef bod Llywodraeth Cymru yn dal gafael ar y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol 'â chroen ein dannedd'*

lanio ar y lleuad. Nid yw pob targed polisi'n saethu am y lleuad, wrth gwrs, ond fel y dywedodd ***Tim Harford yn ddiweddar***, dylai llunwyr polisi gofio bod pobl eisiau 'herio'u hunain, i gael ymdeimlad o ystyr'.

Gall targedau helpu i greu momentwm a disgwyliadau. Bu tuedd i osod ***targedau hirdymor ar gyfer cenhedlaeth***, yn ogystal â thargedau ***cyllidol ac economaidd*** mwy byrdymor. Gall y targedau hyn fod wedi'u hymgorffori yn y gyfraith, neu'n gytundebau rhwng llywodraethau ac asiantaethau.

## GOSOD TARGEDI A GLYNU WRTHYNT

Mae pob llywodraeth wedi ceisio mynd i'r afael â thlodi plant, er enghraifft, ond bu gosod targedau a glynu wrthynt yn fwy anodd. Deddfodd Llywodraeth (Lafur) y DU i ***"ddileu"*** tlodi plant, ond fel rhan o ddiwygiadau ehangach, ***diddymodd*** y Llywodraeth a'i dilynodd yr ymrwymiad hwn i bob pwrpas.

Gosododd Llywodraeth yr Alban ***darged*** lleihau tlodi plant ar gyfer 2030, ond ***beirniadwyd*** Llywodraeth Cymru yn ddiweddar am strategaeth lleihau tlodi plant newydd sy'n osgoi targedau penodol. ***Nid oes*** gan strategaeth Gogledd Iwerddon ychwaith darged cyfreithiol sy'n rhwymo.

Ar y mater hwn, fel gydag eraill, gall fod tensiwn rhwng mesurau cymharol a thargedau absoliwt. O fewn y DU ddatganoledig, mae'r gallu i feincnodi perfformiad a thargedau, yn ogystal â rhannu'r hyn a ddysgwyd, yn gofyn am ***'gydlyniad a chymaroldeb'*** o ran data. Dylid croesawu gwaith diweddar prif ystadegwyr, y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac eraill i wella hyn.

Er ei fod weithiau'n tanlinellu problemau gyda ***rhestrau aros*** neu amseroedd ymateb ambiwlansys a ddylai fod yn destun pryder ar draws llywodraethau, mae'n rhoi gwell dealltwriaeth a gwybodaeth i lunwyr polisi (a dinasyddion) am debygrwydd a gwahaniaethau traws-genedl.

Ac mae hynny'n ein galluogi i weithio gyda'n gilydd, i rannu arfer gorau a heriau, ac i ddatblygu syniadau a gwybodaeth gymharol a chydweithredol ar sut i ganfod gwell atebion ar gyfer dinasyddion a gwasanaethau pob gwlad.

## GWEITHIO TUAG AT TARGEDAU

Felly, wrth weithio tuag at dargedau, cynghori gweinidogion, neu geisio dylanwadu ar bolisi, dwi'n awgrymu y dylem gadw'r canlynol mewn cof:

- **Peidiwch ag anwybyddu'r data.** Mae ei angen er mwyn cynllunio a chytuno ar y targed a dylai eich galluogi i fonitro canlyniadau a chynnydd yn effeithiol. Edrychwch ar waith ***Martin O'Malley*** yn Maryland gyda rheoli perfformiad wedi'i yrru gan ddata. Am gyfnod, dylanwadodd hyn ar ffordd yr UD gyfan o fynd ati – ***HUDStat*** – i olrhain digartrefedd ymhlith cyn-filwyr a mesur effaith ymyriadau polisi i ymdrin â'r broblem.
- **Rhaid i'r targed gysylltu â'r egwyddorion y tu ôl i'r diwygiad neu amcan polisi, a mynegi'r egwyddorion hynny.** Os mai egwyddor eich polisi yw ehangu mynediad i addysg uwch, rhaid i'r targed ddangos cynnydd yn nifer y myfyrwyr ond rhaid iddo hefyd arddangos yr ehangwyd mynediad i grwpiau gwahanol a newydd o bobl.
- **Dylai bod cyd-ddealltwriaeth – yn y llywodraeth, gan ddarparwyr y gwasanaeth a gan ei ddefnyddwyr – o beth yw'r targed a'i ystyr.** Mae hyn yn cynnwys pa ganlyniadau y bwriedir eu sicrhau, yn ogystal â chynnwys ac ystyr y data. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau atebolrwydd ac olrhain cynnydd.

Dylem barhau i drafod swyddogaeth, a llwyddiant, targedau polisi ar draws llywodraethau. Gallant gynnig eglurder a phwrpas ond dim ond os cânt eu gweithredu fel rhan o greu polisi, meddwl a deall trylwyr.

**Dewi Knight yw cyfarwyddydd PolicyWISE**



# Targed symudol

**Nid yw'r targed o 20,000 o dai fforddiadwy yn ddigon bellach i ddiwallu'r angen, medd Cerys Clark**

**Ers tri mis bellach bu Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd wrthi'n cynnal ymchwiliad i'r cyflenwad tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ymchwiliad yn un eang ei gwmpas, o faint a wnaed i gyrraedd y targed o 20,000 o gartrefi fforddiadwy carbon-isel newydd i'r rhwystrau i ddatblygu yng Nghymru a'r mesurau i'w hwyluso.**

Ac eto un cwestiwn nas ystyriwyd yw ai'r targed o 20,000 o gartrefi fforddiadwy carbon-isel newydd yw'r un iawn y dylem fod yn gweithio tuag ato. Mae CIH Cymru wedi codi'r union gwestiwn hwn yn ei gyflwyniad i'r ymchwiliad, gan ofyn a yw digwyddiadau economaidd-gymdeithasol diweddar yn golygu bod y galw am dai bellach yn llawer mwy na phan bennwyd y ffigur o 20,000.

Pan osodwyd y targed, gwnaed hynny ar sail angen am dai yn 2019. Amcangyfrifir y ffigur hwn ar sail data ar ddigartrefedd, niferoedd mewn llety dros-dro, y nifer ar restrau aros am dai cymdeithasol, ac aelwydydd newydd eu ffurfio. Rhennir y nifer hwn rhwng y rhai sydd ag angen cartref fforddiadwy, sy'n cynnwys tai cymdeithasol, perchentyaeth cost-isel a rhent canolraddol, a'r rheini sy'n gallu prynu ar y farchnad. Amcanyfrifid yn 2019 y dylem fod yn adeiladu rhwng 3,049 a 3,878 o gartrefi fforddiadwy newydd y flwyddyn. Felly, byddai'r targed o 20,000 dros bum mlynedd wedi bod yn uwch na hyn.

## LEFELAU UWCH O DDIGARTREFEDD

Fodd bynnag, mae lefelau digartrefedd bellach yn sylweddol uwch, gyda'r data diweddaraf yn dangos cynnydd o 7 y cant yn nifer y teuluoedd a aeth yn ddigartref rhwng 2021/22 a 2022/23 ynghyd â chynnydd o 23 y cant yn nifer y teuluoedd mewn llety dros-dro. Mae rhentu hefyd yn mynd yn fwyfwy anfforddiadwy yn y sector rhentu preifat a phrisiau'n mynd yn fwyfwy anfforddiadwy yn y farchnad tai.

Yn ôl Zoopla, cynyddodd cost rhentu eiddo preifat sydd newydd ddod ar gael o 9.4 y cant yn y 12 mis cyn mis Ionawr 2024. Mae rhentu cartref sydd newydd ddod ar gael yng Nghymru bellach yn £881 y mis ar gyfartaledd. Effeithir ar hyn gan ddiffyg cyflenwad yn y farchnad rhentu preifat. Mae llif y cyflenwad newydd 6 y cant yn is yn gyfredol a'r galw 32 y cant yn uwch. Mae gostyngiad yn y cyflenwad yn peri cynnydd mewn prisiau.

Mae morgeisi hefyd yn mynd yn fwyfwy anfforddiadwy i brynwyr tro-cyntaf gan gynyddu'r galw am lety rhent preifat ymhellach, sy'n debygol o barhau i arwain at gostau rhentu uwch.

## PROBLEMAU CYFLENWAD

Wrth i'r cyflenwad o dai fforddiadwy leihau, cynyddu mae'r galw am gartrefi cymdeithasol gyda'r data diweddaraf yn dangos bod 139,000 o bobl yn aros am gartref cymdeithasol yng Nghymru. Drwy ddarparu'r 20,000 o gartrefi carbon-isel newydd, gallwn leihau hyn o ryw 14 y cant ond nid yw'n datrys y problemau cyflenwad, a felly mae angen ailamcangyfrif cyfanswm y cartrefi cymdeithasol carbon-isel newydd.

Eto i gyd, tra'n canolbwyntio ar y niferoedd sydd eu hangen i sicrhau ein bod yn adeiladu digon o gartrefi, ni allwn anwybyddu effaith wirioneddol y diffyg cyflenwad ar unigolion ledled y system dai. Nid dim ond effaith y lefelau cynyddol o ddigartrefedd, ond hefyd y diffyg symudiad o lety dros-dro amhriodol, fel llety gwely a brecwast, i lety â chymorth, i allu sicrhau cartref parhaol wedyn. Nod rhaglen ailgartrefu cyflym Llywodraeth Cymru yw sicrhau y gall rhywun gael mynediad i gartref sefydlog mewn cyfnod mor fyr â phosib fel rhan o'r broses o wneud digartrefedd yng Nghymru yn brofiad prin, byr, nas ailadroddir. Ac eto mae'r gwerthusiad diweddar o ailgartrefu cyflym yn amlinellu gwir ganlyniadau y diffyg cyflenwad ar y rhaglen.

I lawer o awdurdodau lleol mae yna dagfeydd yn y system bellach gan fod y diffyg cyflenwad yn golygu na all pobl symud ymlaen o lety â chymorth i mewn i gartref parhaol. Un canlyniad yw bod y defnydd o wely a brecwast a gwestai yn cynyddu'n esbonyddol oherwydd diffyg llif drwy'r system.

## LWFANS TAI LLEOL

Canlyniad arall, yn achos llety â chymorth ar gyfer pobl ifanc, yw bod yn rhaid i'r person ifanc yn aml iawn symud yn ôl i lety digartrefedd mewn argyfwng ar ôl mynd yn rhy hen i gael y cymorth ond heb allu cael llety parhaol. Er y gall y bobl ifanc hyn dderbyn cyfradd Lwfans Tai Lleol a rennir er mwyn gallu rhentu'n breifat, yn aml nid yw hyn yn ddigon i dalu'r rhent. Ystyriaeth ychwanegol hefyd yw priodoldeb symud i stafell mewn tŷ a rennir ar ôl bod mewn llety hunan-gynhwysol â chymorth yn flaenorol. Mae unigolion bellach yn treulio mwy o amser nag sydd arnynt ei angen mewn llety â chymorth wrth ddisgwyl am gartref cymdeithasol, a gallant ddigalonni. Ateb cyffredin yn y gwerthusiad diweddar o ailgartrefu cyflym yng Nghymru oedd cynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy.

Rhaid i ni sicrhau ein bod yn adeiladu'r nifer iawn o gartrefi fforddiadwy fel rhan o ddull system-gyfan o fynd ati i ddiwallu'r angen am dai yng Nghymru, er mwyn i bawb gael mynediad i gartref sy'n ddiogel, yn addas ac yn fforddiadwy mewn deiliadaeth o'u dewis yn y lle iawn iddyn nhw fel teulu. Dim ond drwy gynyddu'r cyflenwad o gartrefi y gallwn sicrhau bod y modd yr awn ati i i ddarparu cartrefi yng Nghymru yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

**Cerys Clark yw rheolydd polisi a materion cyhoeddus CIH Cymru**



# Beth os? Grym y bwrdd chwilfrydig

Mewn byd mwy cymhleth a llawn risg, mae'n hanfodol bod aelodau bwrdd yn holi'r cwestiynau iawn, meddai Sophie Wint

**Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o gymdeithasau tai wedi troi at fyrddau'n seiliedig ar sgiliau: unigolion cyflogedig a recriwtiwyd am eu harbenigedd mewn pynciau sy'n amrywio o'r trysorlys i gynaliadwyedd. Ymateb yw hyn i raddau helaeth i'r ffaith bod yr heriau sy'n wynebu cymdeithasau a'u byrddau yn cynyddu o ran cymhlethdod a risg. Crybwyllir trasiedi Grenfell yn aml fel enghraifft o fethiant sefydliadol. Yn fwy diweddar, dengys sgandal Swyddfa'r Post, hyd yn oed pan fo problemau'n ymddangos yn amlwg, na ofynnir y cwestiynau iawn i'w datgelu. Bydd yr erthygl hon yn archwilio meysydd y dylai aelodau bwrdd eu hystyried cyn cymryd yn ganiataol 'na allai hyn ddigwydd i ni'.**

## GOFYN Y CWESTIWN 'IAWN'

Bydd cyfran sylweddol o gyfarfodydd bwrdd yn aml yn cynnwys adroddiadau perfformiad – data ariannol ac an-ariannol, wedi'u cyflwyno ar ffurf graffiau, olwynion, siartiau, mapiau gwres.... Er y gall fod yn gysur cael tudalen o DPAau 'gwyrdd', mae'n hanfodol camu yn ôl ac ystyried a ydynt yn ateb y cwestiwn a ofynnir. A yw'r metrigau a nodwyd yn gwbl berthnasol i'r amcan rydych yn ceisio'i gyflawni neu'r risg rydych yn ceisio'i reoli? A yw'r targedau a'r ysgogiadau'n ddigon heriol neu'n gadael digon o le i dyfu? A yw popeth yn edrych ychydig yn rhy dda i fod yn wir?

## TAWELU MEDDWL NEU RODDI SICRWYDD

Gall fod yn demtasiwn i swyddogion dawelu meddwl y bwrdd parthed risgiau neu broblemau posibl. Er bod y bwriad yn dda, ni ddylai aelodau bwrdd gamgymryd hyn am sicrwydd ar sail tystiolaeth. Bydd herio unrhyw ddatganiad a gyflwynir fel ffaith yn sicrhau y deëllir ei ffynhonnell; yn aml bydd 'sut wyddoch chi hynny?' syml yn ddigon i ddatgelu unrhyw fylchau.

## TARO'R CYWAIR IAWN

Cwmni Shell a ddatblygodd y cysyniad o 'anesmwythder cronig' mewn perthynas â diogelwch, ac mae llawer o'r nodweddion (gwyliadwriaeth, osgoi hunanfoddhad) yr un mor berthnasol i lywodraethiant cymdeithasau tai. Bydd diwylliant bwrdd aeddfed lle mae herio yn rhan dderbyniol o'r cyfarfod yn hytrach na rhywbeth i'w ofni a'i osgoi yn sicrhau bod cwestiynau'n cael eu gofyn a'u hateb yn briodol. Mae tryloywder yn allweddol; dylai swyddogion deimlo'n gysurus yn dod â 'newyddion drwg' i'r bwrdd fel y gellir delio â hynny yn gyflym a dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol

## MATER BRYS GO IAWN?

Yn aml, gelwir ar fyrddau i wneud penderfyniadau pwysig, ac fel arfer mae rhywfaint o bwysau amser yn gysylltiedig â'r rhain. Lle gelwir rhywbeth yn fater 'brys' ag angen penderfynu arno ar unwaith, cymerwch ennyd i ddeall y rheswm am hynny - a yw'n seiliedig ar ddisgwyliad mewnol y gellid ymdrin ag ef yn wahanol? Gall penderfynu ar frys arwain at ddiffyg her a thrafodaeth annigonol gan y bwrdd, ac yn aml bydd canlyniadau hyn yn drech nag unrhyw fanteision sy'n deillio o weithredu'n gyflym.

## CHWILFRYDEDD Y BWRDD A CHADW PETHAU'N SYML

Mewn adolygiad gan y Sefydliad Llywodraethiant Corfforaethol o sgandal Swyddfa'r Post, adroddwyd fod y data a gyflwynwyd i'r bwrdd yn awgrymu bod 13 y cant o'r is-bostfeistri a gyflogwyd yn llwgr. Gellid dadlau y byddai'r ffigur syfrdanol hwn, ynghyd â'r sylw cyson i'r mater yn y wasg ers ei ddatgelu gyntaf, yn ddigon i warantu rhagor o gwestiynau gan y bwrdd. Mae cymhlethdod y strwythurau llywodraethiant ac adrodd yn un ffactor a ddefnyddir i egluro pam na chafwyd y fath her, gan bwysleisio'r angen am gadw'r wybodaeth a gyflwynir i'r bwrdd mor syml â phosib.

## BYLCHAU SGILIAU A SICRHAU BWRDD CYTBWYS

Mae llawer o gymdeithasau bellach yn gwneud archwiliadau sgiliau rheolaidd i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd iawn o amgylch y bwrdd. Mae'r heriau a'r risgiau sy'n wynebu cymdeithasau yn esblygu beunydd; yn aml bydd angen gwybodaeth arbenigol, er enghraifft, mewn seiber-ddiogelwch. Gellir dadlau bod bwrdd amrywiol yr un mor bwysig ag un medrus; daw bwrdd yn cynnwys aelodau o gefndiroedd amrywiol â phrofiadau bywyd gwahanol i drafodaethau a phenderfyniadau.

## GWYLIO'R GORWEL

Gall fod yn demtasiwn canolbwyntio'n ddwys ar y meysydd risg mawr presennol. Daeth nifer o broblemau i'r amlwg yn y sector yn y blynyddoedd diwethaf, o leithder a llwydni i goncrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC), ac, wrth reswm, bydd y problemau hyn yn cymryd llawer o amser a ffocws bwrdd wrth sicrhau ymateb priodol iddynt. Ond mae'n bwysig sicrhau nad yw'r ffocws hwn yn effeithio ar y 'gwaith bob-dydd' nac ar wylio'r gorwel am risgiau a allai ymddangos yn y dyfodol.

**Sophie Wint yw cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg Cymoedd i'r Arfordir ac mae'n gyfarwyddydd cyllid a chaffael gyda Cartrefi Dinas Casnewydd. Mae'n sgrifennu o safbwynt personol**



# Glasbrint ar gyfer y dyfodol

Beth ddylid ei wneud i weithgynhyrchu mwy o gartrefi fforddiadwy, ynni-effeithlon oddi ar y safle? Mae gan Matt Dicks rai syniadau



**Ymwelodd Vaughan Gething, cyn-Brif Weinidog Cymru, â ffatri adeiladau modwlar Creating Enterprises Cartrefi Conwy yn y Rhyl fel rhan o'i ymgyrch i fod yn arweinydd Llafur newydd Cymru.**

Yno gwnaeth Gething araith am sut y byddai Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gyflymu'r gwaith o adeiladu tai cymdeithasol i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng tai a hybu swyddi gwyrdd o safon ledled Cymru, gan nodi gweithgynhyrchu modiwlaidd oddi ar y safle fel elfen allweddol o gyflawni'r uchelgais hon.

Mae CIH Cymru yn croesawu'r addewid hwn a gobeithio y bydd yn dal ar frig rhestr flaenoriaethau pwy bynnag a ddaw yn ei le fel Prif Weinidog.

Dwi heb lwyddo i fwrw golwg ar gyfleuster Cartrefi Conwy eto, er i mi glywed a darllen llawer o bethau rhagorol amdano. Fodd bynnag, sawl mis yn ôl ymwelais â ffatri Celtic Offsite United Welsh yng Nghaerffili. Yno, gallant ddarparu hyd at 500 o dai fforddiadwy wedi'u hadeiladu'n fodwlar bob blwyddyn (gydag amser adeiladu o ryw chwe wythnos yn llai na dulliau traddodiadol). Mae'r ffatri'n parhau i greu swyddi lleol, creu partneriaethau, rhoi hwb i gadwyni cyflenwi lleol a rhofio arian yn ôl i mewn i ôl-ffitio cartrefi presennol.

Dwi'n credu y gallaf ddweud, heb angen meddwl ddwywaith, y dylem wneud cynyddu graddfa'r ffordd gyflym hon o adeiladu yn flaenoriaeth ledled Cymru.

## YR UCHELGAIS SERO-NET

Mae'r dull hwn o adeiladu yn darparu cartrefi fforddiadwy tanwydd-effeithlon yn gyflymach, yn helpu i dalu am welliannau i gartrefi tanwydd-dlawd, mae'n cyflawni'n huchelgais sero-net, yn cynnig hyfforddiant ar gyfer sgiliau sero-net a, gyda'r ysgogiad iawn gan y llywodraeth, glasbrint ar gyfer economi sylfaenol a allai wasanaethu cymunedau ledled Cymru am ddegawdau, gan greu swyddi'n uniongyrchol ac yn ehangach yn y gadwyn gyflenwi.

Felly, beth raid i ni ei wneud i beri i hyn ddigwydd?

Wel, yn syml iawn, mae angen i ni wneud Unnos yn gyfrwng dwyn ynghyd yr holl gydrannau sydd eu hangen i ehangu. Yr arloeswyr, y tir, y gallu cynllunio, y contractwyr, y landlordiaid cymdeithasol, y cadwyni cyflenwi ac ati, ynghyd o dan un faner, mewn un gofod hwyluso.

Cafodd Unnos ei grybwyll gyntaf gan Blaid Cymru yn ei maniffesto cyn etholiadau'r Senedd yn 2021. Dywedodd y maniffesto y byddai Unnos – Tir a Thai yn 'endid cyhoeddus', 'yn perthyn ac yn atebol i Lywodraeth Cymru' i'w ddefnyddio gan gynghorau lleol i adeiladu tai cymdeithasol yn gyflym ac ar raddfa fawr.

Enillodd y Blaid mo'r etholiad, ond aeth hyn yn rhan ganolog o'r cytundeb cydweithredu a arwyddwyd rhwng y Blaid a Llywodraeth Cymru yn nes ymlaen yn 2021. Bryd hynny roedd llawer o amheuaeth ynghylch y syniad o fewn y sector yng Nghymru.

Beth yw e? Gofynnodd llawer. Yn seiliedig ar y ffordd y câi ei egluro ar y pryd, troes meddyliau at weledigaeth hunllefus o endid adeiladu Stalinaidd canolog i Gymru. Dim diolch, oedd yr ateb, a digon teg. Mae cymdeithasau tai eisoes yn gwneud hyn, a'i wneud yn dda, y cyfan sydd ei angen arnynt yw mwy o liferi a mwy o fuddsoddi, a dileu'r rhwystrau.

Ond gallai prosiect Unnos, er bod y cytundeb cydweithredu wedi dod i ben, fod yn fecanwaith i wireddu'r weledigaeth hon, gweledigaeth dwi'n credu ein bod ni fel sector yn ei rhannu.

Mae angen i Unnos, er nad yw'r enw hwnnw'n bodoli mwyach ar ôl i Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ymwahanu, fynd yn asiantaeth dros newid, yr un sy'n tynnu'r holl gydrannau at ei gilydd er mwyn cynyddu'r hyn y gwyddom eisoes sut i'w wneud yn dda. Yn wir, a ddylai fynd yn ffocws i'r Tasglu Tai Fforddiadwy, a gynigiodd y cyn-Brif Weinidog yn ei faniffesto arweinyddiaeth?

### ASIANTAETH HYD-BRAICH

Y cwestiwn i'r Llywodraeth yn fy marn i, yw faint o reolaeth ganolog dros y broses honno sydd arnom ei hangen neu ei hawydd? Ai'r gwir amdani yw bod angen asiantaeth hyd-braich i gyflawni hyn?

Nid syniad radical newydd wedi ei blycio o'r nwyfre mo hyn. Bydd llawer yng Nghymru yn cofio argymhelliad adolygiad annibynnol Lynne Pamment o gyflenwad tai fforddiadwy Cymru, gydag argymhelliad 13 yn nodi:

'Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff hyd-braich i weithredu fel hyb ar gyfer rheolaeth tir sector cyhoeddus a gwasanaethau proffesiynol. Dylai'r corff hwn weithio ochr yn ochr ag adrannau/cyrff unigol i ddarparu capasiti ac adnoddau i gyflymu datblygu asedau tir cyhoeddus ac i gefnogi mwy o gysondeb ac effeithlonrwydd wrth reoli'r asedau hynny.'

Roedd yr un adroddiad yn argymell: 'Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth i fapio sut y gall Cymru ddefnyddio gweithgynhyrchu oddi ar y safle (OSM) a DMA (MMC) ymhellach i ddarparu cartrefi di-garbon bron ynghyd ag amserlen briodol ar gyfer cyflawni hyn.'

Onid oes gennym ni felly y glasbrint ar gyfer yr hyn y dylai Unnos fod? Wrth gwrs, mae yna gasgliad ehangach o liferi y mae angen eu tynnu i mewn o dan ymbarél Unnos na dim ond tir. Soniais am yr elfennau cynllunio y byddai angen eu cynnwys, hefyd, contractwyr, cadwyni cyflenwi, ac elfennau eraill o wasanaethau proffesiynol.

Mae meddylwyr mwy na fi yn y gofod hwn sydd eisoes â chynllun wedi'i fapio, ar bapur, ynglŷn â sut y gallai weithio. Ymddengys mai un elfen allweddol yw sut i'w wneud yn ystwyth. I'r perwyl hwnnw, mae llawer yn awgrymu y dylai fod yn gorff hyd-braich, sydd wrth gwrs yn anodd yn wleidyddol gan fod holl brosiect datganoli Cymru wedi cael ei werthu â mantra 'coelcerth y cwangos'; efallai y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn fwy dychmygus parthed sut i ddod â'r cyfansoddrannau ynghyd.

Ond mae gwir angen y dychymyg hwnnw i ddatrys yr argyfwng tai dwfn a strwythurol a wynebwn ar hyn o bryd. Mae'r sector eisoes yn dychmygu hynny, ac mewn pocedi mae eisoes yn cyflawni.

Y cwestiwn nawr yw pa mor radical y mae'r Prif Weinidog newydd am fod?

Matt Dicks yw cyfarwyddydd CIH Cymru







*Mae gan weithgynhyrchu oddi ar y safle'r gallu i gyflymu'r gwaith o adeiladu cartrefi cymdeithasol newydd o gyfleusterau fel ffatri Creating Enterprises yn y Rhyl (chwith, uchaf a chanol) a ffatri Celtic Offsite yng Nghaerffili (gwaelod)*



# CHWARAE GÊM DDIFRIFOL

Dr Helen Taylor yn adrodd ar brosiect ar y cyd i ddatblygu ffordd o fynd i'r afael â lleithder a llwydni

**Mae mynd i'r afael â lleithder a llwydni, a sut mae sefydliadau tai yn gweithio gyda thenantiaid i wneud hyn, yn bwnc allweddol yn sector tai'r DU. Llwyddodd grŵp o academyddion o Brifysgol Metropolitan Caerdydd (Janet Beauchamp, Dr Henry Dawson, a Dr Helen Taylor) i sicrhau cyllid Ymgysylltu â'r Cyhoedd gan y Brifysgol i gynnal nifer o weithdai i hwyluso datblygu protocol newydd i fynd i'r afael â hyn.**

Bu'r tîm academaidd yn gweithio gyda Chymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd (CCHA) i hwyluso'r sesiynau, gyda'r gweithdai'n cael eu cynnal yn Butetown, Caerdydd. Y nod cyd-gynhyrchu protocol y gellid ei fabwysiadu ar draws y sector, â'r ffocws ar y ffaith bod hwn yn brotocol a gyd-ddyluniwyd gan denantiaid.

Cynhaliwyd y gweithdy cyntaf ym mis Mawrth 2024 gyda chymorth cofnodydd gweledol. Gosodwyd tenantiaid (o dai cymdeithasol a thai rhentu preifat) a staff cymdeithasau tai i eistedd mewn grwpiau cymysg a gofynnwyd iddynt gwblhau nifer o weithgareddau, i'w helpu i fynegi eu barn neu eu profiad o geisio datrys problemau lleithder a llwydni gyda'u, neu fel, landlordiaid. Cafwyd mewnbwn gan yr academyddion ar beryglon gwirioneddol lleithder a llwydni i iechyd, cyflwyniad i'r offer a ddefnyddir i fesur y broblem, ac archwiliad o'r syniad o gartref. Daeth y sesiwn i ben gyda'r grwpiau o denantiaid a staff yn dylunio'u protocolau eu hunain parthed sut yr hoffent i landlordiaid fynd i'r afael â lleithder a llwydni (*gweler Ffigur 1*).

Ail gam yr ymchwil oedd dadansoddi'r data a gynhyrchwyd gan gyfranogwyr yn y gweithdy cyntaf a chyfuno hyn yn un protocol. Wrth ddadansoddi data, dyma ni'n sylweddoli fod a wnelo'r data â set o egwyddorion sy'n sail i ddulliau o fynd i'r afael â lleithder a llwydni yn hytrach na phrotocol penodol (*gweler Ffigur 2*).

Ar sail gwaith yr Athro Vikki McCall ym Mhrifysgol Stirling, fe ddechreuon ni archwilio'r syniad o 'gemau difrifol'. Defnyddir y rhain ar draws nifer o feysydd polisi cymdeithasol er mwyn archwilio pynciau difrifol trwy 'chwarae gemau' rhyngweithiol gydag eraill. Gall hyn fod yn ffordd o gyd-gynhyrchu gwybodaeth, galluogi unigolion i brofi safbwyntiau gwahanol, a helpu pobl i gael profiad o benderfynu sut i flaenoriaethu adnoddau.

Cynhaliwyd yr ail weithdy fis Mehefin 2024 a defnyddiwyd hwn i a) ddilysu'r data yr oeddem wedi'i gaffael o Weithdy 1 a b) cynnig datblygu 'gêm ddifrifol' yn seiliedig ar y data hyn. Roedd cynnig y gêm hon yn seiliedig ar y syniad y gallai tenantiaid a staff mewn unrhyw gorff landlord cymdeithasol chwarae'r gêm gyda'i gilydd a thrwy hynny adolygu, diwygio, neu greu protocol newydd yn eu sefydliadau ar gyfer mynd i'r afael â lleithder a llwydni. Y bras syniad ar gyfer y gêm oedd y byddai'r egwyddorion a ddatblygwyd yng Ngweithdy 1 yn bethau a fyddai'n gwneud i chi symud ymlaen trwy'r gêm tuag at eich ateb i broblem lleithder a llwydni. Yna, gofynwyd i gyfranogwyr ddilysu set arall o ddata

*Ffigur 1: y cofnodion gweledol o Weithdy 1*






*Ffigur 2*

| SET 1 – GWERTHOEDD (Y SET A SGORIODD UCHAF) | SET 2 – SWYDDOGAETHAU |
|---|---|
| Gonestrwydd a rheoli disgwyliadau | Adrodd mewn ffyrdd hyblyg |
| Hysbysu tenantiaid yn gyson | Monitro ar y cyd |
| Datrys problemau mewn modd cyfannol | Mynd ati fel tîm |
| Parch wrth gyfathrebu | Addysgu wrth gyfathrebu |
| Atebolrwydd | Rhyngweithio wyneb-yn-wyneb yn bwysig |

*Ffigur 3*

| NODWEDDION PROFIADAU GWAEL WRTH GWYNO AM BROBLEMAU LLEITHDER A LLWYDNI | |
|---|---|
| Cyfathrebu gwael o hyd – diffyg atebolrwydd | Ofn colli tenentiaeth |
| Cywilydd wrth ddangos cyflwr yr eiddo | Diffyg gwybodaeth a chyfathrebu |
| Ymyrraeth gyfreithiol trydydd-parti | Ymateb negyddol gan landlordiaid |
| Google – camhysbysrwydd | Ansicr o'r drefn ar gyfer cwyno |
| Brwydr am bwer rhwng landlord a thenant | Y broses yn cymryd yn rhy hir cyn datrysiad |
| Rhwystrau ieithyddol i gyfathrebu effeithiol | Dim byd ond esgusodion – rhoi'r ffidil yn y to! |
| Methiant mewn cyfathrebu | Y naill ochr yn ceisio beio'r llall |

yn deillio o Weithdy 1, sef yr hyn a amlinellwyd ganddynt fel profiad gwael o geisio mynd i'r afael â lleithder a llwydni (*gweler Ffigur 3*).

Dilysodd y cyfranogwyr y themâu hyn, a'r bwriad oedd eu defnyddio yn y gêm fel pethau a oedd yn achosi i chwaraewyr lithro yn ôl neu aros yn llonydd yn y gêm.

Yn ystod yr adran hon o'r gweithdy, nododd y cyfranogwyr y ffaith y gellid ystyried yr egwyddorion, er iddynt gael eu datblygu'n wreiddiol o fewn y cysyniad o ymdrin â lleithder a llwydni, fel themâu cyffredinol sy'n sail i ddarpariaeth cymdeithas tai o unrhyw wasanaeth. Trafododd y cyfranogwyr sut y gellid cymhwyso hyn i ymddygiad gwrthgymdeithasol a thaflu sbwriel yn anghyfreithlon, ymhlith problemau eraill. Canlyniad yr ail weithdy, felly, oedd bwrw ymlaen i ddatblygu gêm ddifrifol (gan ddefnyddio gair gwahanol yn lle gêm!) o gwmpas darparu gwasanaethau tai da, gyda'r gallu i newid y gwasanaeth sy'n cael ei 'chwarae'.

Mae'r newid hwn yng nghanlyniad y prosiect yn arwydd o ymgysylltiad creadigol y cyfranogwyr ar draws y ddau weithdy. Roedd trafodaethau ac allbynnau'r gweithdai yn ddynamig ac yn cynnig dull amgen o fynd ati i drafod darparu gwasanaethau tai. Cymerodd preswylwyr a staff tai o dair cymdeithas tai wahanol a rhentwyr preifat ran yn y gweithdai hyn gan eu gwneud yn gyfle gwych i rannu a chynhyrchu gwybodaeth ac archwilio safbwyntiau. Ffocws y gweithdai oedd datrysiadau; nid profiadau pobl o broblemau ond sut yr hoffent iddynt gael eu datrys.

Roedd dau ganlyniad i'r prosiect yn y pen draw: sail i ddatblygu 'gêm ddifrifol' yn seiliedig ar ddata am ddarpariaeth gwasanaethau tai, a fformat ar gyfer ymgymryd â'r math hwn o waith ar draws sefydliadau tai a gwahanol grwpiau tenantiaid.

Y camau nesaf, gobeithio, yw bwrw ymlaen â datblygiad y gêm. Gwyliwch y gofod hwn a chysylltwch â fi os am gael gwybod mwy!

**Mae Dr Helen Taylor yn ddarlithydd ar dai ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd**



# Croeso cynnes Cymreig neu amddifadedd bwriadol?

Yn rhifyn mis Ionawr o WHQ, amlinellodd Joy Kent yr hyn a ddysgodd o sgyrsiau gyda chymdeithasau tai ynghylch cynyddu eu cyfraniad at dai a chymorth ar gyfer ceiswyr noddfa yng Nghymru. Mae'n galw am ddull cydweithredol strategol o fynd ati i ddarparu croeso cynnes Cymreig i bobl sy'n ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth

**Mae dwy nod allweddol i'm cyfraniad i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Cyfiawnder Tai Cymru, Tai Pawb a Chyngor Ffoaduriaid Cymru i leihau digartrefedd ac amddifadedd ymhlith pobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru:**

- Ymgysylltu â chymdeithasau tai am gymorth i bobl sydd newydd gael statws ffoadur ac sydd ag angen llety dros-dro a chymorth wrth ymsefydlu yn eu bywyd newydd yng Nghymru
- Dod o hyd i ffyrdd o helpu pobl y gwrthodwyd lloches iddynt, â dim hawl cyrchu cronfeydd cyhoeddus (DHCCC), sy'n amddifad ac angen cymorth tra'n ystyried beth i'w wneud nesaf.

Pan siaradais â chymdeithasau tai ynglŷn â gwneud mwy dros bobl yn y sefyllfaoedd hyn, yr ateb oedd y byddent yn hapus i wneud mwy ar yr amod:

- Bod hyn yn rhywbeth gofynnol gan Lywodraeth Cymru
- Bod yr awdurdod(au) lleol lle maent yn gweithredu am iddynt gyfranogi
- Y gallent ddod o hyd i ffyrdd o wneud i hyn weithio'n ariannol.

Y newyddion da yw bod hyn yn wir yn y rhan fwyaf o Gymru:

- Mae gan Lywodraeth Cymru Gynllun Cenedl Noddfa sy'n cydnabod pa mor ganolog yw tai i ddarparu hynny, ac mae polisi digartrefedd diweddar yn cydnabod pwysigrwydd atal digartrefedd ymhlith ffoaduriaid newydd eu caniatáu a gwneud yr hyn a allwn i bobl sydd â DHCCC.
- Mae awdurdodau lleol – gyda nifer fach iawn o eithriadau – am i ddarparwyr tai wneud mwy. Rydym yn cydweithio'n glòs gyda chynghorau ledled Cymru i archwilio opsiynau a chefnogi ymateb cydweithredol gyda'r sectorau tai a digartrefedd.
- Mae modelau tai â chymorth a fu'n gweithredu mewn rhannau eraill o'r DU ers blynyddoedd lawer y gallem ddysgu ganddynt. Mae gennym hefyd bellach nifer cynyddol o sefydliadau yng Nghymru – elusennau a chymdeithasau tai – sydd wedi canfod ffyrdd o gydweithio a bodloni pob partner o safbwynt ariannol.




Mae sefydliadau tai Cymru eisoes yn helpu ffoaduriaid o Wcráin a gwledydd eraill yn ogystal â phobl sy'n ceisio noddfa

## PAM NA WELSOM FWY O GYNNYDD?

Wel, ni ddylid anwybyddu cyfraniad y sector tai eisoes. O'r 35 o gymdeithasau tai a holwyd, roedd 30 yn rhan o ymateb dan arweiniad y llywodraeth ar gyfer pobl o Wcráin, Irac, Afghanistan a/neu Syria. O'r rhai nad oedd yn rhan o hyn, roedd hynny am na fu'r awdurdod lleol ar eu gofyn.

Yn ogystal, mae nifer cynyddol o fentrau sy'n helpu pobl o wledydd nad ydynt yn dod o dan gynlluniau neu fentrau'r llywodraeth:

- Bu Tai Taf yn cyfrannu at yr agenda hon ers tro mewn amryw ffyrdd ac mae'n cynyddu ei darpariaeth tai dros-dro ar gyfer ffoaduriaid newydd eu caniatáu eleni.
- Mae Pobl yn gweithio gyda Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuenctid Cymru yn Abertawe a The Gap Wales, Casnewydd i helpu ceiswyr lloches newydd eu caniatáu, a rhai a wrthodwyd.
- Mae YMCA Caerdydd yn cyfrannu'n sylweddol at ateb anghenion ffoaduriaid newydd eu caniatáu ac mae ganddo gynlluniau i ddatblygu hyn ymhellach.
- Mae Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd, Tai Wales and West, a Cadwyn yn gweithio gyda Home4U i ddarparu llety i geiswyr lloches a wrthodwyd.

Felly mae enghreifftiau o weithredu, ac mae'r ddarpariaeth yn tyfu. Ond mae angen i ni wneud mwy, ac mae angen cynllun ar gyfer ffoaduriaid newydd eu caniatáu a'r gwrthodedig sy'n wynebu amddifadedd, sydd wedi ei wreiddio yn ymgais genedlaethol Cymru i atal a dileu digartrefedd.

Yn yr Alban, mae menter o'r enw'r ***Everyone Home Collective***, sy'n cynnwys y llywodraeth ganol a lleol a'r sectorau tai a digartrefedd, wedi amlinellu ffordd o fynd ati yn seiliedig ar hawliau dynol, gydag ymchwil fanwl, uchelgais beiddgar a chlir, a chynlluniau manwl ar gyfer cyflawni hyn.

Mae eu strategaeth ***Ending Homelessness Together*** yn cynnwys ***map*** o lwybrau penodol allan o ddigartrefedd ar gyfer pobl â DHCCC ac fe'i darperir trwy gyfrwng y strategeth ***Ending Destitution Together*** a phorth ***Fair Way Scotland***.

Esbonir y ffordd o fynd ati fel:

1. Datblygu llwybr tuag at lety diogel a chymorth i bobl sy'n amddifad a heb hawl i gyrchu arian cyhoeddus, yn seiliedig ar hawliau dynol.
2. Darganfod modelau ariannu a darparu arloesol a gweithredu'r llwybrau ledled yr Alban.
3. Parhau i alw ar Lywodraeth y DU am y newidiadau polisi sydd eu hangen i sicrhau nad oes bylchau yn y fframwaith cyfreithiol ar gyfer pobl.

## AMDDIFADEDD BWRIADOL

Ni allai dogfen Fair Way Scotland Gateway fod yn gliriach wrth esbonio dealltwriaeth y grŵp o gyd-destun gwleidyddol y DU sy'n sail i brofiadau pobl heb fynediad at arian cyhoeddus, gan ei alw'n *amddifadedd trwy fwriad*:

'***Amddifadedd-trwy-fwriad:*** *mae pobl yn amddifad o ganlyniad uniongyrchol i bolisi'r DU, heb y modd i ateb anghenion sylfaenol ac wedi'u gwahardd rhag derbyn budd-daliadau prif-ffrwd yn cynnwys Credyd Cynhwysol, tai awdurdodau lleol a gwasanaethau digartrefedd.'*

Yng Nghymru, argymhellodd y Panel Arbenigol a gynhyrchodd yr ***Adolygiad Deddfwriaethol Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd*** yn 2023:

- Ehangu'r cymorth y gellir ei ddarparu'n gyfreithiol i'r grŵp DHCCC.
- Creu llwybr atgyfeirio gwell at gymorth tai ar gyfer ceiswyr lloches sy'n cael caniatâd i aros.
- Codi ymwybyddiaeth o'r cymorth y gall gwasanaethau cymdeithasol ei gynnig i'r rhai sy'n ffoi rhag trais ac sydd dan amodau DHCCC.

Mae ***Cynllun Gweithredu Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd*** 2021–2026 hefyd yn cynnwys ffoaduriaid sydd newydd gael caniatâd yn y grwpiau y mae'n ymrwymo i'w helpu drwy 'ddatblygu, adolygu neu wella llwybrau gyda chymorth pwrpasol, ymyriadau priodol ac atebion tai ar gyfer grwpiau sydd mewn perygl o niwed.'

O gymharu'r ddau ddull, mae ymateb yr Alban i'w weld yn fwy penodol, manwl a chadarn. Mae'n ei gwneud yn glir bod system fewnfudo llywodraeth y DU yn gwneud pobl yn amddifad yn fwriadol ac yn nodi ffyrdd manwl o fynd i'r afael â hynny, er gwaethaf cyfyngiadau datganoli.

Yng Nghymru, dwi'n meddwl bod angen i ni ddatblygu ymateb creadigol, cydweithredol a strategol ar fwy o frys, ar gyfer y rhai sy'n cael caniatâd i aros a'r rhai a wneir yn amddifad yn fwriadol. Efallai y gallwn ddysgu oddi wrth yr Alban a sefydlu ein mudiad neu'n grŵp ein hunain, yn cynnwys y llywodraeth ddatganoledig a llywodraeth leol ochr yn ochr â sefydliadau tai a digartrefedd. Gyda'n gilydd gallem ddatblygu a darparu ffordd drugarog a chynhwysol o fynd ati, i greu croeso Cymreig gwirioneddol yn lle digartrefedd ac amddifadrwydd. Pwy a saif gyda fi?

**Mae Joy Kent yn ymgynghorydd annibynnol. Cyllidir y prosiect gan Comic Relief. I gael gwybod mwy am y prosiect cysylltwch â hi ar:**
**e: *joy@joy-unlimited.co.uk***
**ffôn: 07393 350049**



# 'Caiff Caerdydd ei chipio!'

Mae Byddin yr Iachawdwriaeth yn nodi 150 mlynedd yng Nghymru drwy gydol 2024 â dathliad o'r enw ***Dyma Gariad/Here is Love***. Jonathan Roberts sy'n edrych ar ei gwaith a'i threftadaeth ledled y wlad heddiw



*Seindorf Byddin yr Iachawdwriaeth ym Merthyr c 1900*

**Croeso i Adran Cymru Byddin yr Iachawdwriaeth.**

Mae ein hanes yng Nghymru yn ymestyn yn ôl i'r cyfnod cyn bedyddio'r mudiad yn Fyddin yr Iachawdwriaeth. Fe'i sefydlwyd yn yr East End yn Llundain gan y ***Parchedig William Booth yn 1865*** fel Y Genhadaeth Gristnogol, â'r nod o fynd â Duw at y bobl yn hytrach nag aros iddyn nhw ddod i'r eglwys. Adlewyrchai'r newid enw o fewn ychydig flynyddoedd y weledigaeth hon yn well, a meddai Booth: *'Nid ffurfio Eglwys arall yw fy nod. Mae digonedd o eglwysi. Dwi am greu Byddin.'*

Heddiw, rydym yn dal i estyn allan at bobl sy'n mynd trwy gyfnod anodd yn union fel y gwnaethom o'n cyfarfod cyntaf yn Neuadd y Bobl ar Stryd Bute ger dociau'r ddinas ym 1874, gyda'r anogaeth: *'Ewch ymlaen frodyr a chwiorydd a chaiff Caerdydd ei chipio.'*

Trawsnewid pobl a chymunedau fu ein busnes ni ers 150 mlynedd yng Nghymru.

Ein gweledigaeth yw 'cyflawnder bywyd i bawb gyda Iesu' sy'n cynnwys darparu gwasanaethau cymdeithasol pwysig gydag awdurdodau lleol a phartneriaid trydydd-sector yn ogystal â rhannu gair Duw yn ein heglwysi a'n canolfannau. Mae egwyddorion a syniadau Booth yn parhau i newid bywydau er daioni ac mae pobl yn dal i ganfod gobaith, adfer cysylltiadau, magu hunan-hyder a chyfrannu'n gadarnhaol at fywyd cymunedol gyda'n cefnogaeth ni.

Mae rhai sy'n brwydro gyda dibyniaeth, digartrefedd neu ganlyniadau caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl sy'n dod atom bellach nid yn unig yn goroesi, ond yn ffynnu, gyda'n swyddogion a'n staff wrth eu hochr. Mae pobl a fu'n tybio sut y gallent ddianc o ddyled neu ddod o hyd i swydd bellach yn aelodau cynhyrchiol o gymdeithas, yn rheoli eu pres personol a'u hymrwymiadau ar ôl derbyn hyfforddiant sgiliau a chymorth gan eglwysi a gwasanaethau Byddin yr Iachawdwriaeth, fel ***Employment Plus***.

## LODESI'R HALELIWIA

Uffern Fach oedd yr enw a roddwyd ar slymiau Merthyr Tudful ganol y 19eg ganrif. Yn un o'r straeon mwyaf teimladwy o'r dyddiau cynnar yng Nghymru, dyma ddwy efengylwraig 21 oed, Kate Watts a Harriet Parkin, yn cyrraedd y dref fis Tachwedd 1878. Ymddengys gwaith y ddwy 'Lodes Haleliwia' hyn a anfonwyd yno gan Booth yn y 150 o straeon a gasglwyd i ddathlu ein pen-blwydd yng Nghymru.

Yn y 1800au diweddar, Merthyr oedd 'Prifddinas Haearn y Byd' a thref fwyaf Cymru wrth i weithwyr gefnu ar amaeth i geisio cyflogau uwch yn y trefi diwydiannol newydd. Fel llawer o gymunedau eraill a oedd yn ehangu'n gyflym, câi hi'n anodd ymdopi â'r mewnlifiad enfawr ac aeth yn gyfystyr ag aflendid a thai gwael. Adeiladwyd tai ar garlam ac yn rhad. Tai bychain un-stafell oedd y rhan fwyaf gyda theulu cyfan wedi ei wasgu i mewn iddi. Dydy'r ymadrodd 'bochfoch' ddim hyd yn oed yn dechrau eu disgrifio. Roedd y rhan fwyaf yn llaith ac, yn waeth, heb stafell ymolchi, toiled neu ddŵr rhedegog.



*Kate Watts ym 1880*



Roedd y strydoedd yn garthffosydd agored a'r ffaith bod y tai dan eu sang yn golygu bod afiechydon fel teiffws, dysentri a cholera yn lledaenu fel tân gwyllt.

Tasg Kate Watts oedd *'dod â'r newyddion da i bawb'* yn y dref hon oedd yn prysur ehangu. Pan gyrhaeddodd Kate a Harriet a chamu oddi ar y trên yng ngorsaf reilffordd Brunel, eu disgrifiad o'r hyn a ganfuwyd ganddynt oedd *'y gwaethaf o bob lle ffiaidd a welais erioed'.*

Wrth fynychu eglwys leol, credai'r pâr bod dull yr addoli yno yn ddi-fflach. Ar ôl cynnal gwasanaeth awyr agored ar gornel stryd, gwelsant gannoedd yn dod at y ffydd ac yn fuan sefydlwyd Corfflu, neu eglwys, Byddin yr Iachawdwriaeth, yr hynaf yng Nghymru

## ER MWYN DUW, GWNA RYWBETH

Parhau i dyfu a ffynnu a wnaeth ein presenoldeb ym Merthyr Tudful ac yn ehangach ledled Cymru, gan groesawu pawb mewn angen ar draws ein cymunedau yn ddiragfarn a diduedd. Bu ymateb i ddigartrefedd ac amddifadedd yn ganolog i'n cenhadaeth erioed. Mae'n hysbys i William Booth annog ei fab, Bramwell, *'er mwyn Duw, gwna rywbeth!'* wrth i'r pâr weld pobl yn cysgu allan yn Llundain.

Agorodd Byddin yr Iachawdwriaeth lety i fenywod tua 1886 yn Moira Terrace yng Nghaerdydd, a barhaodd i weithredu tan ychydig cyn dechrau'r Ail Ryfel Byd. Dywedwyd ar y pryd ei fod yn darparu ar gyfer y rhai sydd *'ychydig yn uwch na'r tlotaf oll ond sydd heb ddim llai o angen bwyd a lloches rhad'.*

Daeth gwybodaeth am Lety'r Menywod, y Metropole, i glawr fel rhan o ymchwil gan ein ***Canolfan Treftadaeth Ryngwladol*** cyn y canmlwyddiant a hanner yng Nghymru – mae'n dal i sefyll heddiw, yn adeilad rhestredig Gradd II. Roedd y cyfleusterau ar y pryd yn cynnwys llofftydd bach gyda matresi sbring a basn ymolchi, toiledau, a cheginau â phob cyfarpar ar gyfer 30 i 40 o fenywod am chwe cheiniog y noson lle gallai preswylwyr baratoi eu bwyd eu hunain neu dalu swm bychan am bryd wedi'i goginio. Roedd gwelyau mewn stafell gysgu gymunedol yn bedair ceiniog y noson, a thalwyd chostau cynnal eraill trwy godi arian.

Ganrif a mwy yn ddiweddarach, mae Byddin yr Iachawdwriaeth yn rhedeg rhaglenni ***Tai yn Gyntaf*** ym Merthyr ac yng Nghaerdydd, gan gefnogi pobl sydd â rhai o'r profiadau caletaf o ddigartrefedd i sicrhau eu cartrefi eu hunain, tra'n darparu cymorth cofleidiol. Symudodd ein cleient cyntaf i mewn i denantiaeth Tai yn Gyntaf ym mis Rhagfyr 2017 ac rydym bellach yn cefnogi tua 40 o bobl ar draws y ddau wasanaeth. Treuliodd llawer o denantiaid flynyddoedd yn byw mewn cylch o gysgu allan neu lety ansefydlog ar ôl dioddef trawma, bod mewn gofal neu dreulio amser yn y carchar; yn rhy aml, cawsant eu siomi dro ar ôl tro gan y systemau a gynlluniwyd i'w cefnogi. Clyw gweithwyr cymorth yn aml gan gleientiaid bod eu perthynas yn un sefydlog a charedig, y gallant ymddiried ynddi.

Mae'r pen-blwydd hwn yn gyfle i ddathlu effaith Byddin yr Iachawdwriaeth yng Nghymru dros y ganrif a hanner ddiwethaf. Mae hefyd yn gyfle i fyfyrio ar y rhan bwysig y mae Cymru a'i phobl wedi'i chwarae yn ein taith. Edrychaf ymlaen at ddyfodol lle byddwn yn parhau yn ffyddlon i weledigaeth Booth o ledaenu cariad Duw a dathlu ffydd, dewrder, gwytnwch a phenderfyniad ein staff rheng-flaen anhygoel a'n harweinwyr cymunedol ledled Cymru i fod ag effaith bositif am flynyddoedd lawer i ddod.

**Yr Is-gyrnol Jonathan Roberts yw rheolwr adrannol Byddin yr Iachawdwriaeth yng Nghymru. Am fwy o wybodaeth ewch i *www.salvationarmy.org.uk* neu dilynwch y 150 mlwyddiant a'r diweddaraf am Fyddin yr Iachawdwriaeth yng Nghymru ar ei ffrwd X**





# Dysgu ar sail profiad

Alex Osmond yn cyflwyno egwyddorion newydd ar gyfer Tai yn Gyntaf yng Nghymru sy'n ymateb i gyd-destun a dealltwriaeth cyfnewidiol o'r model

**Mae Tai yn Gyntaf yn fodel o fri rhyngwladol sy'n canolbwyntio ar symud pobl ddigartref yn gyflym i gartref sefydlog a darparu cymorth aml-asiantaeth dwys am gyhyd ag y bydd ei angen. Mae ffyddlondeb i'r model yn hanfodol i'w lwyddiant, a chydnabyddir pwysigrwydd dilyn yr egwyddorion ledled y byd.**

Chwe blynedd yn ôl, cymerodd y Rhwydwaith Tai yn Gyntaf newydd ei sefydlu yr egwyddorion a dderbynir yn rhyngwladol a'u diwygio rhyw fymryn i adlewyrchu'r cyd-destun yng Nghymru ar y pryd.

Roedd y cyd-destun hwn yn cynnwys niferoedd cymharol uchel o bobl yn cysgu allan, stoc tai hŷn a oedd felly o ansawdd gwaeth nag eiddo rhannau eraill o'r DU, ffocws ar ddulliau seicolegol-wybodus a'r angen am waith partneriaeth aml-asiantaeth.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r cyd-destun wedi newid a'n dealltwriaeth o'r model wedi esblygu. Er enghraifft, canolbwyntiai'r egwyddorion gwreiddiol ar gyfeirio Tai yn Gyntaf at bobl sy'n cysgu allan neu mewn hosteli brys. Dros amser, aethom yn fwyfwy ymwybodol o'r perygl o esgeuluso pobl a allai elwa, a gwneud Tai yn Gyntaf yn anhygyrch iddynt. Mae menywod, er enghraifft, yn llawer llai tebygol o gysgu ar y strydoedd, yn aml yn osgoi hosteli, ac yn aml yn llai gweladwy pan yn ddigartref, yn soffa-syrffio, er enghraifft. Yn ogystal, gall natur digartrefedd a hyd a lled cysgu allan amrywio o fan i fan yng Nghymru a thanlinellai sgyrsiau gydag awdurdodau lleol bod angen sicrhau bod yr egwyddorion yn galluogi'r model i ateb anghenion pobl mewn gwahanol gyd-destunau.

Yn ogystal, golygodd pandemig COVID-19 ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gael 'pawb i mewn' bod llai o bobl ar y strydoedd. Yn dilyn hynny, addawodd y gweinidog 'na fyddai dim mynd yn ôl' ac ymestynnodd angen blaenoriaethol i gynnwys pobl ddigartref ar y strydoedd.

## Y BROSES ACHREDU

Ar ben hynny, mae gennym bellach broses achredu sy'n gwerthuso ufudd-dod gwasanaeth neilltuol a'i bartneriaid i egwyddorion Tai yn Gyntaf. Nid chawsai'r broses hon ei datblygu pan ddatblygwyd yr egwyddorion gwreiddiol. O ystyried mai nod yr achrediad yw bod yn siwrnai barhaus, gefnogol ac adeiladol, mae sicrhau bod unrhyw ddogfennaeth sy'n cwmpasu'r egwyddorion yn cyd-fynd yn iawn â'r achrediad a'i ddogfennaeth yn hanfodol; bydd hyn yn gwneud y broses yn fwy hygyrch a dealladwy i'r rhai sy'n ymgymryd â hi neu'n ystyried gwneud.

Cytunodd Rhwydwaith Tai yn Gyntaf, Cymorth Cymru, a Llywodraeth Cymru fod adolygiad cynhwysfawr o'r *holl* egwyddorion yn beth call, yn hytrach nag addasu dim ond un ohonynt.

Y nod oedd adolygu'r egwyddorion a'r system sgorio a ddefnyddir ar hyn o bryd,



ac yna creu dwy ddogfen: byddai un yn amlinellu'r egwyddorion craidd tra câi dogfen ategol hwy, fwy sylweddol ei drafftio hefyd. Byddai'r ddogfen ategol hon yn cynnwys y system sgorio newydd (er mwyn i wasanaethau allu gwerthuso'u perfformiad at bob egwyddor), ffynonellau tystiolaeth posibl ar gyfer pob egwyddor y gellid eu cyflwyno yn ystod achrediad, a chyd-destun ychwanegol ar gyfer pob egwyddor.

Byddai'r 'cyd-destun ychwanegol' hwn yn cynnwys gwybodaeth gefndir ar egwyddor, yn esbonio pam y gallai fod wedi newid yn ystod yr adolygiad, problemau posib a allai fod yn gysylltiedig â'i chyflawni, ac arfer da a allai helpu i'w chyflawni.

Aeth y broses adolygu rhagddi fel a ganlyn. Gwirfoddolodd aelodau o Rwydwaith Tai yn Gyntaf i ymuno â grŵp gorchwyl a gorffen, a gadeiriwyd gan Catherine Docherty o Fyddin yr Iachawdwriaeth, sydd hefyd yn cadeirio'r rhwydwaith ac sy'n arbenigwraig ar Tai yn Gyntaf. Roedd aelodau'r grŵp bach hwn yn cynrychioli gwahanol rannau o Gymru a gwahanol lefelaul o brofiad o Tai yn Gyntaf. Aethant drwy'r egwyddorion fesul un, gan werthuso'r iaith a ddefnyddid, y sgorio cysylltiedig a'r cyd-destun a'r drafodaeth bwysig a allai daflu mwy o oleuni ar bob egwyddor.

## MEWNWELEDIAD GWERTHFAWR

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad wedi hynny yng ngogledd a de Cymru. Mynychodd pobl sy'n derbyn cymorth Tai yn Gyntaf gyda'u gweithwyr cymorth, a chafwyd mewnwelediad gwerthfawr gan arbenigwyr trwy brofiad a'r staff rheng- flaen sy'n eu cefnogi. Roedd y trafodaethau'n ddefnyddiol dros ben a chafodd drafftiau newydd pob egwyddor eu dadansoddi a'u beirniadu gan y rhai oedd yn fwyaf cyfarwydd â nhw.

Wrth i ddrafftiau newydd y ddwy ddogfen gael eu datblygu, fe'u cymharwyd â iaith egwyddorion a ddefnyddir gan sefydliadau sy'n gweithio yn Ewrop a thu hwnt, i sicrhau bod Tai yn Gyntaf yng Nghymru yn dal yn gyson â'r model rhyngwladol.

Lansiwyd yr egwyddorion newydd gennym yn ein cynhadledd Tai yn Gyntaf ddiweddar, ac wrth wneud hynny, pwysleisiais y ffaith mai nod yr ymarfer hwn oedd peidio byth â newid craidd model Tai yn Gyntaf. Gall y newidiadau i iaith y deg egwyddor a gynhwysir gyda'r erthygl hon ymddangos yn gymharol fach. Fodd bynnag, cafodd y dewisiadau o ran iaith, naws a phwyslais eu hystyried yn drylwyr yn ystod y broses a ddisgrifir uchod. Mae'r ddogfen ategol, sy'n cael ei brandio a'i chyfieithu ar adeg sgrifennu'r erthygl hon, yn cynnwys llawer o newidiadau pellach, a gwersi a ddysgwyd o flynyddoedd o Tai yn Gyntaf ledled Cymru a thu hwnt.

## NEWID MAWR

Mae ehangu'r cysyniad o bwy ddylai allu cael mynediad i Tai yn Gyntaf, fel y trafodwyd, yn newid mawr. Mae'n anodd osgoi geiriau a allai achosi problemau fel 'cymhleth', ond mae'r egwyddor newydd yn ceisio rhestru rhai o'r problemau a'r trawmâu amrywiol y mae pobl sy'n elwa ar gymorth Tai yn Gyntaf yn aml yn eu dioddef, neu wedi'u dioddef. Mae hyn yn cynnwys digartrefedd hirdymor a chael eich siomi gan fodelau cymorth mwy traddodiadol. Ni fyddai neb a oedd â mynediad at Tai yn Gyntaf yn ôl yr egwyddorion gwreiddiol yn cael ei eithrio nawr, ond gall rhai a fyddai wedi syrthio y tu allan i'r meini prawf blaenorol elwa yn y dyfodol.

Dylai newidiadau cynnil eraill i'r iaith fod yn amlwg yn yr egwyddorion newydd. Er enghraifft, mae'r egwyddor gyntaf yn ei gwneud yn glir, yng Nghymru, y dylid darparu Tai yn Gyntaf drwy fodel gwasgaredig.

### YR HAWL I GARTREF O ANSAWDD DA

Mae gan bobl hawl i gartref sy'n fforddiadwy, diogel, cyfanheddol, addas yn gorfforol ac yn ddiwylliannol, a chanddo fynediad at wasanaethau. Caiff pobl eu blaenoriaethu ar gyfer tai, a'u helpu i ddod o hyd i gartref cyn gynted ag y bo modd. Nid yw mynediad at dai yn amodol, mae gan bobl ddewis o ran ble maen nhw'n byw, ac mae dewisiadau tai yn cael eu gwasgaru dros gymunedau.

### CYMORTH HYBLYG CYHYD AG Y BO ANGEN AMDANO

Nid yw cymorth yn gyfyngedig o ran amser, a chydnabyddir fod adferiad yn cymryd amser ac yn amrywio yn ôl anghenion a phrofiadau pobl. Mae hyblygrwydd yn holl bwysig, gan y bydd amledd a dwysedd y cymorth yn amrywio yn ystod y cyfnod y bydd pobl yn ymgysylltu ag ef. Mae'r gwasanaeth yn ymrwymo i lwyth gwaith bychan, er mwyn sicrhau bod staff yn gallu darparu cymorth sy'n drylwyr a pherson-ganolog.

### GWAHANU RHEOLI TAI A CHYMORTH

Caiff rheoli tai a darparu cymorth eu cyflenwi'n annibynnol o'i gilydd. Gall gweithwyr cymorth eiriol ar ran cleientiaid ar unrhyw fater yn ymwneud â'u llety. Nid yw tai yn amodol ar ymgysylltu â chymorth, ac mae'r cynnig o gymorth yn parhau os yw pobl yn symud i gartref gwahanol.

### MAE GAN BOBL DDEWIS A RHEOLAETH

Dylai pobl gael cymaint o ddewis a rheolaeth ag sy'n bosibl dros ble maen nhw'n byw a pha fath o dŷ maen nhw'n byw ynddo. Dylent allu rheoli'r cymorth maen nhw'n ei dderbyn, gan ddewis ble a sut y darperir y cymorth hwnnw. Dylid gwrando ar bobl, a pharchu eu dewisiadau.

### DULL O YMGYSYLLTU GWEITHREDOL

Dylid gwneud defnydd parhaus o'r dull ymgysylltu gweithredol. Mae hyn yn cychwyn gydag allgymorth dyfal, lle dylai staff fod yn rhagweithiol, dyfalbarhaus a phwrpasol wrth iddynt adeiladu perthynas o ymddiriedaeth gyda phobl. Dylid parhau gyda'r dull hwn pan fo gan y person denantiaeth, gyda chymorth yn cael ei gynnig mewn gwahanol ffyrdd, hyd yn oed os yw'r ymgysylltiad yn isel.

### FFOCWS AR GRYFDERAU, NODAU A DYHEADAU

Mae'r gwasanaeth yn gefnogol a grymusol, gan helpu pobl i ddatblygu mwy o hunan-barch a hyder. Mae staff cymorth yn gweithio ochr yn ochr â phobl i nodi eu cryfderau, nodau a dyheadau mewn perthynas â'u hiechyd, lles, addysg, gwaith a gweithgareddau cymdeithasol neu gymunedol. Caiff pobl eu cefnogi i ddilyn a gwireddu eu dewis o nodau.

### DEFNYDDIO DULL O LEIHAU NIWED

Mae rhanddeiliaid sydd ynghlwm â chyflenwi gwasanaeth Tai yn Gyntaf yn defnyddio dull o leihau niwed yng nghyd-destun y defnydd o sylweddau ac alcohol. Nid oes raid i bobl ymwrthod rhag defnyddio sylweddau er mwyn cael mynediad at denantiaeth Tai yn Gyntaf neu at gymorth. Mae pobl yn cael cymorth holistaidd i'w helpu i leihau a lleddfu'r niwed i'w hiechyd a'u lles.

### RHOI CYMORTH I BOBL SYDD Â'R MWYAF O ANGEN AMDANO

Caiff y gwasanaeth ei dargedu at bobl sydd wedi cael sawl cyfnod o ddigartrefedd, a chanddynt profiad o drawma, problemau iechyd meddwl, problemau gyda defnyddio sylweddau a/neu alcohol, a/neu ymgysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n aml wedi cael eu gadael i lawr gan ddulliau a systemau traddodiadol.

### SEICOLEGOL-WYBODUS A GWEITHREDOL GYNHWYSOL

Mae'r gwasanaeth yn seicolegol-wybodus, ac yn cymryd anghenion emosiynol a seicolegol y person i ystyriaeth, ynghyd â'u profiad o drawma. Mae'n weithredol gynhwysol gyda phobl o bob cefndir a hunaniaeth, yn rhywedd-wybodus, ac yn darparu cymorth person-ganolog yn seiliedig ar anghenion pobl, eu cyd-destun, a phwy ydyn nhw.

### GWEITHIO MEWN PARTNERIAETHAU AML-ASIANTAETH

O'r cychwyn cyntaf, cynhwysir yr ystod ehangaf o wasanaethau mewn partneriaeth fel bod pobl yn gallu cael mynediad amserol atynt pan fo eu hangen neu eu heisiau. Gall y gwasanaethau hyn gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau defnyddio sylweddau, gwasanaethau iechyd ehangach, gwasanaethau cymdeithasol, partneriaid tai, a'r gwasanaeth prawf.

Yn yr un modd, mae'r egwyddor o leihau niwed yn egluro'n benodol y ffaith nad yw ymatal rhag defnyddio sylweddau neu alcohol yn amod ar gyfer cael cymorth Tai yn Gyntaf. Bu hyn yn wir erioed, ond mae'n werth ei bwysleisio.

Mae newidiadau i'r egwyddor sy'n ymwneud â'r gwahaniad rhwng cymorth Tai yn Gyntaf a rheolaeth tai yn adlewyrchu siwrnai ddiddorol y buom arni. Yn flaenorol, roedd y system sgorio sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion yn mynnu bod cymorth a rheolaeth tai i'w darparu gan *sefydliadau ar wahân*. Llaciwyd y gofyniad hwn. Cyfranogaeth sefydliadau ar wahân fyddai'r sefyllfa ddelfrydol o hyd, ond rydym wedi derbyn y realiti bod yng Nghymru wasanaethau Tai yn Gyntaf sydd ag un sefydliad yn cyflawni'r ddwy swyddogaeth. Dangosodd trafodaethau gydag arbenigwyr Tai yn Gyntaf mewn gwledydd eraill, yn cynnwys Lloegr, fod gwledydd eraill yn cydnabod y realiti hwn hefyd. Cyhyd â bod y rhai sy'n darparu cymorth â'r gallu i herio'r cydweithwyr sy'n darparu rheolaeth tai, ac yn gallu gweithredu fel eiriolwyr dros eu cleientiaid, nid oes rhaid cael cyfranogiad dau sefydliad. Yn hollbwysig, mae'n rhaid i'r cleient allu canfod bod y swyddogaethau'n wahanol a gweld gweithiwr cymorth fel eiriolwr (rhywbeth y mae'r broses achredu yn ei archwilio'n ofalus).

## YSBRYDOLI NEWID

Ysbrydolodd gweithwyr cymorth a fynychodd ein digwyddiadau wyneb-yn-wyneb newid arall hefyd, sy'n amlwg yn y ddogfen ategol. Er bod Tai yn Gyntaf yn dal i ddibynnu ar fod â 'llwyth achosion bach', ni phennir niferoedd bellach. Wrth i Tai yn Gyntaf ddatblygu a heneiddio fel model ledled Cymru, gallai mwyfwy o bobl weld eu hanghen am gymorth yn gostwng neu hyd yn oed yn mynd yn 'gwsg'. Felly, gallai gweithiwr cymorth fod yn cefnogi nifer o bobl yn weithredol, ond â llwyth mwy o achosion 'cwsg'. Mae bod yn rhy ragnodol yn y maes hwn, fel yr oedd y ddogfennaeth yn flaenorol, yn dangos diffyg hyblygrwydd nad yw'n cyd-fynd ag ysbryd Tai yn Gyntaf. Mae'n werth nodi bod ein hagwedd yn y mater hwn wedi ysbrydoli meddylfryd tebyg yn yr Alban, sydd unwaith eto'n amlygu pwysigrwydd dysgu, cydweithio, a gwaith rhyngwladol gyda Tai yn Gyntaf.

Mae'r ddogfen ategol hirach, wrth gwrs, yn cynnwys llawer mwy o newidiadau, sy'n cael eu hesbonio yn y ddogfennaeth, i ddangos sut y datblygodd ein meddylfryd.

Beth sy'n digwydd nesaf, felly?

Pan fydd y ddogfen ategol wedi'i chwblhau, bydd y ddwy ar gael ar-lein. Anfonir copïau caled hefyd at y sefydliadau priodol ledled Cymru. Rydym yn cynllunio digwyddiadau rhagarweiniol a fydd yn manylu ar y newidiadau amrywiol a wnaed, i baratoi darparwyr yn iawn ar gyfer yr hyn a ddisgwylir, a sut mae'r egwyddorion newydd yn cyd-fynd â'r broses achredu.

Fel a wnaed yn glir, cyfrannodd amrywiaeth eang o safbwyntiau, a mewnwelediad sylweddol, at y broses hon. Dylid canmol pobl sy'n darparu cymorth dwys yn ddyddiol am eu hawydd i rannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt a'u profiadau, gan roi o'u hamser i wneud hynny. Cawsom fewnbwn meddylgar gan bobl a oedd yn derbyn cymorth Tai yn Gyntaf, a rannodd straeon personol ac, mewn rhai achosion, trawmatig. Roedd hyn oll yn pwysleisio, er y gallai'r egwyddorion hyn, i rai, fod yn destun syml ar dudalen, eu bod yn effeithio'n fawr ar fywydau pobl go iawn. Gobeithio y gwna'r egwyddorion diwygiedig gyfiawnder â phawb.

**Alex Osmond yw rheolydd Tai yn Gyntaf a phrofiad byw Cymorth Cymru**

# ADEILAD BACH, ARGRAFF FAWR

Mae darparu llety hanfodol ar gyfer rhai sy'n gadael ysbyty yn newid bywydau ac yn lleddfu pwysau ar y GIG, meddai Lisa Lloyd




**Un o'r ffyrdd niferus y mae RHA Cymru yn darparu cartrefi yw trwy weithio ar addasu eiddo ynni-effeithlon ar gyfer rhai sy'n gadael yr ysbyty, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.**

Crëwyd y cartref newydd yn Dan Yr Allt, Rhydyfelin trwy ddefnyddio tir sy'n eiddo i RHA Cymru. Caniataodd hyn i ni ddylunio a datblygu eiddo wedi'i addasu, gan liniaru'r galw am welyau ysbyty a darparu addasiadau sy'n helpu unigolion i fyw'n annibynnol a gwella ansawdd bywyd yn sylweddol.

Mae ein cartref newydd wedi galluogi ein tenant cyntaf i symud o'i lleoliad ysbyty i eiddo hygyrch ac addas tra'n cwblhau ei siwrnai tuag at adferiad. Pan fydd yn barod i fynd adre, caiff llety parhaol addas ei ddynodi ar ei chyfer, a byddwn yn gallu croesawu ein tenant nesaf i'r cartref arbenigol hwn.

Mae ein cartref newydd yn cynnwys cegin a stafell ymolchi wedi'u haddasu'n llawn, teclyn codi ar drac, drysau â phŵer i'w hagor, storfa sgwteri tu allan a mynediad gwastad o gwmpas yr holl eiddo i alluogi'r preswylwyr i fynd allan yn hawdd a mwynhau lleoliad heddychlon a thawel yr eiddo. Mae'r byngalo dwy-lofft yn addas ar gyfer un person, gyda llofft ychwanegol ar gyfer aelod o'r teulu neu ofalwr.

Symudodd ein tenant cyntaf i mewn yn y gwanwyn a dywedodd wrthym nid yn unig iddi gael y cyfle i adael yr ysbyty ond ei bod yn byw bywyd newydd yn defnyddio cadair olwyn. Mae bellach yn annibynnol ac yn 'arwain bywyd normal'. Mae'r addasiadau a'r teclyn codi yn y stafell fyw a'r llofft yn gwneud ei bywyd gymaint yn haws ac mae'r llawenydd a fynegodd o allu 'jest' eistedd mewn cadair yn gwneud ein gwaith yn werth chweil.

## O SAFBWYNT Y PROSIECT

O safbwynt darparu ein prosiect, a'n model cyllido cymysg, gellir cyflawni prosiectau llai, sy'n aml yn llai hyfyw yn ariannol, a gwella bywydau. Ac mae hynny'n allweddol. Heb fynd ati fel hyn, gallai'r tir yn Dan yr Allt fod wedi sefyll yn wag. Fodd bynnag, drwy ein cydweithrediad, rydym wedi darparu rhywbeth arbennig sy'n cael effaith bositif, a gyda'n gilydd rydym yn darparu adnodd hanfodol ar gyfer cleifion sy'n gadael yr ysbyty i'w galluogi i integreiddio yn ôl i mewn i'r gymuned wrth ddisgwyl am lety mwy parhaol, neu waith i addasu eu cartref.

Pecyn ariannol gan ICF, HCF a chyllid preifat a'n galluogodd i gyflawni'r prosiect hwn. Cyfanswm cost y prosiect am y tir, yr adeiladu a ffioedd cysylltiedig oedd tua £600,000 gyda phecyn cyllid grant o tua 60 y cant i gefnogi rhedeg y cynllun gyda'r gweddill wedi ei gyllido gan RHA Cymru.

## DYLUNIAD A NODAU HIRDYMOR

Wedi'i ddylunio a'i adeiladu i ddefnyddio tanwydd nad yw'n danwydd ffosil, mae'r eiddo'n bodloni safon EPC A (gyda phwmp gwres ffynhonnell aer a phaneli solar ffotofoltäig), Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru – Safonau Cartrefi a Mannau Hardd a'r Safon Cartrefi Gydol Oes.

Y nod hirdymor yw i'r eiddo fod yn fodel ar gyfer yr hyn y gellir ei gyflawni drwy weithio ar y cyd gydag iechyd a thai, megis gyda'r awdurdod lleol a chymdeithasau tai. Yn aml, ystyrir mentrau o'r fath yng nghyd-destun adeiladu ar raddfa fawr, ond yr hyn rydym wedi'i ddangos gyda'n gilydd yw y gall mentrau adeiladu bach fel prosiect Dan Yr Allt gael effaith fawr a chwarae rhan mewn lleddfu pwysau ar ein GIG a symud unigolion i leoliad mwy addas i helpu gyda'u hadferiad.

**Mae Lisa Lloyd yn rheolwr prosiect datblygu gyda RHA Cymru**









# Chwyldro digidol mewn creu cartref

Mae newidiadau radical yn y ffordd rydym yn byw yn awr, ac y gallem fod yn byw yn y dyfodol, yn her i ddylunio ac adeiladu cartrefi, meddai Steven Smith

**Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y termau tŷ a chartref wrth ystyried pwnc tai cynaliadwy. Adeiladwyr sy'n llunio tai, sef waliau, lloriau, stafelloedd, ffenestri a drysau a gwasanaethau'r adeilad. Caiff cartref ei greu wrth i'r preswylwyr ddefnyddio'u sgiliau creu-cartref i droi tŷ gwag yn gartref. Mae'r berthynas hon rhwng tŷ a chartref yn golygu bod stryd o dai unffurf, ymhen amser, yn trawsnewid yn rhes o gartrefi unigryw, pob un â chymeriad mor unigol â'u deiliaid.**

Wrth i ni wthio ymlaen tuag at ddatgarboneiddio, mae ffocws dylunwyr ac adeiladwyr fel arfer ar strategaethau ar gyfer gwella perfformiad tai. Mae'r dechnoleg adeiladu a gwasanaethau sy'n creu tai mwy ynni-effeithlon sy'n perfformio'n well yn hysbys bellach. Mae gweithredu'r gwelliannau angenrheidiol yn fater o sicrhau'r trefniadau ariannol, busnes a sefydliadol priodol – haws dweud na gwneud ar adegau ond serch hynny, mae'n rhan ddisgwyliedig o fyd adeiladu tai.



Y Stafell Smwddio – Neuadd gymunedol ar gyfer gwaith tŷ cydweithredol

*Prosiect Grand Domestic oedd dyluniad traethawd blwyddyn-olaf arobryn y pensaer Elliott Wang yn Ysgol Bensaernïaeth Llundain. Mae'n archwilio ffyrdd amgen o ffurfweddu a defnyddio gofod domestig i ddarparu mwy o hyblygrwydd gweithredu o fewn cyfyngiadau gofod y canllawiau deddfwriaethol.*

## CHWYLDROI CREU CARTREF


Rhoddwyd llai o sylw neu efallai sylw llai manwl i'r newidiadau sylfaenol mewn creu cartref – sut rydym yn byw nawr ac y byddwn yn y dyfodol – ac effaith technoleg gyfrifiadurol a gwasanaethau rhyngrwyd a dyfodiad 'y cartref digidol', sy'n herio syniadau cyfarwydd am ddiben a swyddogaeth gofod domestig. Gyda chymorth technoleg, gall gofod yn y cartref drawsnewid yn bencadlys corfforaeth fyd-eang, swyddfa gefn, stafell ddosbarth, stafell gemau, darlithfa prifysgol, man cyfarfod gyda ffrindiau a theulu, canolfan siopa ddiddiwedd, llyfrgell, neuadd gyngerdd, theatr – neu o leiaf fersiwn o'r holl swyddogaethau a llefydd hyn a oedd gynt ar wahân. Gall hyd yn oed ein defnydd o'r cyfryngau – cerddoriaeth, ffilm, teledu – fod wedi'i bersonoli a'i drefnu'n fanwl trwy dechnolegau AI.

Mae tri newid mawr yn deillio o'r chwyldro creu-cartref digidol hwn.

## 1. GWASANAETHAU DIGIDOL

Yn gyntaf, gwasanaethau digidol yn disodli eiddo. Mae casgliadau recordiau a ffilmiau, llyfrgelloedd o lyfrau a gwyddoniaduron, casgliadau o ohebiaeth, catalogau a llawlyfrau cyfarwyddiadau, y casgliad sleidiau a'r albwm lluniau wedi newid i raddau helaeth o gasgliadau domestig ffisegol i wasanaethau ffrydio, ar sail data. Â'r car, y beic ac unrhyw offer yn eitemau i'w cyflenwi yn ôl yr angen trwy wasanaeth ar-lein neu lyfrgelloedd benthyca a thrwsio.

Mae'r broses o ddisodli stwff domestig gan yr hyn sydd yn ei hanfod yn ddata, yn rhyddhau ac yn newid natur gofod – mae'n gwahodd dibenion eraill a gall leihau'r adnoddau a ddefnyddiwyd i greu'r annibendod domestig yn y lle cyntaf. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyrhaeddodd dinasyddion y DU 'stwff-brig' yn 2003, a gostwng fu ein defnydd o adnoddau materol ers hynny – ergyd galed i fanwerthu sy'n cael ei yrru gan ddefnyddwyr, a newid sylfaenol i'n



*Y Brif Neuadd – Ystafell fyw gymunedol islaw siandelïer o olch*



*Y Neuadd Fwyta – Cegin ar y cyd yng nghanol y gofod*

harferion domestig. Mae'r newidiadau hyn hefyd yn rhan o'r cymysgedd o lai o alw am ofod swyddfa, am siopau stryd-fawr, ac am ganolfannau hamdden a oedd gynt yn rhan lawer mwy o fywyd economaidd a chymdeithasol cymuned.

## 2. MWY O HYBLYGRWYDD

Yn ail, mae angen i dai gael eu dylunio i ganiatáu llawer mwy o hyblygrwydd a dwyster yn y defnydd o ofod dros amser i ddarparu ar gyfer ystod lawer ehangach o weithgareddau domestig nag yn flaenorol. Bellach mae'r broses o ddylunio a chynllunio tai arloesol wedi ei ddiffinio'n llawer llai caeth gan syniadau cul am sut i ddefnyddio gofod.

Mae manteision amgylcheddol sylweddol gwneud defnydd mwy dwys o lai o ofod yn dal yn brin yn y strategaethau ar gyfer creu economi carbon-isel er y gallai hynny gael yr effaith fwyaf. Mae llawer o'r dulliau dylunio ac adeiladu prif-ffrwd yn dal wedi'u gwreiddio mewn modelau traddodiadol o ffordd o fyw a chreu cartref. Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r ffyrdd y mae gofod yn cael ei ddefnyddio nawr, faint ohono sydd ei angen a ble, mewn perthynas â'r gost i gyllidebau ynni a charbon – holl gost adeiladu, cynnal a chadw a meddiannu gofod.

## 3. EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Yn olaf, nid yw'r byd technoleg ddigidol a yrrir gan ddata heb ei effeithiau amgylcheddol. Mae creu cartrefi digidol, yn ogystal â thai wedi eu gyrru gan dechnoleg, yn dibynnu ar gynhyrchu a storio symiau anferth o ddata yn 'y cwmwl'. Ond nid cwmwl anfaterol mo hwn, ond rhwydwaith o ganolfannau data sy'n traflyncu ynni, wedi'u lleoli ledled y byd mewn mannau dienw, yn aml ymhell oddi wrth y defnyddwyr a wasanaethir ganddynt. Amcangyfrifir bod defnydd ynni'r rhain yn rhyw 2-3 y cant o holl ddefnydd ynni'r byd, ffigur y disgwylir iddo gynyddu'n ddramatig gyda newidiadau megis symud yn gyflym i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial. Dydy hyn ddim yn ymddangos fel swm mawr nes i ni sylweddoli ei fod yr un maint â'r diwydiant hedfan byd-eang.

Rhaid i strategaethau ar gyfer byw yn fwy cynaliadwy gynnwys nid yn unig gwella perfformiad ynni tai newydd a phresennol ond hefyd strategaethau dylunio newydd sy'n cymryd i ystyriaeth y ffyrdd sylfaenol newydd hyn o ddefnyddio'n cartrefi, rhyngweithio o fewn ein cymunedau, profi diwylliant ac ateb ein anghenion bob-dydd. Rhaid i asesiad o effeithiau byd-eang yn ogystal â lleol newidiadau mor sylfaenol i'r ffordd rydym yn byw ddylanwadu ar ynni, trafnidiaeth, defnydd tir a chyfleusterau seilwaith eraill ymhell o'r cartrefi a wasanaethir ganddynt.

Mae dylunio ac adeiladu mathau newydd o dai hyblyg i ymateb i batrymau newydd mewn creu cartref yn mynd at graidd yr her o greu llefydd a chreu cartrefi cynaliadwy. Mae'n her sy'n mynnu ein bod yn 'meddwl y tu allan i'r bocs', gan ddechrau gyda graddfa strategol, dylunio ar gyfer dwysedd, a chydnabod faint yn union mae'n bywydau'n parhau i newid yn ddramatig.

**Mae Steven Smith yn bensaer â mwy na 40 mlynedd o brofiad proffesiynol o weithio fel pensaer a chynllunydd trefol yn Llundain ac yn Ewrop, Asia, Awstralia ac UDA. Mae'n aelod o banel Comisiwn Dylunio Cymru. Sefydlodd ei gwmni, *urban narrative*, yn 2010 ar ôl gyrfa gyda'r ymgynghorwyr DEGW, a gyda Farrell and Partners yn y DU ac Asia. Ymgynghorwyr dylunio yw *urban narrative* sy'n gweithio ar y cyd â chleientiaid a rhwydwaith o unigolion creadigol o'r un anian ar ailddyfeisio sefydliadau, adeiladau a dinasoedd. Mae gwaith Steve yn canolbwyntio ar greu naratifau diwylliannol a dylunio sy'n ysbrydoliaeth ar gyfer gwneud llefydd ac adeiladau sy'n ddeniadol, yn ystyrlon ac a werthfawrogir gan ddefnyddwyr**

# Gweledigaeth arloesol...






**Rosie Barnes, Casey Edwards a Kathryn Robinson yn adrodd ar ddatblygiadau sy'n bywiogi niferoedd tai dan arweiniad y gymuned**

**Ni welir tai dan arweiniad y gymuned fel rhan o'r broses o ddarparu tai fforddiadwy prif-ffrwd yn aml, ond fel ymgyrch radicalaidd, raddfa-fach sy'n gweithredu ar yr ymylon. Fodd bynnag, gyda'r argyfwng tai cenedlaethol parhaus, a phobl yn gorfod talu rhenti anfforddiadwy am gartrefi gwael sy'n peryglu eu hiechyd, mae angen ffordd wahanol o fynd ati. Mae'r mudiad yma o bobl sydd am weld agwedd dorfol, dan arweiniad y gymuned tuag at dai, a rhoi pobl cyn elw, ar gynnydd.**

Mae Cwmpas, yr unig hyb tai dan arweiniad y gymuned (CLH) yng Nghymru, ar hyn o bryd yn cefnogi 37 o brosiectau cymunedol gweithredol, gyda 276 o gartrefi fforddiadwy ar y gweill, yn amrywio o gartrefi rhent cymdeithasol a chanolradd i eiddo cyd-berchenogaeth fforddiadwy. Rhwng Mawrth 2023 ac Ebrill 2024, cefnogwyd pum prosiect gennym i roi ceisiadau cynllunio ar gyfer eu cartrefi fforddiadwy ger bron, a naw grŵp cymunedol i sicrhau cyllid hau o raglen Perthyn Llywodraeth Cymru, tua £100,000 i gyd. Ac mae'r mudiad yn dal i dyfu: cawsom 35 o ymholiadau, a buom yn siarad â dros 400 o bobl mewn digwyddiadau a gweithdai ledled y wlad.

Er y gall y niferoedd hyn ymddangos yn fach o'i gymharu â'r miloedd o gartrefi sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr tai eraill, mae'r grwpiau hyn (a chofiwch fod y bobl sy'n arwain y prosiectau hyn yn gwneud hynny'n gwbl wirfoddol) yn arloesi â ffordd newydd o ddarparu tai fforddiadwy sy'n gweddu i anghenion y gymuned leol, gan fynd â chynllunwyr, cyllidwyr, a datblygwyr ar y siwrnai arloesol honno gyda nhw.




## CYFLEOEDD I DYFU'R SECTOR

Yng nghyfarfod diweddaraf y grŵp trawsbleidiol ar gyfer cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, cawsom ein gwahodd, ynghyd â Dr. Tom Archer, ***uwch gymrawd ymchwil yn Sheffield Hallam***, i drafod sut i dyfu'r sector CLH yng Nghymru, a buom yn dadlau o blaid y newidiadau allweddol hyn:

- **Polisïau cynllunio cefnogol:** polisïau a gweithdrefnau gwaredu tir ar gyfer prosiectau CLH, gan ddefnyddio prosiectau CLH i gyflawni gofynion Adran 106, a pholisïau canrannol i sicrhau CLH ar safleoedd penodol, megis safleoedd strategol mawr.
- **Perchnogaeth gymunedol:** cyflwyno gwell hawliau perchnogaeth gymunedol, sy'n galluogi grwpiau cymunedol i gaffael tir a safleoedd ar gyfer CLH fforddiadwy.
- **Gweithio mewn partneriaeth:** mae gan gynghorau ran allweddol i'w chwarae yn nhwf CLH, o gefnogaeth wleidyddol, cyngor a chymorth swyddogion i gyllid, tir ac amgylchedd polisi cefnogol.
- **Cyllido:** mae angen cyllid hau ar y sector, grantiau cyn-datblygu/risg, mynediad at grantiau cyfalaf, a mwy o fenthyca cost-isel.


## GWNEUD TAI DAN ARWEINIAD CYMUNED YN HYFYW

Nid yw siarad am ddata yn ymwneud â phrosiectau tai dan arweiniad y gymuned yn ddigon. Felly ychydig wythnosau yn ôl, dyma gyd-drefnu ymweliad gyda Tai Tarian i ddod â gweithwyr tai proffesiynol, gwleidyddion lleol, ac aelodau cymunedau o gylch Castell-nedd a Phort Talbot ynghyd i weld gwaith rhagorol WeCanMake yn stâd Knowle West, Bryste.

Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol (CLT) yw WeCanMake, sydd â chynlluniau 'i dyfu'r gofodau, yr offer a'r gallu i ddychmygu a rhagweld yn weithredol ffyrdd gwell o sicrhau tai dan arweiniad y gymuned'.

Deilliodd y CLT o argyfwng tai Bryste, lle mae mwy na 19,000 o deuluoedd ar y rhestr aros am dai cymdeithasol, tra bod rhenti preifat a phrisiau tai yn parhau i saethu allan o reolaeth. Mewn cyd-destun a allai ymddangos yn heriol i'r rhai sy'n ceisio bwrw gwreiddiau yn y ddinas, tyfodd WeCanMake o ddaear Knowle West










*Trefnodd Cwmpas a Tai Tarian ymweliad ar gyfer gweithwyr tai proffesiynol, gwleidyddion lleol ac aelodau o'r gymuned i ddysgu am waith Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol WeCanMake stâd Knowle West, Bryste*

gyda'r nod o adeiladu ar sail asedau a chryfderau presennol y gymdogaeth, a chyflawni pethau ar gyfer y bobl sy'n ei galw'n gartref.

Dangosodd taith o gwmpas ei ffatri yn glir y creadigrwydd a'r arloesedd sy'n nodweddu dulliau WeCanMake o adeiladu ac ôl-ffitio cartrefi. O ffenestr wedi'i gwneud o onnen a heintiwyd â chlefyd coed ynn, i insiwleiddio cynaliadwy, a dod wyneb yn wyneb â'r peiriant MMC a oedd yn torri'r pren fesul panel ar gyfer eu cartrefi presennol, roedd y lle yn gwir ysbrydoli a rhoi gobaith i'r rheini ohonom sy'n chwilio am ffyrdd amgen o gartrefu ein cymunedau.

Gan gloi'r diwrnod gydag ymweliad ag un o'u cartrefi newydd ei adeiladu, cawsom oll groeso gan Toni a'i merch. Mae trigolion y CLT yn ymwneud â phob cam o'r dylunio a'r adeiladu, sy'n arwain at falchder amlwg yn eu cartrefi a'r gymuned ehangach. Dafliad carreg o'u cartrefi presennol, mae WeCanMake wedi meddiannu llain o dir gwag a gafodd drwy bolisi gwaredu tir unigryw'r cyngor, sydd ar gael i grwpiau tai dan arweiniad y gymuned yn unig. Mae dyluniadau'n dod i'r amlwg, dan arweiniad y gymuned, wrth gwrs, ar gyfer adeilad tri-llawr sy'n cyfuno gofod preswyl a chymunedol.

Cadwch lygad barcud ar Gastell-nedd a Phort Talbot i weld prosiectau tai ysbrydoledig dan arweiniad y gymuned yn blodeuo!

**Rosie Barnes yw'r cydlynydd tai dan arweiniad y gymuned, Casey Edwards yw'r cynghorydd prosiect: tai cydweithredol, a Kathryn Robinson yw hwylusydd tai dan arweiniad y gymuned Cwmpas. Os ydych yn sefydliad tai, cyngor neu grŵp tai dan arweiniad y gymuned ac am ymweld â phobl eraill a dysgu ganddynt – cysylltwch â ni yn *co-op.housing@wales.coop***

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diweddariad ymchwil

Y diweddaraf gan dîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru




## YMCHWIL TAI LLYWODRAETH CYMRU

Mae'r prosiectau ymchwil canlynol ar y gweill:

- **Mae gwerthusiad o Rhentu Doeth Cymru** ar y gweill. Prif nod yr ymchwil hon yw asesu gweithrediad ac effaith gwasanaethau a ddarperir drwy Rhentu Doeth Cymru.
- **Mae gwerthusiad o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016** ar y gweill. Bydd yr ymchwil hon yn gwerthuso'r Ddeddf newydd ei gweithredu drwy ystyried barn a phrofiadau tenantiaid, landlordiaid a rhanddeiliaid ac mae yn awr yn cychwyn ar ei hail gam.
- Mae **gwerthusiad Cynllun Lesu Cymru** ar y gweill. Bydd yr ymchwil hon yn gwerthuso'r rhaglen, gan edrych ar brofiadau tenantiaid, landlordiaid ac awdurdodau lleol. Bydd hefyd yn casglu gwybodaeth am ddemograffeg y rhai sy'n defnyddio'r cynllun (tenantiaid a landlordiaid).
- Mae **Tai Arloesol: Gwersi Adeiladu Blwyddyn 2 a Ddysgwyd** ar y gweill. Bydd yr ymchwil hon yn nodi'r gwersi allweddol mewn perthynas ag adeiladu a ddysgwyd gan brosiectau a gyllidwyd yn ail flwyddyn y rhaglen tai arloesol.
- Mae **Adeiladau Gwag yng Nghanol Trefi a Busnesau Bach** ar y gweill. Bydd yr ymchwil hon yn canfod sut y daw busnesau bach o hyd i eiddo yng nghanol trefi, a sut y gellir gwella hyn.
- Mae **Ymchwil Ledled Cymru ar Ddyrannu Tai Cymdeithasol** ar y gweill. Mae'r ymchwil hon yn edrych ar ddyrannu tai cymdeithasol mewn awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ledled y wlad. Y nod yw cofnodi gwahaniaethau yn y prosesau a ddefnyddir, yn ogystal ag unrhyw fylchau posib yn y ddarpariaeth.

Mae'r holl adroddiadau ymchwil tai i'w gweld yn: ***llyw.cymru/ymchwil***

## YSTADEGAU TAI

### Digartrefedd

Mae gwybodaeth reoli fisol ar ***ddarpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan*** yn parhau i gael ei chyhoeddi'n rheolaidd, gydag oedi o tua dau fis. Yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr, a gwaith gydag awdurdodau lleol i wella ansawdd y data, rydym bellach yn cyhoeddi'r rhain fel ystadegau swyddogol ac yn cyhoeddi data ar lefel awdurdodau lleol

### Dod o hyd i ystadegau tai ar ein gwefan

Yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr ein hystadegau ei bod yn anodd dod o hyd i ystadegau tai yn rhagweithiol ar ein gwefan rydym yn adolygu'r ffordd y mae'r gyfres gyfredol o ddata gweinyddol a bwletinau ystadegol sy'n ymwneud â thai yn cael eu cyrchu ar y wefan, gyda'r bwriad o wneud gwelliannau.

Ar gyfer unrhyw atebion posibl y byddwn yn eu cynnig mae angen i ni weithio o fewn cyfyngiadau'r wefan bresennol. Felly, rydym yn chwilio am syniadau parthed newidiadau bach y gallwn eu gwneud i wella profiad y defnyddiwr wrth chwilio am ystadegau. Da chi, anfonwch unrhyw syniadau sydd gennych am hyn atom i helpu i lywio ein syniadau; a rhannwch unrhyw enghreifftiau da y gwyddoch amdanynt.

### Amcangyfrifon o'r angen am dai

Cyhoeddwyd yr amcangyfrifon diweddaraf o'r angen am dai ym mis Awst 2020 a defnyddiwyd amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2018. Gan nad yw'r set nesaf o amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer Cymru yn debygol o fod ar gael tan ganol 2025, rydym wrthi'n ystyried a oes angen diweddariad interim (gan ddefnyddio rhagamcanion 2018 o hyd), ac os felly, pa opsiynau sydd ar gael ar gyfer hyn. Hoffem glywed sut rydych yn defnyddio'r data hwn ac unrhyw farn sydd gennych ar y gwaith hwn erbyn diwedd mis Mehefin 2024.

### Cyhoeddiadau

- Ers y diweddariad diwethaf, cyhoeddwyd y canlyniadau ystategol ***Digartrefedd: Ebrill i Fedi 2023*** (16 Ebrill)

Cysylltwch â ni drwy flwch post ***stats.housingconditions@llyw.cymru*** ag unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

### Adeiladu tai newydd

Y chwarter hwn cyhoeddwyd ein diweddariad chwarterol arferol i ***Adeiladu tai newydd: Gorffennaf i Fedi 2023***.

Cysylltwch â ni drwy flwch post ***stats.housingconditions@llyw.cymru*** ag unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

### Cyfarfod nesaf y Grŵp Gwybodaeth Tai (HIG)

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Grŵp Gwybodaeth Tai ar 28 Medi 2023. Ceir yr agenda, y papurau a'r cofnodion ar ***wefan Llywodraeth Cymru***.

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# O nerth i nerth

**Mae 10 partner masnachol Cartrefi Cymunedol Cymru yn defnyddio eu harbenigedd i gefnogi sector tai cymdeithasol Cymru.**

Ers i gorff masnach y cymdeithasau tai lansio'i bartneriaethau masnachol newydd y llynedd mae wedi croesawu sefydliadau o amryw sectorau. Mae'r sefydliadau hyn wedi bod o fudd mawr i gymdeithasau tai Cymru, gan gynnig mwy o fewnwelediad, gwybodaeth werthfawr, a chymorth pwrpasol drwy ddefnyddio gwybodaeth o'u gwahanol feysydd.

Y llynedd, croesawodd CHC saith partner masnachol, gan gynnwys cynghorydd trysorlys a chyllid corfforaethol Centrus a'r cwmni gwasanaethau cadwyn gyflenwi a chaffael Travis Perkins Managed Solutions. Croesawodd hefyd y consortiwm caffael a rheoli asedau CHIC, cwmni cyfreithiol Hugh James, y darparwyr gwasanaethau yswiriant, rheoli risg ac ymgynghori Gallagher, a'r cynghorydd ar ynni Utility Aid. Mae amryw bartneriaid masnachol CCC yn cynnig gwasanaethau sy'n cynnwys darparu cyngor cyfreithiol i gymdeithasau tai Cymru, eu hysbysu'n well am ddefnydd ynni i leihau costau, a datblygu datrysiadau meddalwedd sy'n rhoi profiad y tenant yn gyntaf.

Yn ddiweddar croesawodd Cartrefi Cymunedol Cymru bedwar partner masnachol arall. Daw'r cyntaf, Lovell Partnerships, ag arbenigedd mewn adfywio dan arweiniad tai, tai newydd, tai fforddiadwy, adnewyddu, tir strategol, a mwy. Daw'r ail, y cwmni pensaernïol amlddisgyblaethol o orllewin Cymru, RLH Architectural, â dros 15 mlynedd o brofiad o weithio gyda chymdeithasau tai. Ynghyd â'r sefydliadau hyn mae cwmni ymgynghori gwasanaethau ariannol annibynnol Quantum Advisory, sy'n arbenigo mewn gwasanaethau pensiwn a budd-daliadau gweithwyr. Ac yn olaf, bydd Barcud Shared Services yn cynnig archwilio mewnol ac arbenigedd mewn risg a sicrwydd i'r sector.

**Dysgwch fwy am bartneriaid masnachol Cartrefi Cymunedol Cymru yn *chcymru.org.uk/membership/commercial-partner-members***

LOVELL | RLH architectural | QUANTUM ADVISORY WORKING IN PARTNERSHIP WITH YOU | BARCUD SHARED SERVICES

